# Dechrau'n Deg – Atodiad

## Canllawiau Pontio

Mai 2017

© Hawlfraint y Goron 2017 WG31804 ISBN digidol 978 1 4734 9479 4

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Ynglŷn â'r Canllawiau hyn | 2 |
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Diben Craidd | 7 |
| 3. | Egwyddorion a Disgwyliadau | 8 |
| 4. | Pontio i'r rhaglen Dechrau'n Deg | 11 |
| 5. | Llwybr cymorth i deuluoedd sy'n rhan o Dechrau'n Deg | 17 |
| 6. | Pontio o'r cartref i ofal plant Dechrau'n Deg | 22 |
| 7. | Pontio o ofal plant Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen | 50 |
| 8. | Pontio o ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg i nyrs ysgol | 58 |
| 9. | Pontio o Dechrau'n Deg a chyfeirio at gymorth arall | 60 |
| | Llyfryddiaeth | 69 |
| | Atodiad A: Rhestr o'r Termau a ddefnyddir | 72 |
| | Atodiad B: Enghraifft o lwybr cymorth | 75 |
| | Atodiad C1: Templed ac enghraifft o Broffil Un Dudalen | 76 |
| | Atodiad C2: Templedi o gardiau gwybodaeth fel rhai 'Amdanaf Fi' | 78 |
| | Atodiad Ch: Enghraifft o bolisi pontio | 79 |
| | Atodiad D: Enghraifft o Ganllawiau Presenoldeb | 81 |
| | Atodiad Dd: Gweithredu canllawiau pontio Dechrau'n Deg: Enghreifftiau o bontio'n effeithiol a phrotocolau rhannu gwybodaeth rhwng Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen | 93 |

## Ynglŷn â'r Canllawiau hyn

Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar wedi'i thargedu at deuluoedd â phlant o dan 4 oed mewn rhai o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yw Dechrau'n Deg.

Daw elfennau craidd y rhaglen o amrywiaeth o opsiynau y profwyd eu bod yn dylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol i blant a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gofal plant rhan amser o safon am ddim i blant 2-3 oed;
- gwasanaeth ymweliadau iechyd gwell;
- cymorth rhianta;
- cymorth ar gyfer datblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Dylai'r canllawiau hyn gael eu darllen ar y cyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Dechrau'n Deg, gan gynnwys Canllawiau Strategol Dechrau'n Deg a chanllawiau penodol eraill sy'n ymwneud ag elfennau craidd y rhaglen. Mae'r rhain ar gael yn:

http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?lang=cy

Bydd y canllawiau yn edrych ar y cyfnodau pontio canlynol ar gyfer plant o fewn y rhaglen Dechrau'n Deg:

- pontio i'r rhaglen Dechrau'n Deg;
- pontio o'r cartref i Ofal Plant Dechrau'n Deg;
- pontio o Ofal Plant Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen;
- pontio o ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg i nyrs ysgol;
- pontio o Dechrau'n Deg a chyfeirio at gymorth arall h.y. Teuluoedd yn Gyntaf, a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

Drwy gydol y canllawiau hyn mae'r term 'rhiant' wedi cael ei ddefnyddio fel llaw fer ar gyfer mamau, tadau, gofalwyr, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiedig, llys-rieni a neiniau a theidiau.

### Y gynulleidfa

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hysgrifennu i gynorthwyo'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd sy'n cael gwasanaethau Dechrau'n Deg ac sydd â chyfrifoldeb am gynllunio a rheoli'r cyfnodau pontio a amlinellir uchod.

## 1. Cyflwyniad

Digwyddiadau neu brosesau newid allweddol yn ystod cwrs bywyd yw cyfnodau pontio. Mae'n broses o newid sy'n digwydd, er enghraifft, pan fydd plant (a'u teuluoedd) yn symud o un lleoliad i un arall (e.e. o'u cartref i ofal plant Dechrau'n Deg) neu'n symud o ofal un gweithiwr iechyd proffesiynol i ofal un arall (e.e. o ymwelydd iechyd i nyrs ysgol). Mae'n cwmpasu'r cyfnod o amser y mae'n ei gymryd i blant gyflawni newid o'r fath (e.e. o ymweliadau cyn-mynediad ac ymgartrefu tan i'r plentyn ddod yn aelod llawn o'r lleoliad newydd).

Cyn y 1990au, roedd ymchwil i gyfnodau pontio yn tueddu i ganolbwyntio ar ddigwyddiad ar 'un cyfnod' (e.e. diwrnod cyntaf yn yr ysgol), fodd bynnag, ystyrir cyfnodau pontio nawr nid fel digwyddiad, ond fel proses sy'n cael ei dylanwadu gan strwythurau a phrosesau cymdeithasol ac sy'n cynnwys plant, ymarferwyr a rhieni gyda'i gilydd.

Awgryma ymchwilwyr fod dwy fath o sefyllfa bontio: llorweddol a fertigol (Vogler et al, 2008; Firth et al, 2009). Cyfeiria pontio llorweddol at y newidiadau llai ffurfiol ym mywydau plant ac arferion plant a all ddigwydd o ddydd i ddydd. Enghraifft o hyn yw pan fydd plant yn symud rhwng gwahanol gylchoedd bywyd (e.e. symud rhwng sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol; megis mynd o'r cartref i'r lleoliad gofal plant bob dydd, neu chwarae yn yr awyr agored yn anffurfiol gyda ffrindiau, i eistedd ar y mat ar gyfer gweithgarwch ffurfiol gydag aelod o staff gofal plant). Ym mhob achos bydd angen i blant ddehongli beth sy'n ofynnol ohonynt ym mhob sefyllfa wahanol. Efallai y bydd gan y lleoliad gofal plant, er enghraifft, ddisgwyliadau gwahanol o blant o ran arferion a rheolau a'r hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad 'derbyniol' o gymharu â'r rhieni'r plentyn. Efallai na fydd gan rieni arferion pendant ar gyfer eu plentyn, efallai na fyddant yn disgwyl i'w plentyn eistedd mewn lle penodol i fwyta, neu dacluso ei deganau pan fydd wedi gorffen chwarae gyda nhw.

Cyfnodau pontio fertigol yw cyfnodau pontio sy'n gyfystyr â newid mawr mewn arferion dyddiol plentyn, er enghraifft dechrau mewn lleoliad gofal plant ffurfiol neu fynd i'r ysgol am y tro cyntaf. Y cyfnodau pontio fertigol hyn yw prif ffocws y canllawiau hyn. Fodd bynnag, mae newidiadau pontio llorweddol hefyd yn dylanwadu ar brofiad plant o bontio fertigol a gallant effeithio ar eu lles. Mae angen ystyried hyn yn ystod y broses ymgartrefu pan fydd plant yn addasu i'r ymddygiad sy'n ddisgwyliedig ohonynt ym mhob sefyllfa wahanol neu ar gyfer pob gweithgarwch a'r rheolau cysylltiedig (e.e. gwisgo ffedog wrth baentio, rhannu teganau wrth chwarae, eistedd i fwyta, ble i hongian cotiau ac ati). Os bydd plentyn yn ansicr o'r rheolau neu normau'r lleoliad gall hynny ei atal rhag cael mynediad i gyfleoedd dysgu.

Awgryma gwaith ymchwil fod modd gwella profiadau plant pan fydd staff yn mynd ati i gynorthwyo plant i 'ymgartrefu' a phan fyddant yn ymwybodol o effaith eu harferion ar sut mae plant a'u rhieni yn 'cynefino' ag amgylchedd newydd. Gallant hefyd gadw mewn cof y ffordd y gall amgylchedd cartref y plentyn ddylanwadu ar ymddygiad plentyn a pha mor hawdd y mae'n addasu i weithgareddau bob dydd ac yn rhyngweithio'n gymdeithasol (Fabian a Dunlop, 2002; Vogler et al., 2008). Edrychodd dwy astudiaeth ar symud o'r cartref i leoliadau plentyndod cynnar fel profiad o gymdeithasoli (dyfynnwyd yn Fabian a Dunlop, 2007). Canfu'r astudiaethau hynny, ar ôl cyfnod cychwynnol pan nad oedd gan y plant newydd y wybodaeth

angenrheidiol am y rheolau a ffyrdd o wneud pethau, eu bod yn dysgu'n gyflym iawn sut i gyfranogi'n sylweddol mewn rhyngweithio cymdeithasol.

Awgryma'r astudiaethau hyn fod amser i gymdeithasoli yn elfen bwysig o ran integreiddio plant i leoliad newydd, a dylai hyn gael ei gefnogi'n briodol gan oedolion, er mwyn sicrhau bod plant yn integreiddio'n llwyddiannus i'r grŵp.

Cyn iddynt gyrraedd pedair oed, gall plant ifanc fod wedi wynebu sawl newid yn eu hamgylchiadau personol, a phontio o wahanol ofalwyr neu ddarparwyr gofal plant. Caiff y cyfnod hwn ym mywyd plentyn ei gydnabod fel cyfnod o newid dwys ar gyfer plant, a all arwain at oblygiadau i'w lles a'u canlyniadau nawr ac yn y dyfodol (Vogler et al., 2008). Yn ystod y cyfnod pontio i leoliadau newydd, bydd plant yn gadael eu 'parth cysur' ac yn wynebu'r anghyfarwydd: diwylliant, lle, pobl, rolau, rheolau a hunaniaeth newydd (Dunlop a Fabian, 2007).

Bydd rhai plant yn well am ymdopi â newid nag eraill. Efallai y bydd plant yn ymateb yn hyderus, ond i lawer gall y profiad o bontio fod yn frawychus ac yn gythryblus (Drake, 2006). Mae pob plentyn yn unigryw. Maent yn datblygu ar gyflymder gwahanol ac mae ganddynt ystod eang o nodweddion personol, sgiliau, galluoedd, cefndiroedd a phrofiadau. Efallai y bydd rhai yn ei chael hi'n anodd addasu i reolau newydd, arferion newydd ac amgylchedd newydd. Yn yr un modd ag oedolion, mae pontio a newid yn rhoi plant dan straen, a gall hynny gael effaith sylweddol ar eu lles emosiynol a'u gallu i ymgysylltu'n gadarnhaol ag addysg a rhyngweithio'n gymdeithasol. Gall hefyd beri iddynt ymddwyn yn heriol megis gwlychu anfwriadol neu fod yn amharod i adael rhiant (O'Connor, 2006; Drake, 2006; Fabian a Dunlop, 2002; Llywodraeth Cymru, 2008; Vogler et al., 2008).

Mae profiadau cyntaf o bontio a'r ffordd yr ymdrinnir â hynny yn debygol o effeithio ar allu plant i ymdopi â newid yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae plant yn debygol o deimlo'n fwy hyderus am bontio i leoliad newydd os bydd newidiadau'n digwydd yn raddol (O'Connor, 2006).

**Llais y plentyn**

Mae ymchwil yn cydnabod bod hyd yn oed plant ifanc yn ddysgwyr cymdeithasol gweithgar sydd â'r gallu i ddeall ystod o faterion sy'n effeithio arnynt a chyfrannu eu barn (Fabian a Dunlop, 2002; Vogler et al, 2008). Gall plant ifanc gyfleu eu teimladau a'u dymuniadau o enedigaeth drwy synau, ystumiau, a gweithredoedd i ddechrau, ac yn ddiweddarach drwy leferydd. Mae Sylw Cyffredinol 7 y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn (a ddyfynnir yn Vogler et al, 2008) yn pwysleisio'r pwynt hwn:

*"Research in the last decades has impressively confirmed that children from an early age are explorers with boundless curiosity and that they are judicious decision makers and social actors each with their own unique goals, interests and ways to communicate feelings and intentions"* (page 5).

Gall y cymorth a ddarperir gan oedolion a'r gwerth a'r parch a roddir i'w safbwyntiau ddylanwadu ar allu plant i gymryd rhan. Gellir cofnodi safbwyntiau, dyheadau a phryderon plant drwy wrando ar eu syniadau a'u profiadau fel rhan o arferion a chyfleoedd dysgu dyddiol. Gall hyn fod drwy arsylwi, sgwrs, chwarae rôl neu drwy

ddehongli lluniau plant. Mae angen i'r pwys a roddir ar farn plentyn ifanc ddibynnu ar lefel ei ddealltwriaeth o broblem a'r risg sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad dan sylw. Dengys gwaith ymchwil, fodd bynnag, y gellir rhoi cyfle i blant ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn eu bywydau bob dydd (e.e. pa weithgareddau chwarae y maent am ei wneud; a ydynt eisiau chwarae y tu mewn ynteu yn yr awyr agored) ac i fynegi eu pryderon ynghylch pontio fertigol (e.e. pa fyrbrydau fydd yn cael eu darparu yn y lleoliad newydd; a fydd fy ffrindiau yn symud gyda mi)? (Sefydliad Bernard van Leer 2004; Vogler et al., 2008).

Mae arsylwi manwl yn ffactor allweddol o ran darganfod pa weithgareddau y mae plant yn eu mwynhau ac a ydynt yn ymgartrefu yn eu hamgylchedd newydd. Gall plant sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n ymddangos yn negyddol neu'n heriol fod yn ceisio cyfleu eu rhwystredigaethau, eu diffyg dealltwriaeth neu eu hofn mewn sefyllfa neu amgylchedd newydd. Mae'n bwysig felly treulio amser yn gwrando ac yn arsylwi ar blant gan ddod o hyd i ffyrdd i'w helpu i fynegi eu hunain (Cyngor Sir Essex, 2012).

**Pontio effeithiol**

Mae arfer da yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli a chynllunio cyfnodau pontio yn ofalus gan ystyried anghenion plant a pharchu rhieni fel partneriaid wrth gynorthwyo plant i ddysgu a chynorthwyo gyda chyfnodau pontio plant. Mae pontio llwyddiannus yn dibynnu ar ymrwymiad gan yr holl staff sy'n rhan o'r broses i ddatblygu systemau cyfathrebu a phrotocolau rhannu gwybodaeth effeithiol.

Mae trefniadau pontio o'r ansawdd uchaf:

1. **Pan fydd prosesau a gweithdrefnau yn gefnogol ac yn gynhwysol**

- rhoddir blaenoriaeth i bontio ac mae'r rhai sy'n rheoli gwasanaethau a lleoliadau Dechrau'n Deg yn rhoi ystyriaeth arbennig i gyfnodau pontio ac yn datblygu ethos sy'n annog integreiddio plant a theuluoedd yn raddol ac yn gefnogol;
- caiff pontio ei weld fel proses, nid digwyddiad - mae cynllunio ar gyfer pontio wedi bwrw gwreiddiau ar draws yr ymarfer cyfan ac nid dim ond yn ystod wythnos benodol neu ar ddiwrnod penodol;
- caiff digon o amser ei ddyrannu i gynllunio ar gyfer pontio didrafferth (e.e. i baratoi staff/rhieni/plant; i staff gael mynediad i'r holl wybodaeth a roddir iddynt gan rieni, gweithwyr proffesiynol eraill a lleoliadau blaenorol a'i darllen a chymryd sylw ohoni; ac amser i rannu gwybodaeth ac i nodi a chynllunio cymorth ychwanegol i deuluoedd sy'n agored i niwed);
- caiff gwybodaeth ei rhannu'n rhagweithiol ac yn briodol gyda sefydliadau partner ac yn eu plith. Lle mae hyn yn golygu rhannu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy dylai protocol rhannu gwybodaeth sy'n cydymffurfio â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru gael ei ddatblygu a'i roi ar waith;
- caiff Canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant eu dilyn bob amser ac mae holl ymarferwyr Dechrau'n Deg yn gallu adnabod materion diogelu a phryd i'w hatgyfeirio ac i bwy;

- llwybr (neu daith) cymorth cydlynus ar gael i rieni a phlant ac yn cael ei fynegi'n glir.

**2. Pan fydd y plentyn a'i deulu yn cael ei roi wrth wraidd cynllunio'r broses bontio**

- caiff plant eu rhoi wrth wraidd cynllunio'r broses bontio a'u trin fel unigolion, gan gydnabod eu hangen i deimlo'n ddiogel ac yn hyderus ar bob cam o'r broses bontio;
- cydnabyddir y bydd rhai plant yn fwy agored i niwed nag eraill yn ystod cyfnodau pontio;
- caiff anghenion penodol ac ychwanegol plant a theuluoedd eu cydnabod a chynllunnir ar eu cyfer;
- caiff anghenion plant a theuluoedd o grwpiau ethnig, grwpiau diwylliannol a grwpiau ffydd gwahanol eu parchu;
- caiff plant eu paratoi ar gyfer newid - mae'r plentyn yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel ac ymgartrefu'n haws yn yr amgylchedd newydd pan fydd yn gyfarwydd â phobl, lleoedd ac arferion (e.e. plant yn cael cyfle i gwrdd â'r staff ac i ymweld â lleoliadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau yno);
- darperir deunydd ategol (megis Proffil Un Dudalen neu gardiau gwybodaeth fel rhai 'Amdanaf Fi') er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i'r plentyn megis gwybodaeth am oedolion pwysig yn eu bywydau; y ffyrdd gorau o'u cynorthwyo; yr hyn y maent yn dysgu ei wneud a beth sy'n eu gofidio.

**3. Pan fydd perthnasoedd cadarnhaol yn cael eu sefydlu, ac mae'r holl oedolion sy'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu yn cydweithio'n agos**

- mae gan bawb sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn Dechrau'n Deg ddealltwriaeth glir o'r broses bontio;
- mae pob oedolyn sy'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu yn cydweithio'n agos ac yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol a pharhaus yn digwydd;
- ceir gweithdrefn glir ar gyfer rhannu gwybodaeth am blant a theuluoedd;
- datblygir cyfathrebu effeithiol ar draws y tîm Dechrau'n Deg (e.e. drwy gyfarfodydd tîm, rhannu systemau gwybodaeth ac adnoddau a hyfforddiant ar y cyd);
- datblygir dulliau cyfathrebu a phartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau allanol;
- mae rhieni'n cymryd rhan lawn yn y broses bontio a chaiff amser ei neilltuo i ddatblygu perthnasoedd cefnogol cadarnhaol gyda rhieni a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd ganddynt;
- caiff amrywiaeth o ddulliau eu defnyddio i gyfathrebu â rhieni e.e. ymweliadau cartref, cyfarfodydd wyneb yn wyneb; grwpiau; diwrnodau agored, partïon, tripiau, calendrau, taflenni, cylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol.

**4. Pan fydd amgylcheddau'n groesawgar, yn hygyrch heb greu stigma**

- mae'r staff yn creu awyrgylch cynnes, anfeirniadol a chynhwysol ym mhob lleoliad a grŵp;

- mae'r staff yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gryfderau o weithio gyda theuluoedd;
- mae gan wybodaeth ysgrifenedig naws groesawgar a chyfeillgar, mae'n ddeniadol i'r llygaid, yn defnyddio delweddau ac iaith bositif ac yn hyrwyddo cyffredinolrwydd y rhaglen;
- caiff yr holl blant a theuluoedd sy'n defnyddio lleoliadau eu gwerthfawrogi a'u croesawu;
- mae pob lleoliad yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac agwedd gadarnhaol tuag at amrywiaeth.

**5. Pan fydd parhad yng ngofal, datblygiad ac addysg plentyn**

- ceir parhad yng ngofal, datblygiad ac addysg plant ar draws y rhaglen Dechrau'n Deg e.e. rhoddir ystyriaeth i anghenion cyfannol y plentyn ym mhob cam o'r broses bontio;
- mae staff Dechrau'n Deg yn cyfleu negeseuon cyson am y cymorth sydd ar gael, pryd y bydd ar gael a phwy sy'n ei ddarparu;
- ceir parhad pan fydd plant a theuluoedd yn symud rhwng yr ystod o wasanaethau a rhaglenni y gallant gymryd rhan ynddynt.

## 2. Diben Craidd

Diben craidd rheoli cyfnodau pontio yn effeithiol yw sicrhau y bydd pob plentyn Dechrau'n Deg a'i rieni yn cael cymorth ymarferol ac emosiynol drwy bob cyfnod pontio er mwyn:

- hwyluso parhad eu gofal;
- cynorthwyo dilyniant yn eu datblygiad a'u haddysg;
- gwella eu lles;
- sicrhau eu bod yn cael profiad cadarnhaol o newid.

Dylai pontio fod yn broses ragweithiol, wedi'i chynllunio sy'n ddigon hyblyg i sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu bodloni. Mae pontio effeithiol yn dibynnu i raddau helaeth ar ymrwymiad gan bob ymarferydd Dechrau'n Deg i ddatblygu cysylltiadau cyfathrebu cadarnhaol ac i rannu gwybodaeth yn sensitif ac yn ofalus. Dylai'r rhai sy'n rheoli cyfnodau pontio ystyried sefyllfa, datblygiad ac anghenion plentyn.

Mae perthynas o ymddiriedaeth a pharch gyda rhieni yn rhan annatod o'r broses bontio ac yn helpu i hwyluso'r broses o bontio di-dor ar gyfer plant.

## 3. Egwyddorion a Disgwyliadau

### 3.1 Ymrwymiad i egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[1] fel sail ar gyfer ei pholisi gyda phlant a phobl ifanc, fel y nodir ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.[2] Cytundeb rhyngwladol sy'n hyrwyddo hawliau dynol plant o dan 18 oed yw'r CCUHP.

Mae’r CCHUP yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi a'u grymuso i fyw bywyd hapus, diogel a bodlon. Egwyddorion craidd y CCUHP yw peidio â gwahaniaethu, ymrwymiad i fuddiannau gorau'r plentyn; yr hawl i fywyd, goroesiad a datblygiad ac ystyried llais y plentyn.

Dylai cymorth i blant drwy bob cyfnod pontio adlewyrchu hawliau'r plentyn fel y’u nodir yn y CCUHP:

- sicrhau hawliau'r plentyn ar gyfer gofal sylfaenol a goroesi (Erthyglau 6 a 27);
- chwarae ac addysg (Erthyglau 28, 29 a 31);
- diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth ddiraddiol (Erthyglau 19, 24 a 37);
- hawl i gael llais mewn materion sy'n effeithio arnynt wrth i'w galluoedd datblygu (Erthygl 12).

Mae bod yn ymrwymedig i hawliau plant yn ymwneud â chanolbwyntio ar fuddiannau gorau plant, gan ystyried yr holl ffactorau a all effeithio ar eu lles ym mhob cyfnod pontio. Mae hefyd yn ymwneud â chynnig cymorth cynhwysol a phriodol, yn ogystal â sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed ac yn teimlo'n ddiogel. Wrth ystyried a chynllunio ar gyfer pontio dylid rhoi lle canolog i blant a'u hystyried yn bwysig ac yn unigryw, gyda'u diddordebau, eu sgiliau a'u talentau eu hunain.

Mae'r CCUHP hefyd yn cydnabod rôl unigryw a phwysig rhieni. Mae'n cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â rhieni (Erthyglau 5, 14, 18, 27 a 29). Mae'n cydnabod y gall fod angen cymorth gan y Wladwriaeth arnynt wrth gyflawni eu rôl.

Dywed Safon 8.1 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir (Llywodraeth Cymru 2012b) fod y person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

"Bod y staff yn ymwybodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i oblygiadau o ran eu gwaith a'u hymwneud â'r plant."

---

[1] http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/uncrc/?lang=cy

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents

### 3.2 Rhannu gwybodaeth

Rhannu gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn briodol yw sail gweithio mewn partneriaeth a gweithio'n integredig a darparu gwasanaethau. Mae'n elfen allweddol o ran darparu gwasanaeth cyfannol a di-dor i ddiwallu anghenion plant ac i gynorthwyo gydag adnabod angen neu berygl yn gynnar. Mae rhannu gwybodaeth yn hollbwysig os oes pryderon y gall baban yn y groth, plentyn neu berson ifanc fod mewn perygl o ddioddef niwed. Gall hyn fod yn gysylltiedig â mater diogelu neu bryder nad yw'r plentyn yn datblygu neu'n ffynnu yn ôl y disgwyl. Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol ar gyfnodau pontio allweddol ym mywyd plentyn - er enghraifft pan fydd yn symud o ofal y fydwraig i ofal yr ymwelydd iechyd, y nyrs ysgol neu o’r cartref i ofal plant. Dylid ymgorffori rhannu gwybodaeth yn elfen graidd o reoli cyfnodau pontio’n effeithiol.

Dylid rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol ac yn briodol gyda sefydliadau partner ac yn eu mysg. Lle mae hyn yn golygu rhannu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy dylid defnyddio Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI) yn sail ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn rheolaidd. Dylid datblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth sy'n cydymffurfio â WASPI. Caiff Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol[3] (WASPI) ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru fel y fframwaith sengl ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol. Mae'n ddull ymarferol a llwyddiannus o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau ar gyfer pob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus. Ei nod yw sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â darparwyr priodol yn y trydydd sector a'r sector preifat, yn rhannu gwybodaeth bersonol am unigolion yn gyfreithlon, yn ddiogel ac mewn modd cyfrinachol. Mae pob prif sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru wedi ymrwymo i WASPI ac mae arweinwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi ymrwymo i ddefnyddio WASPI fel sail ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Dylai pob ymarferydd Dechrau'n Deg ddilyn protocolau rhannu gwybodaeth a chadw cofnodion eu sefydliadau. Yn gyffredinol, dylid rhoi gwybodaeth i rieni ynglŷn â pha wybodaeth a gaiff ei rhannu, pam a sut y caiff ei rhannu a chyda phwy, ond gall fod adegau - er enghraifft, mater diogelu - lle nad yw'n bosibl nac yn ddymunol darparu gwybodaeth o'r fath. Dylid gofyn i rieni am ganiatâd i wybodaeth am eu plant gael ei rhannu pan fydd eu plentyn yn ymuno â'r rhaglen Dechrau'n Deg ac ar gyfnodau pontio allweddol eraill megis pan fydd yn dechrau yn y lleoliad gofal plant. Drwy ddatblygu protocolau rhannu i gefnogi arferion rhannu gwybodaeth, gall ymarferwyr fod yn hyderus am y mathau o wybodaeth a gaiff ei rhannu, sut a phryd y bydd yn cael ei rhannu, sut y bydd rhieni’n cael gwybod am y wybodaeth a gaiff ei rhannu, a oes angen caniatâd a chan bwy, a sut y gellir cael y caniatâd hwnnw.

### 3.3 Diogelu

Mae diogelu plant yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Dylai Gweithdrefnau/Canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant gael eu dilyn bob amser a dylai holl ymarferwyr Dechrau'n Deg allu adnabod plant sy'n agored i niwed (gan gynnwys babanod yn y groth), eu cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod a gwella canlyniadau iddynt.

---

http://www.rcslt.org

Mae Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 yn amlinellu sut y dylai pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i hybu lles plant a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan[4] yn darparu safonau cyffredin i lywio ymarfer amddiffyn plant i weithwyr proffesiynol amlasiantaeth yng Nghymru. Maent yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud atgyfeiriadau amddiffyn plant unigol, cymryd camau gweithredu, gwneud penderfyniadau a chreu cynlluniau a'u rhoi ar waith.

Rhaid i'r broses bontio sicrhau bod lles y plentyn (gan gynnwys plentyn yn y groth) yn hollbwysig ac yn cael ei hybu a'i ddiogelu drwy gydol y broses o drosglwyddo cymorth o un darparwr addysg/gofal plant ym maes iechyd neu'r blynyddoedd cynnar i ddarparwr arall.

### 3.4 Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn sefydlu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Wrth ystyried cyfnod pontio plant o'r cartref i ofal plant, rhaid i rieni cael cynnig rhagweithiol i anfon eu plentyn i leoliad cyfrwng Cymraeg. Rhaid i'r rhai sy'n rheoli cyfnodau pontio sicrhau bod anghenion y plentyn o ran y Gymraeg yn cael eu hystyried.

### 3.5 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Wrth ystyried cyfnodau pontio plant, dylai gwasanaethau:

- fod yn gynhwysol ac yn hygyrch;
- ystyried anghenion penodol ac ychwanegol pob plentyn;
- parchu anghenion plant a theuluoedd o grwpiau ethnig, grwpiau diwylliannol a grwpiau ffydd gwahanol;
- bod yn sensitif i'r straen sydd ym mywyd aelodau'r teulu;
- ymgysylltu â theuluoedd gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar gryfder.

Dylai'r rhai sy'n gwneud trefniadau pontio barchu amrywiaeth teuluoedd, gan dderbyn y gall trefniadau teuluol fod yn amrywiol. Dylai gwasanaethau fod yn groesawgar ac yn gefnogol a gweithio mewn partneriaeth â mamau a thadau i adeiladu ar eu cryfderau a'u helpu i nodi anghenion cymorth eu plentyn yn ystod y cyfnod pontio. Dylai gwasanaethau gydnabod y gallai rhai plant (e.e. plant anabl a/neu blant ag anghenion ychwanegol a'r rhai â threfniadau teuluol cymhleth) ei chael hi'n anodd iawn yn ystod cyfnodau o newid ac y bydd angen cymorth ychwanegol, hyblyg arnynt. Dylai ymarferwyr ddarparu modelau rôl da sy'n annog agweddau cadarnhaol a disgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn beth bynnag ei gefndir a'i anghenion. Rhaid i wasanaethau ystyried gofynion penodol teuluoedd o wahanol grwpiau ethnig, grwpiau diwylliannol a grwpiau ffydd a'r rhai sydd â sgiliau Saesneg cyfyngedig. Dylid cynnwys delweddau cadarnhaol o amrywiaeth a gwahaniaethau mewn deunyddiau dysgu a marchnata, llyfrau, posteri, lluniau ac offer chwarae.

[4] http://www.ssiacymru.org.uk/home.php?page_id=298

## 4. Pontio i'r rhaglen Dechrau'n Deg

**Dylid annog pob teulu cymwys i fanteisio ar bob un o bedair hawl y rhaglen Dechrau'n Deg. Dylai gwasanaethau Dechrau'n Deg gael eu hyrwyddo i deuluoedd mewn ffordd gadarnhaol, nad yw'n creu stigma, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael yn lleol a manteision cyfranogi, ac felly eu hysgogi i fanteisio ar wasanaethau.**

Yr ymwelydd iechyd yw cyswllt cyntaf rhieni gyda Dechrau'n Deg fel arfer, ond mewn llawer o ardaloedd gall rhieni hefyd ddod i gysylltiad â bydwraig Dechrau'n Deg. Dangosodd ymchwil ansoddol a oedd yn canolbwyntio ar brofiadau rhieni â chanddynt lawer o anghenion (Llywodraeth Cymru 2013a) fod y rhan fwyaf o deuluoedd wedi dod i wybod am wasanaethau Dechrau'n Deg drwy eu hymwelydd iechyd a bod yr ymwelydd iechyd yn gosod y cywair ar gyfer ymgysylltiad y teulu â'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Canfu hefyd fod cysylltiad clos rhwng perthynas dda gydag ymwelwyr iechyd a manteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg, a chyda phrofiadau cadarnhaol rhieni o'r rhaglen yn gyffredinol.

Efallai y bydd rhai teuluoedd eisoes wedi sefydlu perthynas â'u hymwelydd iechyd generig.  Er mwyn pontio’n ddidrafferth gallai fod yn fuddiol (os bydd pellter yn caniatáu) i'r ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg a'r ymwelydd iechyd generig gwrdd â'r teulu ar y cyd pan gaiff gofal ei drosglwyddo. Gall hyn helpu i sicrhau parhad ac ymddiriedaeth yn y berthynas rhwng y teulu a'r ymwelydd iechyd presennol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i deuluoedd yr ystyrir eu bod yn agored i niwed.

Mae gan ymwelwyr iechyd a’r tîm iechyd ehangach rôl allweddol o ran cyfeirio rhieni at wasanaethau Dechrau'n Deg a’u hannog i fanteisio arnynt. Canfu'r Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru 2013a) y canlynol:

*“Health visitors are instrumental in information provision as they not only give parents information about services, but persuade them about the benefits of taking them up and encourage the most reluctant to attend”* (tudalen 5)

Nododd yr adroddiad y rhesymau canlynol pam na fanteisiodd rhai rhieni yn llawn ar y cynnig Dechrau'n Deg:

- diffyg gwybodaeth a/neu anogaeth, fel arfer o ganlyniad i berthynas wan â'r ymwelydd iechyd;
- gwasanaethau heb gael eu teilwra i'w hanghenion;
- profiad negyddol o ddefnyddio un o'r gwasanaethau.

Mae argraff gyntaf teuluoedd o'r pwynt cyswllt cyntaf gyda gwasanaeth neu brosiect yn aml yn pennu eu barn am y gwasanaeth cyfan a'u parodrwydd i ymgysylltu (Moran, 2004). Yn ogystal, mae sgiliau a phrofiad staff Dechrau'n Deg yn hollbwysig wrth atgyfeirio'n briodol a gweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod teuluoedd yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

**Ymgysylltu â theuluoedd**

Gall cael darlun mor llawn â phosibl o'r rhwystrau y mae teuluoedd yn eu hwynebu o ran cael mynediad at wasanaethau fod yn hollbwysig o ran gwella'r broses o adnabod a chyfeirio. Mae rhai rhieni yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau oherwydd profiadau negyddol blaenorol neu oherwydd eu bod yn bryderus ynghylch ymwneud â gwasanaethau lles. Efallai y byddant hefyd yn ymddangos yn amharod i dderbyn bod problem neu'n ymddangos fel nad oes ganddynt gymhelliant i newid (Moran, 2004; Llywodraeth Cymru 2013a; Barrett, 2003).

Bydd hanes a phrofiadau yn effeithio ar gymhelliant rhieni i ymgysylltu. Gall asesu parodrwydd rhieni i newid helpu i roi mwy o ffocws i'r broses o annog rhieni i gymryd rhan mewn ymyrraeth. Gall datblygu perthynas gefnogol effeithiol ac ysgogi a grymuso rhieni drwy ddefnyddio technegau fel cyfweld ysgogiadol hefyd wneud rhieni yn fwy tebygol o ymgysylltu. Gweler hefyd adran 8.1.2 yng nghanllawiau rhianta Dechrau'n Deg. Mae hyn yn rhoi rhagor o wybodaeth am y model parodrwydd i newid/ Camau Newid.[5]

Mae poblogaethau mewn rhai ardaloedd Dechrau'n Deg yn aml yn eithaf crwydrol, sy'n gallu ei gwneud yn fwy anodd bod yn ymwybodol o symudiadau teulu i mewn ac allan o ardal Dechrau'n Deg a gall fod yn fwy anodd ymgysylltu â theuluoedd yn gynnar hefyd.

Efallai y bydd angen anogaeth a chymorth parhaus a rhagweithiol ar rai teuluoedd i fanteisio ar wasanaethau (Llywodraeth Cymru 2013a). Gellir goresgyn amharodrwydd i fanteisio ar wasanaethau drwy ddatblygu perthnasoedd cefnogol effeithiol. Mae hyn yn ymwneud â thrin rhieni fel partneriaid yn addysg eu plant, rhannu gwybodaeth gyda nhw a dangos parch tuag atynt. Canfuwyd bod y berthynas â staff ac ansawdd sgiliau rhyngbersonol yn ffactor allweddol o ran ymgysylltu'n llwyddiannus â theuluoedd (Barrett, 2003; Moran, 2004; Llywodraeth Cymru 2013a). Ymddengys fod hyn yn wir p'un a oes gan y staff yr un nodweddion personol â'r rhieni ai peidio (e.e. yr un rhyw neu ethnigrwydd). Er mwyn gweithio gyda theuluoedd sy'n agored i niwed, yn arbennig, mae angen ymarferwyr medrus iawn sy'n gallu sefydlu a chynnal perthynas â theuluoedd a allai fod yn wynebu heriau ac yn cyflwyno heriau.

Mae'r Model Partneriaeth Teulu (a elwid gynt yn Fodel Rhiant Gynghorydd) hefyd yn awgrymu y dylai'r rhinweddau canlynol ategu gwybodaeth ac arbenigedd y rhai sy'n cynorthwyo rhieni (Davis a Meltzer, 2007):

- Sylw/gwrando gweithredol;
- Annog ac archwilio;
- Ymateb gydag empathi;
- Crynhoi:
- Galluogi newid;
- Cyd-drafod;
- Datrys problemau

[5] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140926-parenting-guidance-cy.pdf

Gall darparu cymorth ymarferol a gwelliannau byrdymor i amgylchiadau teulu fod yn bwysig o ran ennyn ymddiriedaeth. Gall staff, er enghraifft, weithio gydag asiantaethau allanol eraill (megis y Ganolfan Cyngor ar Bopeth neu Ofal Cymdeithasol) i helpu rhieni i ddatrys problemau gyda dyledion, tai neu anghenion eraill a nodwyd. Gall teuluoedd fod yn fwy tebygol o gymryd rhan os bydd rhieni eraill yn eu cymuned wedi argymell gwasanaethau.

Os rhoddir cyfle i rieni ddweud beth sydd ei angen arnynt; darparu adborth ar y gwasanaethau y maent yn eu derbyn; nodi materion lleol a chyfrannu awgrymiadau ar gyfer datblygu gwasanaeth, efallai y byddant nid yn unig yn teimlo eu bod wedi'u grymuso ond bydd gwasanaethau yn fwy tebygol o fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i deuluoedd.

Er mwyn creu brand Dechrau'n Deg adnabyddus dylai'r logo Dechrau'n Deg fod ar ddeunyddiau marchnata ac ar bob gohebiaeth gyda rhieni. Gellir ei ehangu ymhellach drwy roi logo Dechrau'n Deg ar lifrai'r staff. Mae cysondeb wrth farchnata yn hollbwysig ac mae ymchwil yn awgrymu y gall wella effeithiolrwydd ymgyrch. Gweler 'Canllawiau Dylunio' Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cyngor ar farchnata Dechrau'n Deg.

Dylid mabwysiadu dull cydweithredol sy'n seiliedig ar gryfderau ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd nad yw'n nawddoglyd i rieni, ond sy’n pwysleisio eu cryfderau. Gellir defnyddio diddordeb rhieni yn natblygiad eu plentyn neu mewn ymdrin â strancio fel bachyn i argymell gwasanaethau Dechrau'n Deg megis Iaith a Chwarae neu sesiynau cymorth rhianta. I gael rhagor o wybodaeth am strategaethau ymarferol ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd gweler adran 8 o Ganllawiau Rhianta Dechrau'n Deg.

**Camau Gweithredu Allweddol - marchnata**

Sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu hysbysebu a'u marchnata'n eang, er mwyn i deuluoedd a staff Dechrau'n Deg fod yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael:

- rhoi ardaloedd cod post Dechrau'n Deg i feddygon teulu er mwyn iddynt allu atgyfeirio teuluoedd sy'n newydd i'r ardal at ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg. Ei gwneud yn glir i feddygfeydd beth yw diben Dechrau'n Deg ac nad rhaglen i deuluoedd sy'n agored i niwed yn unig ydyw;
- datblygu cysylltiadau â'r Gofrestrfa Genedigaethau a Marwolaethau a allai roi pecyn gwybodaeth a ffurflen gais i bob teulu sy'n cofrestru genedigaeth mewn ardal cod post Dechrau'n Deg;
- rhoi gwybodaeth ysgrifenedig ddeniadol o ansawdd uchel i deuluoedd. Gallai hyn fod ar ffurf calendrau, amserlenni, taflenni gwybodaeth neu lyfrynnau gyda manylion ac amseroedd y gwasanaethau;
- Sicrhau bod y logo Dechrau'n Deg ar ddeunyddiau marchnata ac ar bob gohebiaeth gyda rhieni;
- ystyried lefel darllen y rhieni. Mae gan NIACE daflen sy'n rhoi cyngor ar sut i ysgrifennu deunydd sy'n hawdd ei ddarllen. Mae'r daflen yn cynnwys fformiwla syml ar gyfer cyfrifo "lefel darllenadwyedd" www.niace.org.uk/current-work/readability
- Ystyried y defnydd o iaith a delweddau cadarnhaol i ddenu mwy o dadau (gan gynnwys rhai dibreswyl, lle bynnag y bo modd). Dylai llythyrau Croeso, er enghraifft, wahodd tadau yn benodol i gymryd rhan yn hytrach na defnyddio termau generig megis 'rhiant';
- sicrhau bod ymwelwyr iechyd yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn rheolaidd (e.e. yn dymhorol);
- cydnabod rôl y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd o ran darparu gwybodaeth berthnasol i rieni am eu hawl i gael gwasanaethau Dechrau'n Deg;
- defnyddio'r DVD hyrwyddo a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Camau Gweithredu Allweddol: pan fydd teuluoedd yn dechrau ar y rhaglen Dechrau'n Deg**

Gellir pontio teuluoedd i Dechrau'n Deg yn y cyfnod cyn-geni; adeg geni neu pan fydd teuluoedd yn symud i ardal Dechrau'n Deg yn ddiweddarach. Ar unrhyw un o'r tri chyfnod hyn, mae'r canlynol yn bwysig:

- gwasanaethau bydwreigiaeth cymunedol generig yn cyd-drafod â bydwragedd Dechrau'n Deg (lle maent yn bodoli) i gwblhau asesiad o anghenion y teulu yn gynnar yn y cyfnod cyn-geni;
- ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg i gysylltu â'r gwasanaeth bydwreigiaeth i gael data ar enedigaethau a ragwelir ar gyfer eu hardal er mwyn hwyluso cyswllt cyn-geni;
- cyd-drafod â'r gwasanaeth bydwreigiaeth generig er mwyn hysbysu ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg neu fydwragedd Dechrau'n Deg am enedigaethau newydd yn amserol;
- ymwelwyr iechyd i wneud trefniadau ar gyfer cyswllt cyn-geni;
- gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol i gael cofnod iechyd y plentyn;
- gwneud trefniadau ar gyfer trosglwyddo o ymwelydd iechyd generig i ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg, lle y bo'n briodol;
- cwblhau asesiad o anghenion y teulu a'i roi ar ffeil;
- sicrhau bod ffurflenni a gweithdrefnau yn syml, mewn iaith sy'n addas ac yn hawdd ei deall;
- bod yn ymwybodol o risgiau ac anghenion ychwanegol newydd-anedig babanod sydd wedi cael gofal arbennig, sydd â chlefydau genetig prin, anghenion iechyd eraill neu nam corfforol, nam ar y synhwyrau neu nam dysgu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydgysylltu ar draws gwasanaethau ymwelwyr iechyd arbenigol Dechrau'n Deg;
- sefydlu dull partneriaeth/amlasiantaeth i sicrhau bod plant a'u teuluoedd (sy'n ymuno â Dechrau'n Deg ar enedigaeth neu'n ddiweddarach) yn cael y cymorth a'r gefnogaeth briodol drwy ddull cyfannol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant a theuluoedd lle ceir anghenion ychwanegol neu gymhleth;
- sicrhau bod rhieni sydd â phlant ag anghenion ychwanegol yn ymwybodol bod ganddynt hawl i fanteisio ar bob un o hawliau'r rhaglen. Dylid neilltuo digon o amser i waith cynllunio amlasiantaeth i sicrhau bod gweithgareddau fel gofal plant, hawliau datblygiad iaith cynnar a chymorth rhianta yn cael eu haddasu i ddiwallu eu hanghenion;
- mynd ati i hyrwyddo gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i deuluoedd mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd ac o wasanaethau lleol sydd ar gael i'w plentyn. Mae '**Cymraeg i Blant'** yn rhoi cyngor am ddim i rieni ar fagu plant yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r wefan yn cynnig awgrymiadau ac adnoddau ar gyfer cyflwyno dwy iaith o'r crud http://cymraeg.llyw.cymru/learning/cymraegiblant/?lang=cy
- cwblhau ffurflenni Dechrau'n Deg perthnasol gyda rhieni i hwyluso rhannu gwybodaeth yng nghyd-destun Dechrau'n Deg a chyda gwasanaethau generig;
- cwblhau'r system casglu data a ddefnyddir yn yr awdurdod lleol (e.e. cronfa ddata, taenlen, PARIS) i olrhain cynnydd y plentyn a'r teulu drwy wasanaethau;
- hysbysu'r teulu am weithdrefnau cwyno.

**Astudiaeth Achos: Goresgyn unigedd a meithrin hyder**[6]

Mae Gwyneth[7] yn rhiant sengl ac mae ganddi bump o blant. Mae hi wedi bod yn gaeth i gyffuriau ac alcohol ac mae wedi bod yn isel ei hysbryd y rhan fwyaf o'i hoes. Yr agwedd fwyaf heriol iddi ar fod yn rhiant yw bod yn gaeth i'w chartref gyda'r plant ac mae hi'n aml yn cael anhawster i reoli'r plant. Mae iselder a diffyg hyder Gwyneth yn golygu ei bod yn amharod i adael y tŷ, a chyn iddi ddefnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg dim ond unwaith yr oedd hi wedi cerdded i lawr y stryd yn ystod y saith mlynedd yr oedd hi wedi byw yno.

Pan ddywedwyd wrthi i ddechrau am Dechrau'n Deg roedd hi'n amharod i fanteisio ar y gwasanaethau. Fodd bynnag, er bod Gwyneth yn nerfus wrth feddwl am dderbyn rhywun dieithr i mewn i'w chartref i ddechrau, cafodd gyfanswm o dair rhaglen rhianta yn y cartref (Handling Children's Behaviour, Positive Parenting a Stepping Stones). Roedd y rhain o gymorth i ddatblygu ei hyder a phan ddechreuodd fynd â'i mab i ofal plant, dechreuodd gwrdd â rhieni eraill.

"Roeddwn i'n adnabod rhai o'r rhieni ers tro oherwydd fy mod i wedi bod yn yr ysgol neu'r ysgol uwchradd gyda nhw, ond oherwydd fy hyder nid wyf erioed wedi siarad â nhw, ond gyda'r cylch chwarae rydych yn gwneud cysylltiadau eto a byddwch yn dechrau dweud helô a hwyl fawr. Mae'n eich annog i ddod allan fel person ac mae yno ychydig o awyrgylch teuluol. "

Ers hynny mae wedi dod yn ffrindiau agos gydag un o'r mamau ar ôl darganfod bod ganddynt gefndiroedd tebyg ac mae Gwyneth bellach yn ei gweld yn rheolaidd i gael 'sgyrsiau oedolion'. Mae hi hefyd yn dweud bod cael adborth gan y staff gofal plant wedi golygu ei bod wedi dod yn fwy cyfforddus yn siarad â phobl ddieithr.

[6] Dyfynnwyd yn Llywodraeth Cymru (2013a) 'Flying start qualitative research with high need families' Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 64/2013

[7] Mae enwau mewn astudiaethau achos wedi cael eu newid i ddiogelu hunaniaeth.

## 5. Llwybr cymorth i deuluoedd sy'n rhan o Dechrau'n Deg

**Dylid amlinellu llwybr cydlynol [9] o gymorth sydd ar gael i rieni. Dylai'r llwybr darpariaeth hwn fynegi'n glir pa gymorth sydd ar gael i deuluoedd ar bob cam o ddatblygiad plentyn. Dylai cymorth (wedi'i dargedu a chyffredinol) fod ar gael i ddiwallu anghenion teuluoedd ar bob cam o ddatblygiad eu plentyn. Dylai hyn, ynghyd â chyfeirio teuluoedd yn effeithiol at a rhwng gwasanaethau gwahanol Dechrau'n Deg ac at ddarparwyr allanol, eu galluogi i symud yn 'ddi-dor' drwy wasanaethau.**

Mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru mae llwybr cydlynol[8] o'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd wedi'i amlinellu. Mae hyn yn mynegi pa gymorth sydd ar gael i deuluoedd ag anghenion cyffredinol, ym mhob cam o ddatblygiad plentyn. Mae'r llwybr yn cynnwys yr hawliau sylfaenol a gynigir i deuluoedd o dan y pedair hawl (e.e. ymweliadau iechyd craidd; cymorth rhianta; gofal plant rhan-amser ar gyfer plant 2-3 oed a datblygiad iaith cynnar). Mae'n cynnwys cymorth perthnasol a gynigir gan amrywiaeth o staff Dechrau'n Deg gan gynnwys bydwragedd, ymwelwyr iechyd, y blynyddoedd cynnar a gweithwyr cymorth i deuluoedd, yn ogystal â chan staff gofal plant. Mae 'Review of parenting support of Flying Start' Llywodraeth Cymru, (2013d) yn nodi hyn fel arfer gorau ac yn cyfeirio ato fel taith y cwsmer.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd y llwybr cymorth ym mhob ardal Dechrau'n Deg yn wahanol i ryw raddau, yn dibynnu ar y staff a gyflogir a dulliau gweithredu lleol. Dylai pob ardal ddatblygu llwybr neu fap o lwybrau dilyniant mewn perthynas â'r ddarpariaeth.

Nodau allweddol y llwybr neu'r map yw:

- egluro'r llwybrau cymorth sydd ar gael i rieni sy'n gymwys i gael gwasanaethau Dechrau'n Deg a darparu amlinelliad o'r hyn y gall rhieni ei ddisgwyl. Dylai hyn, ynghyd â chyfeirio rhieni'n effeithiol at a rhwng gwasanaethau gwahanol Dechrau'n Deg, eu galluogi i symud yn 'ddi-dor' drwy wasanaethau;
- codi proffil Dechrau'n Deg a'r fantais i deuluoedd yn sgil cael cymorth;
- sicrhau bod teuluoedd yn cael eu galluogi i gael mynediad i ystod o gymorth Dechrau'n Deg;
- rhoi gwybod i deuluoedd bod yr holl deuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael cynnig y cymorth hwn, a thrwy hynny leihau stigma;
- codi ymwybyddiaeth gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol o'r gwahanol wasanaethau sydd ar gael;
- sicrhau bod staff allweddol sy'n gweithio gyda theuluoedd yn cyfleu'r un negeseuon am y cymorth sydd ar gael, pryd y bydd ar gael a phwy sy'n ei ddarparu. Mae'r cysondeb hwn yn cynyddu'r tebygolrwydd o ymgysylltu'n gadarnhaol a pharhaus â gwasanaethau;

[8] Cyfeirir at lwybr cymorth weithiau fel map o lwybrau dilyniant ar gyfer darpariaeth neu daith cymorth hefyd.

- pennu llwybr cymorth y gellir ei adnabod er mwyn cynorthwyo gyda rhannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth;
- ei gwneud yn glir pryd y gall rheini gael mynediad i bob hawl gan wneud y gwaith cynllunio ar gyfer pontio'n haws;
- helpu i atgoffa staff o'r cyfnodau allweddol pan fydd pontio'n debygol o ddigwydd, er mwyn sicrhau bod y broses gynllunio ar gyfer pontio yn dechrau'n ddigon cynnar i hwyluso cyfnod pontio cadarnhaol.

Gall fod yn ddefnyddiol cynhyrchu dogfennau cyfochrog - un ar gyfer rhieni ac un ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Gall y ddogfen ar gyfer gweithwyr proffesiynol hefyd ddarparu llinell amser yn dangos pa gamau a gwaith papur y mae angen i'r staff eu cwblhau ar bob cam o ddatblygiad plentyn (e.e. atgoffa rhieni am eu cymhwyster gofal plant a chwblhau'r ffurflen ariannu gofal plant). Gellir cadw copi o'r ddogfen llwybr hefyd ar gofnod plentyn er mwyn gwirio pa hawliau y mae'r teulu wedi manteisio arnynt.

Nid oes un llwybr neu daith drwy wasanaethau – bydd teuluoedd gwahanol yn dilyn llwybrau gwahanol rhwng gwasanaethau Dechrau'n Deg. Mae pob plentyn a theulu sy'n defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg yn unigryw a dylai'r llwybr cymorth fod yn hyblyg a bod yn 'arwyddbost' yn bennaf er mwyn rhoi cyfeiriad a ffocws ac i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio'r cyfnod pontio. Efallai y bydd angen cymorth a gwasanaethau arbenigol ychwanegol ar blant a theuluoedd ag anghenion ychwanegol neu benodol er mwyn diwallu eu hanghenion. Dylai'r llwybr cymorth cyffredinol gael ei gysylltu â llwybr cymorth i blant ag anghenion ychwanegol.

Gweler Atodiad B am enghraifft o lwybr cymorth a'r ddolen ganlynol am enghraifft o lwybr cymorth i rieni:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/children_and_young_people/flying_start.aspx

### 5.1 Cyfathrebu ar draws y tîm Dechrau'n Deg

Dim ond os bydd staff Dechrau'n Deg yn cydweithredu ac yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd y gall pontio didrafferth ddigwydd. Gall y canlynol hwyluso hyn:

- **cyfarfodydd tîm** - mae'r rhain yn rhoi cyfle i bawb gael y wybodaeth ddiweddaraf. Gall hefyd roi cyfle i staff gael sgwrs anffurfiol am y teuluoedd y maent yn gweithio â nhw gan alluogi ymarferwyr i nodi a chodi pryderon yn gynnar. O bryd i'w gilydd, dylid adolygu pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd a'u ffocws er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn effeithiol ac yn effeithlon;
- gellid trefnu diwrnod **hyfforddiant pontio**. Mewn un awdurdod lleol datblygodd yr Athrawon Cyswllt a'r Ymgynghorydd Cyfnod Sylfaen ddiwrnod hyfforddi ar bontio fel cyfle i rannu gwybodaeth a strategaethau. Hwylusodd hyn hefyd y prosesau pontio rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen;
- darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** am y gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo teuluoedd yn yr ardal;

- **systemau gwybodaeth a rennir** - mae rhai awdurdodau lleol wedi buddsoddi mewn systemau data a gwybodaeth e.e. PARIS, sy'n galluogi ymarferwyr iechyd ac ymarferwyr Dechrau'n Deg i gael gafael ar yr un wybodaeth. Mae rhai wedi datblygu eu systemau mamolaeth presennol i rannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau mamolaeth ac ymwelwyr iechyd e.e. manylion genedigaethau a ragwelir er mwyn cynllunio cysylltiadau cyn-geni;
- **rhannu adnoddau ar draws ardal yr awdurdod lleol** - mewn rhai ardaloedd gall ymarferwyr fynd i unrhyw adeilad awdurdod lleol yn eu hardal a chael mynediad at adnoddau megis ffôn a chyfrifiadur. Gall hyn helpu ymarferwyr Dechrau'n Deg i weithredu fel tîm heb orfod gweithio yn yr un swyddfa neu leoliad o anghenraid;
- **hyfforddiant ar y cyd**;
- **cyfleoedd i gysgodi aelodau eraill o'r tîm** - gall hyn helpu staff i ddatblygu gwell dealltwriaeth o rolau ei gilydd.

### 5.2 Sicrhau pontio didrafferth rhwng hawliau Dechrau'n Deg

Mae ymwelwyr iechyd yn chwarae rhan allweddol o ran rhoi cymorth i deuluoedd symud rhwng yr ystod o wasanaethau a rhaglenni y gallant ymgysylltu â nhw. Gall ymwelwyr iechyd weithredu fel eiriolwr ar gyfer y teulu (e.e. eu helpu i lenwi ffurflenni cais); fel gweithiwr allweddol (e.e. cydgysylltu apwyntiadau iechyd) ac annog rhieni i ofyn am gymorth i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion (e.e. mater iechyd meddwl). Dylai gweithwyr proffesiynol eraill o fewn y rhaglen Dechrau'n Deg hefyd gyfrannu at hyn a gallant hefyd gyflawni'r rolau hyn.

Mae'n bwysig bod pob aelod o staff Dechrau'n Deg yn ymwybodol o'r cymorth Dechrau'n Deg sydd ar gael i deuluoedd. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn adnodd allweddol sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd, ymwelwyr iechyd a phartneriaid eraill am y gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo teuluoedd yn yr ardal. Dylai staff hefyd fod yn ymwybodol o sut i gyfeirio teuluoedd at wasanaethau mwy arbenigol, os bydd angen.

Disgrifiodd rhai rhieni a gyfwelwyd fel rhan o'r Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2013a) eu bod wedi symud rhwng gwasanaethau bron yn ddi-dor, heb iddynt orfod gwneud dim ymdrech i drefnu na gwneud cais am ddim. Ar ôl i rieni ddefnyddio un gwasanaeth, maent yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau eraill gan ddod yn fwy cyfforddus â'r syniad o ddefnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg yn gyffredinol. Gweler y blwch ar y dudalen nesaf am syniadau i hwyluso hyn.

Mae cyfeirio teuluoedd yn effeithiol yn dibynnu ar sefydlu ymddiriedaeth a meithrin perthynas â nhw. Gall cael darlun mor llawn â phosibl o'r rhwystrau y mae teuluoedd yn eu hwynebu o ran cael mynediad at wasanaethau fod yn hollbwysig i wella'r broses o adnabod a chyfeirio. Gall rhag-weld y rhwystrau tebygol ac ystyried sut y gellir eu goresgyn wrth gynllunio gwasanaethau hefyd fod yn ddefnyddiol (e.e. defnyddio lleoliadau yn ardal y rhiant; darparu creche ac ati).

**Gweithgareddau i hyrwyddo gwasanaeth di-dor:**

- rhieni yn cael eu cyfeirio gan y gwasanaethau y maent eisoes wedi eu defnyddio i wasanaethau eraill Dechrau'n Deg;
- staff sy'n darparu gwasanaeth i deuluoedd ar un cam o ddatblygiad eu plentyn yn rhoi gwybod i rieni am weithgareddau yn y cam nesaf neu'n eu hannog i gymryd rhan ynddynt. Gellir disgrifio hyn hefyd fel "trosglwyddo'r baton";
- plant yn mynd â llythyron gartref o'r lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg ynglŷn â grwpiau eraill y gall teuluoedd ymuno â nhw;
- staff gofal plant yn argymell gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar y pryd, neu staff cymorth rhianta yn cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn ymyrraeth rhianta yng ngham nesaf datblygiad eu plentyn;
- cydleoli gwasanaethau er mwyn i rieni ymgyfarwyddo â'r hyn sydd ar gael yng ngham nesaf datblygiad plentyn e.e. gellir cynnal clinig bydwreigiaeth yr un pryd ac yn yr un lleoliad â sesiwn tylino i fabanod; gellir cynnal y clinig ymwelydd iechyd yr un pryd â sesiwn aros a chwarae.

**Enghreifftiau o weithio'n 'ddi-dor':**

Nododd y Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru 2013a) yr enghreifftiau canlynol o weithio'n 'ddi-dor':

- cynnal sesiynau Iaith a Chwarae yr un pryd â sesiynau gofal plant;
- meddygon teulu yn atgyfeirio rhieni at yr ymwelydd iechyd pan grybwyllodd rhieni rywbeth y gallai'r ymwelydd iechyd ddarparu cymorth ar ei gyfer (e.e. ymddygiad plentyn);
- ymwelwyr iechyd yn trefnu cymorth chwarae a/neu raglenni rhianta yn y cartref;
- ymwelwyr iechyd yn mynychu rhaglenni rhianta a grwpiau galw heibio fel Aros i Chwarae er mwyn i rieni weld wyneb cyfarwydd, sy'n gwneud iddynt deimlo'n fwy cyfforddus. (Mae hyn hefyd yn caniatáu i'r ymwelydd iechyd gael sgwrs anffurfiol gyda rhieni);
- ymwelwyr iechyd yn galw i mewn i leoliadau gofal plant i wirio cynnydd plant - gan ganiatáu i'r ymwelydd iechyd gynnig unrhyw gymorth penodol y gall fod ei angen arnynt;
- grwpiau o staff Dechrau'n Deg (er enghraifft, ymwelwyr iechyd a staff gofal plant) yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau gydag iechyd neu ymddygiad y plentyn.

**Astudiaeth Achos: Dull pontio amlasiantaeth**

Mae cyfarfodydd sicrwydd ansawdd amlasiantaeth misol a thymhorol yn cael eu cynnal yn yr holl 'ganolfannau plant' lle mae ymwelwyr iechyd, y rheolwr gofal plant, cynrychiolydd therapydd lleferydd ac iaith, rhianta ac asiantaethau eraill, lle y bo hynny'n briodol, yn cwrdd i rannu gwybodaeth berthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod dull cyfannol yn cael ei fabwysiadu. Ceir cyfathrebu agos â bydwragedd Dechrau'n Deg hefyd.

Mae Llwybr Datblygiad Iaith Cynnar a Llwybr Rhianta yn gwella llwybrau pontio naturiol ymhellach.

Caiff ymwelwyr iechyd eu cydleoli â’r rheolwyr gofal plant yn y lleoliad gofal plant sydd mewn lleoliad addysg yn bennaf. Mae hyn yn helpu gyda'r cyfathrebu sydd ei angen ar gyfer pontio i'r lleoliad gofal plant ac oddi yno i'r Cyfnod Sylfaen.

Cynhelir cyfarfodydd pontio rhwng gweithiwr allweddol y plentyn ac aelod o staff yn y lleoliad Cyfnod Sylfaen. Cynllunnir o leiaf bedwar ymweliad pontio yn y lleoliadau sydd wedi'u cydleoli. Mae'r athrawes Cyfnod Sylfaen hefyd yn cynllunio cyfres o ymweliadau â'r lleoliad Dechrau'n Deg yn rheolaidd, er enghraifft, i rannu straeon neu yn ystod amser rhigwm a chân.

Trefnwyd diwrnod hyfforddiant pontio ar y cyd gan yr Athrawon Cyswllt a'r Cynghorydd Cyfnod Sylfaen. Mae'n gyfle i rannu gwybodaeth a strategaethau i sicrhau bod prosesau pontio rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen yn ddidrafferth a bod dull cydgysylltiedig yn cael ei gryfhau. Mae gweithredu strategaethau i annog mwy o gysondeb wedi dilyn yr hyfforddiant cychwynnol ac mae Pecynnau Cymorth Pontio a llyfrau pontio bellach i'w gweld mewn nifer o leoliadau.

Yn unol â'r 'Canllawiau Presenoldeb', mae protocolau clir i'w dilyn os bydd plentyn yn absennol, lle y dilynir llwybrau gwahanol yn dibynnu a yw'r plentyn ar o gofrestr amddiffyn plant, yn blentyn mewn angen ac ati. Mae'r canllawiau hyn yn mabwysiadu dull amlasiantaeth cyfannol i sicrhau bod agweddau cadarnhaol tuag at bresenoldeb o'r cychwyn.

## 6. Pontio o'r cartref i ofal plant Dechrau'n Deg[9]

**Dylai fod gan y lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg bolisi pontio, yn amlinellu sut y bydd datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol plant yn cael eu cefnogi yn ystod y broses ymgartrefu. Dylid cael gweithdrefn groesawu glir sy'n cynnwys casglu gwybodaeth hanfodol gan rieni am bryderon, anghenion, hoff bethau a datblygiad eu plentyn. Dylai'r gweithiwr allweddol, neu aelod perthnasol arall o'r staff, fod yn ymwybodol o anghenion emosiynol ac ymarferol y plentyn cyn iddo ddechrau yn y lleoliad a monitro llwyddiant y broses bontio.**

Dylai'r lleoliad gofal plant gael polisi clir i fod yn sail i'r broses bontio. Gweler Atodiad Ch am enghraifft o bolisi. Dylai'r polisi ystyried y canlynol:

### 6.1 Cymorth i'r plentyn

Mae ymchwil yn dangos, yn yr un modd ag oedolion bod pontio a newid yn rhoi plant dan straen yn aml, a gall hyn gael effaith sylweddol ar eu lles emosiynol a'u gallu i ymgysylltu'n gadarnhaol ag addysg a rhyngweithio'n gymdeithasol (O'Connor, 2006; Drake, 2006; Llywodraeth Cymru , 2008). Efallai y bydd rhai plant a fydd yn mynd i leoliad gofal plant yn cael eu llethu gan faint yr adeilad, arferion anghyfarwydd a grwpiau mwy o blant ac oedolion nag y maent yn gyfarwydd â nhw. Yn ogystal, efallai mai dyma eu profiad cyntaf o wahanu oddi wrth eu rhieni am gyfnod estynedig. Dylid ystyried plant yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses pontio. Dylai staff dreulio amser yn gwrando ar blant, yn arsylwi arnynt ac yn eu holi am eu pryderon.

Efallai y bydd rhai plant yn mynd i fwy nag un lleoliad. Ar gyfer y plant hyn, mae'n rhaid i ymarferwyr sicrhau parhad a dilyniant effeithiol drwy rannu gwybodaeth gyda'i gilydd a chyda rhieni.

Yn ddelfrydol, dylai'r cyfleoedd a ddarperir i blant yn y lleoliad gofal plant adeiladu ar yr hyn y mae plant wedi'i brofi yn y cartref ac wrth fynychu grwpiau fel Mam a'i Phlentyn a Ti a Fi.

Gweler hefyd yr astudiaethau achos ar ddiwedd y bennod hon am ragor o wybodaeth.

[9] Gall rhai plant hefyd gael eu trosglwyddo o leoliad gofal plant arall i leoliad gofal plant Dechrau'n Deg neu ar ôl symud tŷ. Dylai egwyddorion arfer da fod yn berthnasol ar ba bynnag gyfnod y bydd plant yn cyrraedd y lleoliad. Dylai lleoliadau anelu at gynnig yr un profiad pontio beth bynnag fo'r sefyllfa.

**Gweithgareddau allweddol a argymhellir i gynorthwyo plant yn ystod cyfnod pontio:**

- cysylltu â theuluoedd a threfnu ymweliadau ar gyfer y plentyn a'r teulu yn anffurfiol, yn ôl yr angen;
- rhoi cyfle i blant gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau pan fyddant yn ymweld;
- dweud wrth y plentyn pryd y bydd y rhiant yn dychwelyd drwy gyfeirio at ddigwyddiad cyfarwydd, e.e. ar ôl amser byrbryd. Mae geiriau fel 'wedyn' yn amwys ac yn ddi-fudd;
- annog y plentyn i ddod ag eitem gyfarwydd o'r cartref gydag ef, e.e. tegan, blanced;
- sicrhau bod gan y plentyn fynediad i'r eitem gyfarwydd o’r cartref pryd bynnag y bydd ei hangen arno;
- treulio amser yn dod i ddeall y geiriau a'r ymddygiad y gall plant eu defnyddio yn y cartref i gyfleu ceisiadau penodol (e.e. gair y teulu am doiled);
- ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, cael cymaint o wybodaeth â phosibl am gyflwr y plentyn (gan gynnwys adroddiadau perthnasol gan wasanaethau arbenigol) a chyngor gan y rhiant am dechnegau llwyddiannus wrth ymdrin â'r plentyn;
- annog hyblygrwydd - caniatáu cyfnod ymgartrefu yn unol ag anghenion y plentyn. Rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog i aros i alluogi eu plentyn i ymgartrefu;
- lle y bo'n bosibl, amrywio amseroedd a dyddiadau dechrau ar gyfer plant newydd, er mwyn rhoi cyfle i blant newydd a phlant sydd yno eisoes ymgyfarwyddo â sefyllfa newydd;
- rhoi lle i blant arsylwi ar weithgareddau cyn ymuno â nhw, a thra byddant yn ymgartrefu, peidio â'u gorlethu â gormod o weithgareddau ac adnoddau;
- paratoi pegiau/blychau ymlaen llaw ar gyfer carfan newydd o blant;
- sicrhau bod y cynllun a strwythur y drefn yn gyson;
- creu amserlen weledol gyda ffotograffau o'r drefn ddyddiol – er mwyn i’r plant allu gweld y drefn rhwng yr amser cyrraedd a'r amser y bydd rhieni'n eu casglu;
- bod yn groesawgar ac yn agored;
- cynorthwyo, arsylwi a dod i adnabod y plant.

***Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir***[10]

Rhaid i bob lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg gael ei gofrestru a'i reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Rhaid i bob person cofrestredig barchu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Dyma'r Safonau Cenedlaethol *Gofynnol* ar gyfer cofrestru, ac er mwyn darparu gofal plant o safon mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg ymgyrraedd yn uwch na'r safonau sylfaenol hyn.

Mae'r adran hon yn ymwneud â dilyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

*Safon 3: Asesu*

Canlyniad: Bod anghenion a dewisiadau'r holl blant yn cael eu nodi a bod eu rhieni yn gwybod sut y caiff yr anghenion hyn eu diwallu.

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod anghenion a dewisiadau pob plentyn yn cael eu nodi, hyd y bo'n ymarferol, cyn eu gosod neu cyn iddynt fynychu (Safon 3.1)
- Bod rhieni a phlant yn cael eu hannog i ymweld â'r ddarpariaeth gofal plant cyn i'r plentyn ddechrau mynychu i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu nodi'n glir. (Safon 3.2).
- Bod rhieni yn cael eu holi'n benodol am ddewisiadau, anghenion a galluoedd eu plentyn, ac am unrhyw wybodaeth arall y mae angen iddynt ei rhannu i sicrhau'r gofal gorau posibl i'r plentyn (Safon 3.3).

*Safon 8: Maeth a lles*

Canlyniad: Bod y plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gysurus gyda'u gofalwyr ac yn eu hamgylchedd, a bod eu hawliau yn cael eu parchu.

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod y broses o helpu'r plant i ymgartrefu ac o gael eu gwahanu oddi wrth y rhieni neu'r gofalwyr yn cadw gofid y plant i'r lefel isaf bosibl (Safon 8.5).

## 6.2 Hyrwyddo cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn anelu at sicrhau bod y rhwystrau'n cael eu dileu a bod cydraddoldeb ar gyfer y grwpiau canlynol a chanddynt 'nodweddion gwarchodedig':

- Oed (fel cyflogwr - ond nid yw'n berthnasol i blant yn y lleoliad);
- Anabledd;

[10] http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/childcare/regulation/?skip=1&lang=cy

- Rhyw;
- Ailbennu rhywedd;
- Hil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Crefydd neu gredo;
- Cyfeiriadedd rhywiol.

Dylai pob lleoliad gofal plant fod â pholisi cydraddoldeb sy'n ystyried effaith gweithgareddau yn y lleoliad gofal plant ar blant a'u teuluoedd ac a allent achosi anfantais i deuluoedd â nodweddion gwarchodedig. Dylai pawb yn y lleoliad gael ei werthfawrogi a'i drin â pharch cydradd a dylid rhoi sylw i anghenion pob unigolyn. Dylai rhieni a phlant, beth bynnag eu cefndir a'u hanghenion ychwanegol, deimlo eu bod yn cael eu croesawu.

**Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir[11]**

Rhaid i bob lleoliad plant Dechrau'n Deg gael ei gofrestru a'i reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Rhaid i bob person cofrestredig barchu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Dyma'r Safonau Cenedlaethol *Gofynnol* ar gyfer cofrestru ac er mwyn darparu gofal plant o safon, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg ymgyrraedd yn uwch na'r safonau sylfaenol hyn.

Mae'r adran hon yn ymwneud â dilyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

*Safon 4: Diwallu anghenion unigol*

Canlyniad: Y cynllunnir ac y darperir ar gyfer anghenion unigol pob plentyn, gan gynnwys unrhyw anghenion addysgol ac anableddau.

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

- Y gallant ddangos eu bod yn gallu diwallu'r anghenion a aseswyd o ran y plant a osodwyd gyda hwy (Safon 4.1).
- Bod ganddynt hwy (neu eu staff) y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i gynllunio ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol plentyn ac ymateb iddynt (Safon 4.2).
- Y deellir anghenion a dewisiadau pob plentyn (gan gynnwys y rheini sydd o gymunedau ethnig lleiafrifol) mewn perthynas ag iaith/ieithoedd eu cartref, y cyfrwng addysg (ee Cymraeg neu Saesneg) y bwriedir ei ddefnyddio a'u harferion cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol ac y darperir ar eu cyfer (Safon 4.3).
- Bod y camau priodol yn cael eu cymryd pan nodir anghenion arbennig, ac yr hyrwyddir lles a datblygiad y plentyn mewn partneriaeth â'r rhieni a phobl berthnasol eraill (Safon 4.4).

[11] http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/childcare/regulation/?skip=1&lang=cy

- Bod y Cod Ymarfer cyfredol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (neu Anghenion Dysgu Ychwanegol) ar gyfer Cymru yn cael ei ddilyn. Lle bo'n briodol, bod anghenion penodol plentyn yn cael eu diwallu drwy ddarparu cyfarpar arbennig (Safon 4.5).
- Mewn lleoliadau grŵp, bod datganiad polisi ysgrifenedig yn cael ei lunio sy'n gyson â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol am anghenion arbennig. Dylai hyn gynnwys anghenion addysgol arbennig ac anableddau a dylai fod ar gael i rieni (Safon 4.6).
- Bod y trefniadau staffio yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion plant unigol sy'n mynychu ac sydd ag anghenion arbennig neu ychwanegol (Safon 4.7).
- Bod yr amgylchedd ffisegol, hyd y bo'n rhesymol, yn addas i blant anabl (Safon 4.8).
- Bod plant anabl a'r rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gallu manteisio ynghyd â'u cyfoedion ar y cyfleusterau, y gweithgareddau a'r cyfleoedd chwarae a ddarperir er mwyn hybu eu lles a'u datblygiad (Safon 4.9)
- Yr ymgynghorir â'r rhieni am unrhyw wasanaethau a chyfarpar arbennig ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal. Lle bo angen posibl am gymorth arbenigol, bod y rhieni yn cael gwybod fel y gallant gymryd camau priodol i gael cyngor neu driniaeth (Safon 4.10).
- Bod preifatrwydd pob plentyn yn cael ei barchu pan roddir gofal personol iawn (Safon 4.11).

Safon 16: Cyfle cyfartal

Canlyniad: Bod pob plentyn yn cael ei drin â'r un gofal a pharch.

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod cyfle cyfartal ac arferion nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng unigolion yn cael eu hyrwyddo yn y lleoliad (Safon 16.1).
- Bod polisi cyfle cyfartal wedi'i sefydlu, sy'n gyson â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau presennol, a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Rhaid i'r holl staff a gwirfoddolwyr ddeall a gweithredu'r polisi hwn, a rhaid iddo fod ar gael i rieni (Safon 16.2).
- Bod pob plentyn ac oedolyn yn cael eu trin â'r un gofal a bod y person cofrestredig yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r arferion perthnasol o beidio gwahaniaethu ym mhob maes, megis cyflogaeth, hyfforddiant, derbyn plant i ofal dydd a mynediad at yr adnoddau, y gweithgareddau a'r cyfleusterau sydd ar gael (Safon 16.3).

### 6.3 Plant mewn teuluoedd crwydrol

Mae poblogaethau mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn aml yn eithaf crwydrol, sy'n golygu y gall teuluoedd symud ar fyr rybudd neu heb rybudd. Ymysg plant a theuluoedd sy'n symud yn fwy aml mae teuluoedd y lluoedd arfog, teuluoedd digartref, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a theuluoedd sy'n dioddef cam-drin yn y cartref.

Gall *rhai* o'r teuluoedd hyn fod mewn perygl o fyw mewn amodau gwael (megis tai gorlawn, tai mewn cyflwr ffisegol gwael a diffyg mannau chwarae addas). Gall yr amodau hyn hefyd roi straen ar y teulu a phwysau ar berthynas deuluol.

Mae plant mewn teuluoedd sy'n ceisio lloches yn aml yn byw mewn teuluoedd lle nad oes yr un o'r rhieni'n siarad Cymraeg neu Saesneg. Yn ogystal, oherwydd y trawma y maent wedi ei ddioddef, efallai y bydd gan rieni broblemau iechyd meddwl. Gall eu diffyg Saesneg neu Gymraeg fod yn rhwystr iddynt gael gwybodaeth am wasanaethau lleol, gan gynnwys mynediad at y rhaglen Dechrau'n Deg.

Efallai y bydd teuluoedd wedi symud oddi wrth eu rhwydweithiau cymorth blaenorol, gan golli cymorth a arferai fod ar gael iddynt a gwneud i'r teulu deimlo'n ynysig. Gall teuluoedd sy'n symud yn gyson ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ac efallai y bydd angen help arnynt yn hyn o beth. Gall anogaeth i fynychu grwpiau fel cymorth rhianta ac iaith a chwarae helpu teuluoedd i deimlo'n llai ynysig a datblygu rhwydweithiau cymorth newydd.

Efallai y bydd rhai plant wedi dioddef trawma emosiynol a cholled neu bod ganddynt amodau heriol gartref. Efallai eu bod hefyd wedi cael profiad o symud yn gyson yn eu bywydau a byddant yn ymdopi â newid arall wrth iddynt ymgartrefu yn y lleoliad gofal plant. Beth bynnag fo'r amgylchiadau, mae angen i ymarferwyr fod yn arbennig o sensitif i anghenion plant sy'n debygol o fod yn agored i niwed yn ystod cyfnod pontio. Dylid rhoi sylw a chymorth ychwanegol i blant i'w helpu i ymdopi ag amgylchedd newydd a'u cynorthwyo i ymddiried mewn oedolion anghyfarwydd.

Mae natur grwydrol bywydau rhai plant yn golygu y gall y gweithwyr proffesiynol allweddol sy'n gweithio gyda nhw newid yn rheolaidd, ac mae hyn yn arwain at ganlyniadau o ran ansawdd y perthnasoedd hyn. Gall hyn gynyddu'r peryglon y bydd pryderon ynghylch lles plentyn yn cael eu hanwybyddu. Efallai y bydd rhai teuluoedd lle mae plant yn cael eu niweidio hefyd yn symud tŷ yn gyson yn fwriadol er mwyn osgoi cyswllt ag asiantaethau sy'n pryderu amdanynt. Dylai pob ymarferydd Dechrau'n Deg allu adnabod materion yn ymwneud â diogelu plant a gwybod pryd i'w hatgyfeirio ac at bwy. Dylai Canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant gael eu dilyn bob tro. Mae Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 yn amlinellu sut y dylai pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i hybu lles plant a'u hamddiffyn rhag niwed.

### 6.4 Plant lleiafrifoedd ethnig

Hyd yn oed os bydd staff yn gwybod llawer am gefndiroedd ethnig, diwylliannau a chrefyddau gwahanol, mae'n bwysig cronni gwybodaeth am blant unigol a'u teuluoedd. Ni fydd y rhan fwyaf o deuluoedd yn cael eu tramgwyddo os gofynnir cwestiynau parchus er mwyn meithrin dealltwriaeth o gefndir y plentyn. Efallai y byddant yn gwerthfawrogi'r ymdrech sy'n cael ei wneud er mwyn sicrhau bod eu plentyn yn ymgartrefu'n dda. Gall hyn gynnwys cwestiynau am sut i ynganu a sillafu enw'r plentyn; pa ieithoedd sy'n cael eu siarad yn y cartref; yr hyn y mae'r plentyn yn galw ei rieni; beth yw hoff fwydydd y plentyn a sut mae'n bwyta gartref. Gall hyn helpu i gynllunio anghenion cymorth y plentyn yn ystod y cyfnod pontio a sicrhau bod enwau plant yn cael eu sillafu a'u hynganu'n gywir.

Hyd yn oed os nad oes unrhyw blant o gefndiroedd crefyddol neu ethnig amrywiol yn y lleoliad gofal plant dylid rhoi ystyriaeth i gael adnoddau fel dillad, offer coginio, llyfrau â dwy iaith a gwaith celf sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol gadarnhaol. Dylai staff gofal plant ddefnyddio iaith ffeithiol a chadarnhaol wrth ddisgrifio neu gyflwyno adnoddau o bob diwylliant. Dylent annog plant i chwarae gyda nhw a modelu eu defnydd, yn hytrach na dim ond eu gadael ar hyd y lle. Gallai hysbysiadau fel baner 'croeso' gynnwys ystod o sgriptiau ac ieithoedd.

Caniatewch amser ychwanegol i siarad â rhieni y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Pan fyddwch yn gofyn i bobl eraill am help gyda chyfieithu, dylai dymuniadau'r rhieni gael eu parchu. Efallai na fyddant eisiau i rywun dieithr neu riant arall gyfieithu gwybodaeth am eu plentyn. Gellir ystyried defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd er mwyn sicrhau na fydd iaith yn rhwystr i gyfranogiad teuluoedd. Gall diffyg sgiliau llythrennedd hefyd greu rhwystr sylweddol i gyfranogiad rhai teuluoedd. Lle y bo'n bosibl mae'n well cyfathrebu ar lafar, a bydd hyn hefyd yn caniatáu i rieni ofyn cwestiynau i ddarparwyr gwasanaethau.

**6.5 Plant anabl a/neu blant ag anghenion dysgu ychwanegol**

Mae'r canlynol yn berthnasol i bob darparwr blynyddoedd cynnar (Deddf Cydraddoldeb 2010):

- mae dyletswydd arnynt i beidio â gwahaniaethu yn erbyn plant anabl mewn darpariaeth addysg a gofal dydd;
- rhaid iddynt beidio â thrin plant anabl yn llai ffafriol;
- rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol er mwyn osgoi rhoi plant anabl o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â phlant nad ydynt yn anabl.

I deuluoedd â phlant ag anghenion ychwanegol, gall newid fod yn straen. Mae angen rhoi ystyriaeth benodol i sut y caiff cyfnodau pontio eu rheoli ar gyfer y plentyn a'r teulu. Gyda chaniatâd y rhieni, dylai ymwelwyr iechyd roi gwybod i leoliadau gofal plant am anghenion ychwanegol plant cyn gynted â phosibl er mwyn i'r lleoliad allu cynllunio'n effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny ac i baratoi cynllun pontio. Dylai unrhyw ddogfennau gael eu trosglwyddo cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol gyda chyfarfod wyneb-yn-wyneb, sy'n cynnwys y rhieni gan fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Pan fydd plant ag anghenion ychwanegol yn dechrau mewn lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg, dylai staff fod yn sensitif i anghenion y plentyn er mwyn sicrhau ei fod yn cael y cymorth sydd ei angen arno a bod y rhieni'n gyfforddus gyda'r trefniadau. Gall teuluoedd fod yn poeni am sut y bydd eu plentyn yn ymgartrefu ac a fydd anghenion eu plentyn yn cael eu deall. Efallai y byddant yn gofyn am ragor o ymweliadau a chyfleoedd i ddod i adnabod y staff o gymharu â phlant eraill. Os bydd plentyn yn cael cymorth gan weithwyr proffesiynol eraill, dylid gofyn i rieni am ganiatâd i weithio gyda'r asiantaethau hyn er mwyn sicrhau bod strategaethau a chymorth ar gael cyn i'r plentyn ddechrau. Yn ddelfrydol dylai copïau o adroddiadau gan y gwasanaethau arbenigol hyn fod ar gael hefyd.

Efallai y bydd angen addasu gweithgareddau a'r amgylchedd i sicrhau y gall plant anabl a/neu blant ag anghenion dysgu ychwanegol gael mynediad i'r ddarpariaeth.

Dylid mabwysiadu dull hyblyg tuag at weithgareddau yn y lleoliad, er mwyn i bob plentyn allu cymryd rhan. Dylai’r staff fod yn barod i roi cynnig ar ddulliau newydd a ffyrdd newydd o weithio a all gynorthwyo pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol. Lle bo angen dylid darparu cymorth ychwanegol wedi'i dargedu ac wedi'i bersonoli (e.e. drwy ddatblygu Cynllun Adnabod yn Gynnar). Dylid gofyn am syniadau a chyngor gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith, seicolegwyr addysg a'r athro/athrawes ymgynghorol. Gall hyn amrywio o gyngor anffurfiol ac awgrymiadau i gyfraniad mwy ffurfiol ac atgyfeirio at wasanaethau mwy arbenigol.

Dylid ymsefydlu'r dull graddedig hwn, fel y'i disgrifir yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru[12] (Llywodraeth Cymru, 2004), yn gadarn yn y lleoliad. Mae'r dull hwn yn cydnabod bod continwwm o anghenion dysgu ychwanegol ac y dylai plant gael cyfleoedd dysgu gwahaniaethol yn dibynnu ar eu hanghenion. Lle bo angen, dylai'r lleoliad gynyddu'r defnydd o arbenigwyr i gynorthwyo plant gyda'r anawsterau y gallant fod yn eu hwynebu.

Os bydd plant a chanddynt anghenion gofal iechyd sylweddol neu gymhleth (e.e. traceostomi, tiwb nasogastrig ar gyfer bwydo, epilepsi) yn cael eu derbyn i'r lleoliad gofal plant dylid rhoi'r canlynol ar waith cyn i'r plentyn ddechrau:

- cyd-drafod â chydweithwyr iechyd;
- hyfforddiant ar gyfer staff y lleoliad gofal plant;
- cynllun gofal iechyd (e.e. yn amlinellu'r weithdrefn arferol a beth i'w wneud mewn argyfwng) wedi'i ysgrifennu a'i gymeradwyo gan y corff iechyd, y rhieni a'r lleoliad.

Os oes pryderon ynglŷn â chynnydd a datblygiad plentyn yn y lleoliad, dylid trafod hyn gyda'r rhieni a chael caniatâd i geisio rhagor o gyngor o ffynonellau cymorth eraill, e.e. ymwelydd iechyd, tîm cynhwysiant y blynyddoedd cynnar, seicolegydd addysg, therapydd iaith a lleferydd neu bediatregydd. Dylai'r lleoliad wneud yn siŵr bod rhieni yn ymwneud gymaint â phosibl ag addysg eu plentyn a dylid eu hysbysu am sut mae'r lleoliad yn ceisio diwallu anghenion eu plentyn.

Efallai na fydd rhieni plant ag anghenion ychwanegol wedi darganfod neu wedi derbyn y gallai pethau fod yn wahanol ar gyfer eu plentyn. Mae'n bwysig, felly, mabwysiadu dull sensitif a chydymdeimladol. Dyma strategaethau posibl ar gyfer codi pryderon gyda rhieni (Tîm Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar Caerdydd):

- ceisiwch fod yn gadarnhaol ac yn glir o ran yr hyn sy'n cael ei gyfleu;
- peidiwch â defnyddio labeli neu dermau diagnostig;
- peidiwch â chymharu â phlant eraill;
- disgwyliwch ymateb emosiynol;
- cynlluniwch a pharatowch ar gyfer y sgwrs gyda nodiadau a thystiolaeth;
- trafodwch yr hyn yr ydych yn mynd i'w wneud nesaf - cynllun;
- peidiwch â gwneud unrhyw addewidion neu ddisgwyliadau afrealistig.

[12] http://learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/special-education-needs-code-of-practice/?lang=cy

Nododd ymchwil a gomisiynwyd gan Mudiad Meithrin (Menter a Busnes, 2012) y canlynol fel rhwystrau i gynhwysiant:

- yr amgylchedd - agweddau ar yr amgylchedd ffisegol a all beri anfantais i blentyn ag anghenion ychwanegol;
- agweddau - agweddau sy'n rhwystro plant ag anghenion ychwanegol rhag cael eu cynnwys mewn gweithgareddau (gall hyn fod oherwydd diffyg gwybodaeth am oblygiadau cyflwr penodol y plentyn a bod yn oramddiffynnol oherwydd diffyg hyder);
- sefydliadau - polisïau neu arferion nad ydynt yn gynhwysol.

Nododd yr ymchwil hefyd y galluogwyr canlynol i gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol:

- gwybodaeth gefndir dda am y plentyn a'i anghenion (sy'n hanfodol os yw staff am ddiwallu'r anghenion hynny);
- pecyn cymorth ar gyfer y plentyn sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol e.e. y cynllun datblygu/chwarae, gweithgareddau addas a gwybodaeth am y cyflwr;
- staff a rheini yn cwblhau llyfr Cyswllt rhwng y Cartref a'r Lleoliad yn rheolaidd;
- sicrhau nad yw rhieni'n cael eu hynysu naill ai drwy ddiffyg hyder neu drwy sylwadau a wneir gan rieni eraill;
- adnoddau ac offer arbenigol;
- gwneud addasiadau rhesymol yn y lleoliad, e.e. dewisiadau lliw, cynllun wedi'i addasu;
- cymorth un-i-un da lle y bo'n briodol ond sicrhau bod y plentyn yn cael ei annog i gymryd rhan yng ngweithgareddau’r lleoliad a chyda phlant eraill;
- hyfforddi staff i wella eu hyder o ran meithrin datblygiad plant a'u helpu i ymgartrefu yn y lleoliad (gallai hyn gynnwys hyfforddiant mewn cynhwysiant cyffredinol; hyfforddiant a gwybodaeth am gyflyrau penodol ac ymweliadau â lleoliadau eraill ac ysgolion arbenigol sy'n arbenigo mewn gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol);
- pob aelod o staff yn y lleoliad yn ymwybodol o anghenion plant yn y lleoliad er mwyn sicrhau os bydd un aelod o staff yn absennol, bod aelodau eraill o staff yn gallu cynorthwyo a chynnwys y plentyn;
- staff yn datblygu sgiliau rhyngbersonol er mwyn helpu i feithrin perthynas gadarnhaol â rhieni ac ymdrin yn sensitif â'u pryderon;
- rhannu arferion gorau;
- arbenigwyr ar gael a mewnbwn gan arbenigwyr megis therapyddion lleferydd ac iaith a gweithwyr iechyd proffesiynol;
- monitro ac arsylwi i fesur cynnydd datblygiadol.

### 6.5.1 Dull sy'n Canolbwyntio ar Unigolion

#### Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion

Mae'r term 'ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion' fel arfer yn cyfeirio at y ffordd y mae'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau neu gymorth yn allweddol i ddatblygu a chynllunio'r gwasanaethau hynny ac yn rhan o'r broses. Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ymchwilio i'r hyn sy'n bwysig i unigolyn ac wedyn mae'n

gweithredu arno i ddatblygu set o gamau gweithredu clir y cytunwyd arnynt sydd wedi cael eu trafod gan y person dan sylw, rhieni neu ofalwyr, os yw'n briodol, a'r amrywiol weithwyr proffesiynol a fydd yn darparu'r gwasanaethau. Yn bwysicaf oll, mae'n set o egwyddorion, nid set o ffurflenni, i bennu sut mae anghenion rhywun yn cael eu hasesu a'u diwallu.

Mae sicrhau mai'r unigolyn sydd wrth wraidd y broses yn hollbwysig i lwyddiant ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac ar gyfer plant y Blynyddoedd Cynnar dylai barn y plentyn a'r teulu gael ei hystyried fel yr unigolyn sydd wrth wraidd y broses.

Mae'r rhain yn cyd-fynd ag egwyddorion cyffredinol cynhwysiant a chydraddoldeb, sy'n allweddol i wasanaethau cyhoeddus. Gallant ddarparu dull pwerus o wrando ar safbwyntiau pobl i'w galluogi i gynllunio ymlaen llaw a sefydlu eu hanghenion, ac i bartneriaid ddarparu'r cymorth neu'r ymyrraeth angenrheidiol. Gall y dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion helpu i ddatblygu partneriaeth gref rhwng pobl ac unrhyw weithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, y sector statudol a'r sector gwirfoddol sy'n eu cynorthwyo.

**Beth yw dull sy'n canolbwyntio ar unigolion?**

Mae dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:

- **Beth sy'n bwysig I'R unigolyn?**

  Mae hyn yn cynnwys yr elfennau sy'n gwneud y plentyn yn unigolyn - ei hobïau, ei ddiddordebau, ei hoffterau. Yn gryno, y pethau sy'n ei wneud yn gyfforddus, yn hapus ac yn fodlon.

  Mae'r adran hon yn arbennig o bwysig ar gyfer datblygu perthynas gyda'r plentyn a'r teulu i'w gynorthwyo i bontio'n ddidrafferth i leoliad newydd.

- **Beth sy'n bwysig AR GYFER yr unigolyn?**

  Dyma'r cymorth sydd ei angen ar blentyn i'w gadw'n iach, yn ddiogel ac i ddysgu'n effeithiol. Gall hyn gynnwys meddyginiaeth, datblygu ffordd iach o fyw, a mynediad i ddysgu. Gellir hefyd ei eirio fel 'Sut allwn ni ei gynorthwyo orau?'

  Mae'n bwysig sylwi ar ffyrdd penodol plentyn o reoli straen neu wrthdaro a'r ffyrdd y mae wedi dysgu sut i gyfathrebu a sut, fel ymarferwyr, y gallwn gefnogi hyn yn y lleoliad e.e. gall plentyn sy'n tapio ei glun fod yn ceisio cyfleu ei fod wedi gwlychu ei hun.

  *Mae cael y cydbwysedd cywir rhwng yr hyn sy'n bwysig <u>i'r</u> unigolyn ac <u>ar gyfer</u> yr unigolyn yn hollbwysig.*

- **Beth sy'n llwyddiannus ar hyn o bryd?**

  Os oes rhywbeth yn llwyddiannus, mae angen ei gynnal ac adeiladu arno. Mae hefyd yn werth darganfod beth fu'n llwyddiannus yn y gorffennol, ac a all hyn weithio gyda rhywfaint o'r cymorth presennol. Mae hyn yn creu'r sail ar gyfer symud ymlaen yn gadarnhaol.

- **Beth sy'n AFLWYDDIANNUS ar hyn o bryd?**

  Os nad yw rhywbeth yn llwyddiannus, mae hyn yn sail dros newid unrhyw gynllun. Pam nad yw'r cymorth yn llwyddo? Beth y gellir ei wneud i'w wella

neu ei newid?  A oedd yn llwyddiannus o'r blaen - os felly, pam nad yw'n llwyddiannus nawr?  Mae'r rhain i gyd yn rhan o'r drafodaeth.

**Mae angen ystyried y ddau o safbwynt pawb sy'n gysylltiedig â'r cymorth, a gyda'i gilydd dylent fod yn sail i unrhyw gynllun ar gyfer rhagor o gamau gweithredu.**

Mae hyn yn rhan allweddol o ddull cyffredinol o ddarganfod materion ac ymdrin â nhw er mwyn galluogi plentyn i gyflawni ei botensial a dod o hyd i ffyrdd o oresgyn unrhyw rwystrau neu rwystrau posibl.

**Proffiliau Un Dudalen a Chardiau Gwybodaeth fel rhai 'Amdanaf Fi'**

Proffiliau Un Dudalen / cardiau gwybodaeth fel rhai 'Amdanaf Fi' yw'r man cychwyn ar gyfer cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Maent yn cael eu creu gan y plentyn gyda chyfraniad rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill. Maent yn rhoi cipolwg cadarnhaol ar fywyd y plentyn gan ddefnyddio'r meysydd allweddol fel y'u rhestrir uchod. Gellir eu diweddaru yn ôl yr angen a gallant gynrychioli'r plentyn ar unrhyw oedran neu gyfnod.  Gweler adran 6.7.2 am ragor o wybodaeth. Mae Atodiad C yn rhoi enghraifft o broffil un dudalen a thempledi o gardiau gwybodaeth fel rhai 'Amdanaf Fi'.

Mae'r cardiau gwybodaeth fel rhai 'Amdanaf Fi' wedi cael eu datblygu gan dimau Dechrau'n Deg mewn ymgynghoriad ag athrawon meithrin, staff gofal plant cyn ysgol, staff ymgynghorol a swyddogion datblygu i sicrhau bod y wybodaeth yn berthnasol i bob parti ac nad yw'n ormodol.

### 6.5.2 Cynlluniau neu wasanaethau i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol

Ym mhob ardal awdurdod lleol mae cynlluniau neu wasanaethau'n debygol o fod ar waith i roi cymorth ychwanegol i blant ag anghenion ychwanegol.  Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gynlluniau a allai fod ar waith:

- mae Cynlluniau Atgyfeirio ar waith mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol. Maent yn darparu cymorth un i un i blant ag anghenion ychwanegol yn y lleoliad gofal plant.  Gall y gwasanaeth hefyd gynorthwyo darparwyr drwy gynnig hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol lle bo hynny'n briodol. Mae'r rhain yn cael eu gweithredu gan Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru, Mudiad Meithrin neu gan yr awdurdod lleol;
- mae gwasanaethau Portage[13] hefyd ar gael mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, wedi'u trefnu gan yr adran addysg neu'r adran iechyd.  Gwasanaeth addysgol sy'n ymweld â'r cartref i blant cyn oed ysgol a chanddynt anghenion cymorth ychwanegol yw Portage. Nod gwasanaethau Portage yw gweithio gydag anghenion datblygiadol plentyn i ddatblygu ei gryfderau a datblygu ei hyder. Mae hefyd yn anelu at ddatblygu hyder rhieni o ran eu sgiliau magu plant;
- bydd gan bob awdurdod lleol hefyd brosiectau a gwasanaethau anabledd penodol a ddarperir drwy elfen anabledd Teuluoedd yn Gyntaf.

[13] http://www.portage.org.uk/contact/find

Dylai'r lleoliad gofal plant a/neu ymwelydd iechyd ymchwilio i ba gymorth sydd ar gael i gefnogi'r plentyn a'i deulu.

**Mae trefniadau pontio ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol o'r ansawdd uchaf:**

**1. Pan fydd prosesau a gweithdrefnau yn gefnogol ac yn gynhwysol**

- Mae'r Cod Ymarfer cyfredol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (neu Anghenion Dysgu Ychwanegol) ar gyfer Cymru yn cael ei ddilyn (Safon 4.5 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir).
- ceir datganiad polisi ysgrifenedig sy'n gyson â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol ynghylch anghenion dysgu ychwanegol (Safon 4.6 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir);
- caiff digon o amser ei ddyrannu i gynllunio ar gyfer pontio'n ddidrafferth (e.e. i baratoi staff/rhieni/plant; i staff gael mynediad i wybodaeth a'i darllen a'i rhannu ac i lunio cynllun cymorth (e.e. cynllun datblygu chwarae));

**2. Pan fydd y plentyn yn cael ei roi wrth wraidd cynllunio'r broses bontio**

- caiff plant eu rhoi wrth wraidd cynllunio'r broses bontio, eu trin fel unigolion, gan gydnabod yr angen iddynt deimlo'n ddiogel ac yn hyderus ar bob cam o'r broses bontio;
- caiff plant eu paratoi ar gyfer newid - mae'r plentyn yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel ac ymgartrefu'n haws yn yr amgylchedd newydd pan fydd yn gyfarwydd â phobl, lleoedd ac arferion (e.e. rhoi cyfle i blant gwrdd â'r staff ac ymweld â lleoliadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau yno); Efallai y bydd angen ymweliadau amlach ar blant ag anghenion ychwanegol;
- mae deunydd ategol (megis Proffil Un Dudalen neu gardiau gwybodaeth fel rhai 'Amdanaf Fi') yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r plentyn megis gwybodaeth am oedolion pwysig yn ei fywyd; y ffyrdd gorau o'i gynorthwyo; yr hyn y mae'n dysgu ei wneud a beth sy'n peri gofid iddo;
- mae'r lleoliad gofal plant a/neu ymwelydd iechyd yn ymchwilio i ba gymorth sydd ar gael i gefnogi'r plentyn a'i deulu (e.e. cynlluniau atgyfeirio; Portage neu wasanaethau eraill).

**3. Pan fydd perthnasoedd cadarnhaol yn cael eu sefydlu ac mae'r holl oedolion sy'n ymwneud â'r plentyn yn gweithio'n agos gyda'i gilydd**

- gyda chaniatâd y rhieni, mae'r ymwelwyr iechyd yn rhoi gwybod i leoliadau gofal plant am anghenion ychwanegol plant cyn gynted â phosibl er mwyn i'r lleoliad allu cynllunio'n effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny;
- mae pob oedolyn sy'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu yn cydweithio'n agos ac yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol a pharhaus yn digwydd a bod gwybodaeth gefndir dda am y plentyn;
- ceir gweithdrefn glir ar gyfer rhannu gwybodaeth am blant a theuluoedd;

- mae rhieni'n cymryd rhan lawn yn y broses bontio a chaiff amser ei neilltuo i ddatblygu perthnasoedd cefnogol cadarnhaol gyda rhieni a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd ganddynt;
- caiff dull sensitif a chydymdeimladol ei fabwysiadu gyda'r rhieni os caiff pryderon eu codi am gynnydd a datblygiad eu plentyn;
- mae rhieni'n cael gwybodaeth am y modd y mae'r lleoliad yn ceisio diwallu anghenion eu plentyn;
- mae'r staff yn cael hyfforddiant i wella eu hyder wrth feithrin datblygiad a gallu plant i ddysgu (gallai hyn gynnwys hyfforddiant penodol a gwybodaeth am gyflyrau penodol);
- darperir cymorth un-i-un lle y bo'n briodol ond sicrhau bod plant yn cael eu hannog i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r lleoliad gyda'u cyfoedion;
- gofynnir am ragor o gyngor gan arbenigwyr megis therapyddion lleferydd ac iaith a gweithwyr iechyd proffesiynol, lle y bo'n briodol. Dylid trafod hyn gyda'r rhieni a gofyn eu caniatâd.

**4. Pan fydd amgylcheddau'n groesawgar, yn hygyrch heb greu stigma**

- mae'r staff yn creu awyrgylch cynnes, anfeirniadol a chynhwysol yn y lleoliad;
- mae'r staff yn mabwysiadu dull yn seiliedig ar gryfderau o weithio gyda phlant a'u teuluoedd;
- mae pob lleoliad yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac agwedd gadarnhaol gan staff, rhieni a phlant tuag at blant ag anghenion ychwanegol;
- caiff addasiadau rhesymol eu gwneud yn y lleoliad (e.e. dewisiadau lliw, cynllun wedi'i addasu);
- darperir adnoddau ac offer arbenigol, lle bo hynny'n briodol;
- caiff dull graddedig ei fabwysiadu sy'n cydnabod bod continwwm o anghenion dysgu ychwanegol ac y dylai plant gael cyfleoedd dysgu gwahaniaethol yn dibynnu ar eu hanghenion.

Dogfennau Ategol a Chysylltiadau:

**When your child has additional needs: Information for families:** Mae'r canllaw hwn, a gynhyrchwyd gan Cyswllt Teulu, yn darparu gwybodaeth sylfaenol am amrywiaeth o bynciau a allai fod yn ddefnyddiol i rieni sydd â phlentyn anabl.

http://www.cafamily.org.uk/advice-and-support/resource-library/parent-guide-when-your-child-has-additional-needs/

**Understanding your child's behaviour: Information for families:** Mae'r canllaw hwn, a gynhyrchwyd gan Cyswllt Teulu, yn rhoi cyngor ymarferol i rieni sy'n pryderu am ymddygiad eu plentyn. Gall y plentyn fod â nam cydnabyddedig, gall fod yn cael diagnosis, neu efallai y bydd ganddo anghenion ychwanegol.

http://www.cafamily.org.uk/parent-guide-behaviour

**Face 2 Face Cymru**: Mae Face 2 Face yn cynnig gwasanaeth cyfeillio un-i-un ar gyfer rhieni sy'n darganfod bod eu plentyn yn anabl. Mae pob cyfaill Face 2 Face yn fam neu'n dad i blentyn anabl.

http://www.scope.org.uk/help-and-information/families-and-parenting/parent-befriending-1

**Awtistiaeth: Canllaw i Rieni a Chynhalwyr yn dilyn Diagnosis**, a gynhyrchwyd gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf yn darparu gwybodaeth a chyngor ymarferol i rieni, gan gynnwys ar faterion cyffredin megis deiet, cwsg, mynd i'r toiled, chwarae ac ymwybyddiaeth o'r corff (ymddygiad a ffiniau).

http://www.asdinfowales.co.uk/resource/Autism-English-download.pdf

### 6.6. Asesiad Cynnydd Datblygiadol Dechrau'n Deg

Dylai pob plentyn Dechrau'n Deg gael Asesiad Cynnydd Datblygiadol pan fydd yn 15 mis ac yn 27 mis oed. Fel arfer, Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg fydd yn cynnal yr asesiadau hyn. Lle y bydd yn briodol, gall Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg ddewis dirprwyo'r cyfrifoldeb am gynnal yr asesiad i aelodau eraill o weithlu iechyd Dechrau'n Deg. Dim ond pan na fydd unrhyw bryderon blaenorol na phresennol am ddatblygiad y plentyn y dylai'r cyfrifoldeb hwn gael ei ddirprwyo. Pan fydd pryderon, dylai'r Asesiad Cynnydd Datblygiadol gael ei gynnal gan Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg bob tro.

Os bydd yr asesiadau 15 a 27 mis yn cael eu cynnal gan aelodau eraill o weithlu iechyd Dechrau'n Deg, dylid rhannu'r canlyniadau gydag Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg a ddylai gofnodi canlyniadau'r asesiad yng nghofnod y plentyn.

Adolygiad Datblygiadol 15 mis

Dylai Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg drafod datblygiad y plentyn gyda'r rhieni/gofalwyr, pan fydd yn 15 mis oed. Dylid defnyddio canlyniadau'r asesiad i nodi unrhyw oedi o ran datblygiad a darparu cymorth ac ymyriadau priodol.

Pan fydd oedi posibl neu bryderon o ran datblygiad y plentyn yn cael eu nodi, dylai Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg gynnal asesiad y Rhestr o Sgiliau Tyfu, ac adolygu datblygiad y plentyn unwaith eto pan fydd yn 18 mis oed.

Dylai Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg edrych eto ar unrhyw broblemau a godwyd yn ystod yr asesiad datblygiadol 15 mis yn ystod yr asesiad 18 mis. Dylid cynnal trafodaeth gyda rhieni/gofalwyr am unrhyw bryderon ac unrhyw gymorth ychwanegol a fyddai ei angen er mwyn cefnogi teuluoedd i helpu eu plentyn i gyrraedd ei lawn botensial.

Adolygiad Datblygiadol 27 mis

Dylai Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg drafod datblygiad eu plentyn gyda'r rhieni/gofalwyr, pan fydd yn 27 mis oed.

Pan fydd oedi posibl neu bryderon o ran datblygiad y plentyn yn cael eu nodi, dylid cynnal asesiad y Rhestr o Sgiliau Tyfu. Pan fydd pryderon yn codi am ddatblygiad y plentyn neu os nodir bod oedi yn natblygiad y plentyn, dylid gwneud atgyfeiriadau priodol ar gyfer cymorth ychwanegol o fewn y Rhaglen neu i ddarpariaeth arbenigol allanol.

Dylai trefniadau ffurfiol fod ar waith i rannu canlyniadau asesiad y Rhestr o Sgiliau Tyfu gyda'r lleoliad gofal plant a dylid ei ddefnyddio yng Nghynllun Datblygiad y Plentyn. Lle y nodir bod gan y plentyn anghenion ychwanegol, dylid rhoi cynllun ar y cyd ar waith i fynd i'r afael â'r anghenion hynny a fydd yn cael ei weithredu naill ai ar y cyd neu ar wahân (yn dibynnu ar yr angen a nodwyd) gan yr Ymwelydd Iechyd a / neu'r lleoliad gofal plant. (Gweler adran 6.5 hefyd)

Mae'n bwysig bod rhieni yn:

- bresennol pan fydd yr asesiad yn cael ei gynnal;
- cael gwybod am y canlyniadau a'r hyn y maent yn ei olygu;
- cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau ar gyfer eu plant;
- cael cyngor ar sut i gynorthwyo eu plentyn i ddysgu yn amgylchedd y cartref;
- cael eu hannog i gynnwys gweithwyr proffesiynol ychwanegol, ble y nodir bod gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol.

### 6.7. Ymgysylltu â rhieni

#### 6.7.1 Anogaeth i fanteisio ar y rhaglen

Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob rhiant â phlant cymwys yn cael cynnig darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg ac yn cael eu hannog i fanteisio arno. Dylid hyrwyddo gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i deuluoedd mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd.[14] Mae rhieni yn aml yn cael gwybod am yr hawl gofal plant drwy eu hymwelydd iechyd neu gan weithwyr proffesiynol arall Dechrau'n Deg (gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, staff cymorth rhianta neu ddarparwyr iaith a chwarae), yn ogystal â thrwy'r lleoliadau gofal plant a thîm gofal plant Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru 2013a). Mae gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd rôl o ran darparu gwybodaeth berthnasol i rieni am eu hawl i ofal plant Dechrau'n Deg.

Dylai'r iaith a ddefnyddir mewn deunyddiau marchnata bwysleisio hawl rhieni i gael gofal plant o ansawdd uchel wedi'i ariannu, a'r manteision o ran datblygiad eu plentyn[15]. Mae'r canlynol yn weithgareddau sydd hefyd wedi cael eu defnyddio i annog rhieni i fanteisio ar yr hawl i gael gofal plant:

- yn ddwy oed pan fydd pob plentyn Dechrau'n Deg yn cael bag llyfrau ychwanegol mae'r ymwelydd iechyd yn defnyddio'r cyfle i annog rhieni i ddefnyddio'r llyfrau ac yn hyrwyddo manteision gofal plant i rieni;

[14] Mae gan Mudiad Meithrin wybodaeth am fanteision addysg Gymraeg a manteision plant dwyieithog. http://www.meithrin.co.uk/barn-rhieni-di-gymraeg/

[15] Gweler adran 4 hefyd.

- anfon cardiau post at bob rhiant yn hyrwyddo gofal plant i deuluoedd perthnasol;
- cynnal partïon neu ddisgos paratoi am ofal plant.

Hyd yn oed os bydd rhieni'n gwybod am eu hawl, ni fyddant yn manteisio ar hynny o reidrwydd. Mae ymchwil yn awgrymu y gall rhieni deimlo'n euog am adael eu plentyn mewn gofal plant; efallai eu bod yn pryderu y bydd eu plentyn yn cael heintiau neu'n poeni am yr hyn y mae eu plentyn yn ei wneud yn eu habsenoldeb. Yn aml caiff teimladau cadarnhaol am fanteision posibl gofal plant eu cydbwyso â theimladau o ofn, euogrwydd ac amheuaeth ynghylch a oeddent yn gwneud y peth iawn (Fabian a Dunlop, 2002).

Nododd Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2013a) fod rôl allweddol ymwelwyr iechyd yn hollbwysig o ran annog rhieni i fanteisio ar y cynnig gofal plant, a'u bod yn aml yn helpu rhieni i lenwi'r ffurflenni. Canfu'r gwerthusiad hefyd fod rhai rhieni wedi bod yn amharod i anfon eu plant i ofal plant gan eu bod gartref bob dydd, ac yn teimlo ei fod yn ddiangen. Roedd rhieni wedi cael eu darbwyllo i fanteisio ar y cynnig gofal plant pan roddwyd esboniadau clir iddynt gan yr ymwelydd iechyd am y manteision i'w plentyn.

Efallai y bydd angen anogaeth a chymorth parhaus a rhagweithiol ar rai rhieni i fanteisio ar wasanaethau (Llywodraeth Cymru 2013a). Gellir goresgyn amharodrwydd i fanteisio ar wasanaethau drwy ddatblygu perthnasoedd cefnogol effeithiol. Gall rhieni hefyd fod yn fwy tebygol o fanteisio ar ofal plant a gwasanaethau Dechrau'n Deg eraill os bydd rhieni eraill yn eu cymuned wedi ei argymell. Dylai pob aelod o staff Dechrau'n Deg fod yn ymwybodol o fanteision y ddarpariaeth gofal plant a gallu cyfleu'r rhain i'r rhieni. Dylent hefyd allu egluro gwerthoedd y lleoliad, egwyddorion gofal plant o ansawdd da a sut y bydd eu plentyn yn dysgu drwy chwarae.

Dylid annog rhieni amharod i fynychu gweithgareddau eraill a drefnir gan Dechrau'n Deg e.e. cymorth rhianta, sesiynau iaith a chwarae, grwpiau iaith gynnar, sesiynau aros i chwarae.

### 6.7.2 Cyfathrebu â rhieni

I lawer o rieni gallai'r cyfnod pan fydd eu plentyn yn dechrau gofal plant fod yn amser pryderus ac emosiynol. Efallai nad ydynt wedi cael unrhyw brofiad o addysg ers eu dyddiau ysgol a gallant fod yn ansicr ynghylch yr hyn sy'n digwydd mewn lleoliad blynyddoedd cynnar neu beth i'w ddisgwyl o ran yr amgylchedd a'r gweithgareddau. Gall y teimladau hyn o ansicrwydd ei gwneud yn fwy anodd i rieni helpu i baratoi eu plentyn ar gyfer pontio.

Gall rhieni sydd â phlentyn ag anghenion ychwanegol fod yn arbennig o bryderus am eu plentyn yn dechrau mynd i leoliad gofal plant. Efallai eu bod yn pryderu y bydd eu plentyn yn destun sbort i blant eraill ac y bydd yn cael ei allgáu; y bydd y plentyn yn ofnus; na fyddai'r plentyn yn gallu cyfleu ei anghenion ac efallai na fyddai ei anghenion yn cael eu diwallu (Menter a Busnes, 2012).

Mae cyfathrebu â rhieni, gan gynnwys tadau, yn elfen bwysig iawn o bontio'n ddidrafferth i ofal plant. Dylid datblygu partneriaethau go iawn rhwng rhieni a staff wrth gefnogi'r broses bontio. Efallai y bydd plant yn mynegi eu pryderon ynghylch mynychu lleoliad gofal plant. Gallai hyn fod drwy gliwiau llafar a gweithredoedd ac ymddygiad di-eiriau a allai awgrymu eu bod yn bryderus. Bydd rhieni hefyd yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau eraill ym mywyd y plentyn a all effeithio ar bontio'n ddidrafferth, fel symud tŷ, babi newydd neu rieni'n gwahanu. Gall rhieni a chanddynt blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol fod yn ffynhonnell wybodaeth amhrisiadwy am anghenion eu plentyn; y technegau i'w defnyddio gyda'r plentyn; pa mor fuan y gwelir arwyddion o ofid, a'r ffyrdd mwyaf priodol o'i gysuro. Mae'n bwysig gwrando ar rieni, cydnabod eu pryderon a gwerthfawrogi eu gwybodaeth fanwl am anghenion, hoff bethau, arferion a datblygiad eu plentyn.

Gweler Adran 8 "Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth"[16] am ragor o wybodaeth a strategaethau ar gyfer gweithio gyda'r grwpiau canlynol o rieni:

- rhieni lleiafrifoedd ethnig;
- rhieni ifanc;
- tadau;
- rhieni anabl;
- rhieni â phlentyn anabl a/neu blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol
- gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau;
- teuluoedd â rhiant yn y carchar;
- rhianta plant a fabwysiadwyd;
- rhieni ag anghenion iechyd meddwl;
- rhieni sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin yn y cartref.

Dylid cynhyrchu **Proffil Un Dudalen** neu **Gerdyn Gwybodaeth fel rhai 'Amdanaf Fi'** sy'n annog rhieni a gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n gweithio gyda'r plentyn i fod yn rhan o'r broses, er mwyn rhoi ystod o wybodaeth am eu plentyn. Gall hyn hefyd roi sicrwydd i rieni y bydd gwybodaeth bwysig am eu plentyn ar gael i bob aelod o staff yn y lleoliad. Yn unol ag arfer da, dylid ysgrifennu'r wybodaeth hon yn y person cyntaf ac yn seiliedig ar Ddull sy'n Canolbwyntio ar Unigolion (gweler adran 6.4.2) a'i chysylltu â'r Cynllun Adnabod Cynnar, cynllun gweithredu neu gynllun chwarae. Gellir darparu'r wybodaeth ganlynol:

- pethau gwych amdanaf fi;
- fy nheulu;
- yr hyn sy'n bwysig i mi;
- y ffordd orau o'm cynorthwyo;
- yr hyn rwy'n dysgu ei wneud;
- pethau sy'n peri gofid i mi;
- llun o'r plentyn (gyda chaniatâd y rhieni);
- enwau'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n gweithio gyda'r plentyn (os yw'n briodol).

[16] http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/?skip=1&lang=cy

Mae Atodiad C yn rhoi enghraifft o Broffil Un Tudalen a thempledi o gardiau gwybodaeth fel rhai ‘Amdanaf Fi’.

Dylid gofyn i rieni lenwi ffurflen ganiatâd ar gyfer rhannu gwybodaeth a dylai'r lleoliad gofal plant **gasglu'r wybodaeth ganlynol** pan fydd y plentyn yn dechrau yno:

- iaith y cartref;
- amgylchiadau'r cartref (gan gynnwys crefydd a'r hyn sy'n bwysig i'r teulu);
- pwy fydd yn casglu'r plentyn ar ddiwrnodau penodol;
- anghenion gofal (gan gynnwys meddyginiaeth, anghenion toiled a sut mae'r plentyn yn dangos pryder a thrallod a beth sy'n ei dawelu);
- anghenion dietegol (gan gynnwys alergeddau);
- manylion cyswllt mewn argyfwng;
- unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r plentyn a'i deulu.

Dylai staff groesawu rhieni i'r lleoliad gofal plant a dangos iddynt eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel addysgwyr cyntaf y plant a'u gofalwyr. Er mwyn ennyn hyder y rhieni, dylai staff sicrhau bod y rhieni'n ymwybodol o amcanion y lleoliad a dylid rhoi cyfleoedd iddynt weld sut mae ymarferwyr yn ymwneud â'u plentyn ac yn gweithio ag ef.

Efallai na fydd rhai rhieni'n dymuno cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau yn y lleoliad gofal plant. Nid diffyg diddordeb yn eu plentyn fydd i gyfrif am hyn o reidrwydd. Gall fod oherwydd diffyg hyder neu ymwybyddiaeth o'u rôl bwysig. Mae'n bwysig, felly, cynnwys rhieni, datblygu eu hyder a'u hannog i gyfrannu mewn cynifer o ffyrdd â phosibl.

**I efelychu arfer da, disgwylir i'r camau canlynol, i greu cysylltiadau rhwng y cartref a'r lleoliad gofal plant, gael eu hystyried:**

- cynnal diwrnod cynefino neu ddiwrnod agored i rieni a phlant er mwyn dangos y lleoliad iddynt;
- defnyddio pecyn croeso, er mwyn rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni am y lleoliad gofal plant, oedolion arwyddocaol, arferion; cymarebau staff:plant a'r byrbrydau a'r gweithgareddau a gynigir. Gallai hyn gynnwys ffotograffau o'r lleoliad (gan gynnwys ardaloedd fel y toiled a'r ardal chwarae awyr agored); teganau ac adnoddau allweddol; gweithwyr allweddol a phlant yn cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael yn y lleoliad. Ar gefn y ffotograffau gallai'r lleoliad hefyd roi esboniadau ac awgrymiadau am bynciau i rieni siarad amdanynt gyda'u plentyn. Bydd hyn yn helpu'r plentyn i ymgyfarwyddo;
- sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i rieni yn ddeniadol, o ansawdd uchel ac wedi'i hysgrifennu mewn ffordd syml sy'n hawdd ei deall. Dylai unrhyw wybodaeth a ddarperir i rieni ystyried anghenion rhieni sydd â lefelau llythrennedd isel. Mae gan NIACE (www.niace.org.uk/current-work/readability) daflen sy'n rhoi cyngor ar sut i ysgrifennu deunydd sy'n hawdd ei ddarllen;
- annog rhieni i greu, gyda'u plant, eu bathodyn eu hunain ar gyfer eu peg neu ofod personol pwrpasol arall, o bosibl yn ystod ymweliad anffurfiol â'r lleoliad gofal plant;
- rhoi gwybodaeth i rieni am y broses gynefino a'r holl fanylion ymarferol, er enghraifft, a fyddant yn cael aros am yr ychydig sesiynau cyntaf. Bydd hyn yn helpu rhieni i baratoi eu plentyn;
- rhoi cyfleoedd i rieni ymweld â'r lleoliad a chwrdd â'r staff cyn iddynt ddechrau cael gofal plant. Gellid gwahodd rhieni i'r lleoliad yn ystod amser stori neu ganu rhigymau a gellid eu gwahodd i ddod ar daith teulu neu i sesiwn grefftau;
- ar ôl yr ychydig sesiynau cyntaf gellir rhoi adborth i'r rheini er mwyn tawelu eu meddyliau (e.e. galwad ffôn, neges destun, sgwrs ar ddiwedd y sesiwn, ffotograff, dyddiadur);
- darparu blwch pryderon i rieni allu rhannu unrhyw bryderon;
- hysbysfwrdd lle y rhoddir amserlen ddyddiol o weithgareddau;
- creu taflen neu gylchlythyr sy'n rhoi manylion yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu ac awgrymu'r hyn y gall rhieni ei wneud yn y cartref i gefnogi hyn;
- rhoi dyddiadur dyddiol ysgrifenedig o weithgareddau eu plentyn i'r rhieni;
- cynhyrchu llyfryn gweithgaredd diwedd tymor/blwyddyn yn cofnodi cynnydd y plentyn;
- gwahodd rhieni i rannu eu profiad o'r broses bontio. Gofynnwch iddynt yn anffurfiol neu drwy holiadur. Defnyddiwch y wybodaeth hon i adolygu'r broses bontio a'r goblygiadau ar gyfer cyfnodau pontio yn y dyfodol.

Dogfennau ategol a chysylltiadau:

Mae **'Cymraeg i Blant'** yn cynnig cyngor rhad ac am ddim i rieni ar fagu plant yn Gymraeg a Saesneg. Ceir awgrymiadau ac adnoddau ar gyfer cyflwyno dwy iaith i blant ar ei wefan.

http://cymraeg.llyw.cymru/learning/cymraegiblant/?lang=cy

Gellir lawrlwytho canllawiau arfer da ar **'Early Home Learning Matters'** o'r wefan hon:
http://www.nptfamily.com/pdf/fis_%20brief%20guide%20for%20practitioners.pdf

**Learning and Play – giving your child the best start**
Mae'r llyfryn hwn i rieni, a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Teuluoedd a Magu Plant (Family Lives bellach), yn esbonio pam y gall chwarae a threulio amser gyda rhieni roi dechrau da i blant ifanc iawn pan fyddant yn mynd i'r ysgol. Mae'n cynnwys awgrymiadau a syniadau ymarferol.
http://merthyrfis.org/media/1077/learning-and-play.pdf

Mae gwefan **'Their Words for Life'** yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd yn cynnwys cyngor ac adnoddau i rieni helpu eu plant i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a llythrennedd hanfodol.
http://www.wordsforlife.org.uk/

Elusen gyfathrebu ar gyfer plant yw **I CAN** sy'n darparu, gwybodaeth, cyngor, adnoddau a chymorth i rieni a gweithwyr proffesiynol i gynorthwyo ag anghenion cyfathrebu plant. Mae gan I CAN Wasanaeth Cymorth ar-lein hefyd sydd ar gael drwy'r wefan Talking Point ac yn bersonol drwy ei hasesiadau lleferydd ac iaith amlddisgyblaethol i blant. Ffôn: 020 7843 2544 neu anfonwch e-bost i:
help@ican.org.uk
http://www.ican.org.uk/

Mae'r **Peers Early Education Partnership** (PEEP) wedi datblygu deunyddiau 'Learning Together' i gynorthwyo rhieni ac ymarferwyr. Ceir gwybodaeth a syniadau am bethau y gall rhieni eu gwneud yn y cartref ar gyfer plant yn amrywio o fabanod i blant bedair oed. Ewch i wefan Peers Early Education Partnership i gael rhagor o wybodaeth.
http://www.peep.org.uk/section.asp?id=30&cachefixer=cf17225978334996

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu 2 dudalen Facebook **'Mae addysg yn dechrau yn y cartref'** yn Gymraeg a Saesneg sy'n rhoi awgrymiadau a dolenni i wefannau i rieni a gofalwyr a all eu helpu i gynorthwyo eu plant i ddysgu yn amgylchedd y cartref. www.Facebook.com/beginsathom & www.facebook.com/dechraucartref

### 6.7.3 Hyrwyddo presenoldeb

Er mwyn hyrwyddo presenoldeb plentyn ac annog rhieni i ymwneud â lleoliadau, dylai staff roi gwybodaeth lawn i rieni am y ffordd y mae eu plentyn yn ymgartrefu ac am eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Yn ddelfrydol, dylai gweithiwr allweddol y plentyn roi adborth llafar i rieni ar ddiwedd pob sesiwn. Gellid creu dyddiadur

ymgartrefu hefyd; gan gofnodi gwybodaeth am gyfnodau hapus, adegau pan oedd y plentyn yn ofidus ac unrhyw strategaethau a fu o gymorth i'w dawelu.

Gall rhieni hefyd werthfawrogi sylwadau ysgrifenedig am y ffordd y mae eu plentyn yn ymgartrefu a gwybodaeth am yr hyn y mae eu plentyn yn mwynhau ei wneud yn ystod y dydd. Canfu'r Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2013a) mai sgyrsiau cyfeillgar dyddiol â staff y lleoliad oedd yn llwyddo i ymgysylltu orau â'r rhieni. Dywedodd y rhieni fod rhyngweithio anffurfiol fel hyn yn eu helpu i ymddiried yn y staff ac er bod diweddariadau ysgrifenedig bob tymor yn cael eu gwerthfawrogi roedd y cyswllt a'r wybodaeth ddyddiol yn gwneud i rieni deimlo'n agosach at brofiad eu plentyn. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith ymchwil ar ganfyddiadau defnyddwyr gwasanaethau sy'n dangos yn gyson fod y graddau y mae teuluoedd yn teimlo y gallant 'ymddiried' mewn staff yn cyfrannu at eu cymhelliant i fynychu'n rheolaidd (Moran et al, 2004).

Gall pontio'n ddidrafferth o'r cartref i ofal plant helpu i hyrwyddo gwell presenoldeb. Dylid pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd ac annog rhieni i ymrwymo i hyn. Dylai staff fynd ar drywydd achosion o bresenoldeb gwael yn brydlon e.e. drwy ffonio rhieni neu anfon neges destun atynt; darganfod y rhesymau dros absenoldeb; ymdrin yn sensitif ag unrhyw broblemau ac, os yw'n briodol, cynnal ymweliadau cartref.

**I efelychu arfer da, disgwylir i'r camau canlynol, i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd, gael eu hystyried:**

- cael pwynt cyswllt clir gydag aelod o staff (e.e. gweithiwr allweddol) sy'n gweithio'n agos â'u plentyn;
- pwysleisio gwerth rôl y rhieni fel prif addysgwyr eu plentyn a faint y maent yn ei wybod amdanynt;
- diwrnodau agored a sesiynau gweithgareddau arbennig lle bydd rhieni/gofalwyr yn dod i mewn i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'u plant
- rhoi gwybodaeth lawn i rieni am y ffordd y mae eu plentyn yn ymgartrefu ac am eu gweithgareddau o ddydd i ddydd (mae cyfathrebu wyneb yn wyneb yn helpu i chwalu rhwystrau a meithrin hyder rhwng ymarferwyr a theuluoedd);
- creu dyddiadur ymgartrefu;
- mynd ar drywydd presenoldeb gwael yn brydlon;
- datblygu polisi presenoldeb ar gyfer gofal plant a safoni gweithdrefnau absenoldeb rhwng lleoliadau (gweler yr enghraifft yn Atodiad D);
- sefydlu protocolau clir i'w dilyn os bydd plentyn yn absennol, lle y dilynir llwybrau gwahanol yn dibynnu a yw'r plentyn ar y gofrestr Amddiffyn Plant, yn Blentyn mewn Angen ac ati.
- defnyddio system gwybodaeth reoli i helpu i fonitro presenoldeb;
- darparu hyrwyddwr presenoldeb ym mhob lleoliad;
- cyflogi swyddog cyswllt/ymgysylltu gofal plant;
- anfon negeseuon testun i atgoffa rhieni a/neu gerdyn post 'Trueni nad ydych yma';
- cynnal sesiynau iaith a chwarae mewn lleoliadau Dechrau'n Deg lle y gellir annog rhieni i fod yn bartneriaid ym mhroses ddysgu eu plentyn. Gall y rhain hefyd gynnig cyfleoedd da i gyfleu negeseuon eraill i rieni e.e. hyrwyddo llyfrau cyfrwng Cymraeg, pwysigrwydd siarad â'u plentyn a darllen iddo a negeseuon "bwyta'n iach";
- defnyddio Facebook.* Gellir gwahodd rhieni i 'hoffi'r' dudalen Dechrau'n Deg ac yna gael diweddariadau awtomatig;
- edrych i weld pa gymorth ychwanegol sydd ar gael i deuluoedd sy'n agored i niwed i gefnogi presenoldeb y plentyn mewn gofal plant.

* Cyfeiriwch at ganllawiau/polisi cyfryngau cymdeithasol eich awdurdod lleol.

**Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir**[17]

Rhaid i bob lleoliad plant Dechrau'n Deg gael ei gofrestru a'i reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Rhaid i bob person

[17] http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/childcare/regulation/?skip=1&lang=cy

cofrestredig barchu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Dyma'r Safonau Cenedlaethol *Gofynnol* ar gyfer cofrestru ac er mwyn darparu gofal plant o safon, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg ymgyrraedd yn uwch na'r safonau sylfaenol hyn.

Mae'r adran hon yn ymwneud â dilyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

*Safon 6: Gweithio mewn partneriaeth â rhieni*

Canlyniad: Bod y rhieni yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngweithgareddau, cynnydd a datblygiad eu plentyn ac yn cael gwybodaeth gyson amdanynt.

Mae'r person cofrestredig yn gyfrifol am sicrhau:

- Ei fod ef a'r staff yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r rhieni i ddiwallu anghenion y plant, yn unigol ac fel grŵp (Safon 6.1).
- Bod cyfrifoldeb y rhieni, yn anad neb arall, dros eu plant yn cael ei gydnabod a'i barchu (Safon 6.2).
- Bod y rhieni yn cael gwybod am yr holl arferion a ddilynir wrth ofalu am eu plant (Safon 6.3).
- Bod y polisïau a'r gweithdrefnau ar gael i bob rhiant (Safon 6.4).
- Mewn lleoliad gofal dydd, bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i rieni sy'n cynnwys rôl y rhieni, gan gynnwys unrhyw ddisgwyliadau gan rieni i gymryd rhan ar y pwyllgor rheoli neu fel gwirfoddolwyr. Bod gwybodaeth lawn a chanllawiau yn cael eu rhoi i unrhyw wirfoddolwyr ac aelodau'r pwyllgor am eu rolau a'u cyfrifoldebau (Safon 6.5).
- Y bydd y polisi am breifatrwydd a chyfrinachedd ar gael. Bod unrhyw geisiadau gan drydydd partïon am wybodaeth yn cael eu trafod gyda'r rhieni a bod gwybodaeth amdanynt ond yn cael ei rhannu gyda'u cydsyniad hwy. Gellir gwneud eithriad lle mae'n ofynnol cofnodi pryderon am ddiogelwch y plentyn, er enghraifft mewn perthynas â diogelu plant (Safon 6.6)
- Os nodir bod plentyn mewn angen (Adran 17 o Ddeddf Plant 1989), bod y person cofrestredig, gyda chaniatâd y rhieni, yn rhoi'r wybodaeth briodol i asiantaethau cyfeirio (Safon 6.7).
- Bod manylion am yr hyn y mae eu plentyn wedi'i gyflawni yn ystod y dydd, gan gynnwys unrhyw ddigwyddiad pwysig neu newid yn ei ymddygiad, yn cael eu rhannu gyda'r rhieni (Safon 6.8).
- Bod cofnodion yn cael eu cadw gyda manylion am y plentyn a nodiadau ar ei gynnydd. Bod gan rieni fynediad i bob cofnod ysgrifenedig am eu plentyn (ac eithrio'r sefyllfa yn Safon 6.10 isod) (Safon 6.9).
- Bod gwybodaeth reolaidd yn cael ei rhoi i rieni am weithgareddau a ddarparwyd, er enghraifft, drwy arddangosfeydd wal, lluniau ac enghreifftiau o waith y plant (Safon 6.10).

## 6.8. Ymweliadau Cartref

Os yn bosibl ac yn ymarferol gellir cynnal ymweliadau cartref cyn i blant ddechrau mewn lleoliad. Ystyrir bod ymweliadau cartref yn gyfle da i ddechrau adeiladu perthynas rhwng rhieni, ymarferwyr a phlant; a'r broses o rannu gwybodaeth. Mae plant (a rhieni) yn aml yn teimlo'n fwy hamddenol yn eu cartref eu hunain, a all helpu i ddatblygu perthynas ac ymddiriedaeth. Gall rhieni hefyd werthfawrogi cael amser i siarad un-i-un. Gall arsylwi ar blentyn yn ei gartref ei hun hefyd helpu i egluro rhai patrymau ymddygiad a diddordebau. Mae hefyd yn gyfle i weld pa weithgareddau dysgu sydd eisoes yn digwydd yn y cartref a phwy arall allai gynorthwyo gyda dysgu yn y cartref (e.e. tadau, neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd hŷn, perthnasau eraill).

Dylid trin ymweliadau cartref yn sensitif. Dylid ei gwneud yn glir i rieni nad oes rheidrwydd arnynt i dderbyn ymweliad ac mai diben yr ymweliad yw dod i'w hadnabod nhw a'u plant, nid i archwilio eu cartref. Gall yr ymweliad cartref gynnig cyfle da i rieni a phlant ddod i adnabod staff Dechrau'n Deg a darganfod mwy am y lleoliad, y drefn, y gweithdrefnau a'r gweithgareddau. Gall yr ymweliad cartref hefyd fod yn gyfle i gasglu gwybodaeth dderbyn, ac i ystyried ar y cyd y dull gorau o sicrhau bod y plentyn yn ymgartrefu yn y lleoliad gofal plant. Gall hyn helpu i ysgafnhau'r pwysau ar y rhieni yn ystod eu hymweliad cyntaf â'r lleoliad.

Dylai staff ddilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch eu lleoliad neu awdurdod ar gyfer ymweliadau cartref. Er enghraifft, efallai na fydd staff yn dymuno ymweld â chartrefi ar eu pen eu hunain. Gellir cynnal ymweliadau yn ystod gwyliau hanner tymor a gallai'r rheolwr gofal plant, gweithiwr allweddol y plentyn, gweithwyr cymorth i deuluoedd neu staff perthnasol Dechrau'n Deg eraill megis gweithwyr pontio eu cynnal.

## 6.9. Rôl staff gofal plant

Dylid rhoi digon o amser ac adnoddau i baratoi ar gyfer pob agwedd ar bontio, gan gynnwys cael mynediad i wybodaeth am blant, ei darllen a'i rhannu. Dylai staff fod yn ymwybodol o'r plant hynny a allai fod yn agored i niwed a/neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a chysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill a allai fod yn ymwneud â phlant penodol.

### 6.9.1 Rôl y gweithiwr allweddol

Mae gan y system gweithiwr allweddol ran bwysig i'w chwarae i sicrhau cyfnod pontio didrafferth i blant. Os oes modd, dylai rhieni a phlant gael cyfle i gwrdd â gweithiwr allweddol y plentyn pan fyddant yn ymweld â'r lleoliad gofal plant. Dylid egluro rôl y gweithiwr allweddol yn fanwl i'r rhieni. Dylai'r gweithiwr allweddol fod yn ymwybodol o anghenion emosiynol ac ymarferol y plentyn cyn iddo ddechrau yn y lleoliad a dylai fonitro llwyddiant y broses bontio, drwy ymgynghori â'r rhieni a staff eraill.

### 6.9.2 Rôl Athro/Athrawes Ymgynghorol / Cynghorydd y Blynyddoedd Cynnar/Gweithiwr pontio Dechrau'n Deg

Dylai athrawon ymgynghorol Dechrau'n Deg weithio'n agos gyda staff gofal plant, ymwelwyr iechyd a rhieni er mwyn sicrhau pontio didrafferth o'r cartref i ofal plant. Dylai'r athro/athrawes ymgynghorol weithio'n agos â rhieni ac ymwelwyr iechyd er mwyn sicrhau proffil cynhwysfawr ar gyfer pob plentyn Dechrau'n Deg sy'n dechrau mewn lleoliad. Gall yr Athro/Athrawes Ymgynghorol Dechrau'n Deg hefyd gymryd rhan mewn rhai o'r gweithgareddau canlynol, lle y bo'n briodol:

- cynorthwyo lleoliadau i hunanwerthuso, gan gynnwys eu trefniadau pontio;
- darparu sesiynau gwybodaeth i rieni a phlant newydd a rhoi gwybod iddynt am eu hawliau gofal plant yn y lleoliad;
- cynnal ymweliad cartref ar y cyd â gweithiwr allweddol o'r lleoliad gofal plant (os yn berthnasol);
- trefnu ymweliadau ar gyfer rhieni a phlant i'r lleoliad gofal plant;
- cysylltu ag ymwelwyr iechyd ynghylch unrhyw bryderon neu faterion yn ymwneud â phlentyn penodol a thrafod cynnydd a'r camau nesaf;
- mewn partneriaeth â'r ymwelydd iechyd a lleoliad gofal plant, sicrhau bod y cynllun gofal neu chwarae ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol yn ei le;
- sicrhau bod yr holl staff gofal plant yn deall rôl y "gweithiwr allweddol" a chymryd cyfrifoldeb dros asesu a chynllunio ar gyfer pob plentyn yn unigol;
- gweithio gyda Thîm Iechyd Dechrau'n Deg a theuluoedd i gynorthwyo pontio didrafferth o'r cartref i leoliadau gofal plant;
- cyd-drafod â staff arbenigol fel Cynghorwyr Anghenion Addysgol Ychwanegol, Portage a Seicolegwyr Addysg.

## 6.10. Cydweithio

Dylai'r lleoliad ddatblygu perthnasoedd cynhyrchiol gydag ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol eraill megis therapyddion lleferydd ac iaith, a all ddarparu gwybodaeth ychwanegol am blant a all fod yn agored i niwed yn y cyfnod pontio.

Efallai y gall sefydliadau gofal plant ymbarél Cymru (Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (Cymru); Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru, Mudiad Meithrin, Clybiau Plant Cymru Kids Clubs a Chymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar hefyd gynnig cyngor ar y broses bontio.

Gall lleoliadau greu perthynas hefyd gyda darparwyr sy'n cynnal grwpiau fel 'Mam a'i Phlentyn' a 'Ti a Fi'. Pan fyddant yn agos yn ddaearyddol, gallai lleoliadau drefnu i blant ymweld er mwyn ymgyfarwyddo â'r staff a chynllun y lleoliad.

Gall ymwelwyr iechyd hefyd alw heibio'r lleoliadau gofal plant i wirio cynnydd y plentyn. Mae hyn yn galluogi'r ymwelydd iechyd i ddilyn datblygiad y plentyn gan ganiatáu i'r ymwelydd iechyd gynnig unrhyw gymorth penodol y gall fod ei angen arno.

**Astudiaeth Achos 1: Trefniadau pontio safonol**

Caiff pob plentyn sy'n gymwys i gael lle gofal plant Dechrau'n Deg ei gyfeirio gan yr ymwelwyr iechyd at eu lleoliadau lleol. Bydd ymwelwyr iechyd yn trafod anghenion plant unigol gyda staff gofal plant cyn i'r plant ddechrau yno a chaiff canlyniadau'r asesiad cynnydd datblygiadol cyntaf (a lle y bo'n briodol, ganlyniadau sgrinio asesiad y Rhestr o Sgiliau Tyfu) eu rhannu.

Yna bydd y lleoliadau yn cysylltu â'r teuluoedd i gyflwyno eu hunain ac i wneud trefniadau i'r rhieni/gofalwyr ymweld. Yn ystod yr ymweliadau bydd y rhieni/gofalwyr yn cwblhau ffurflenni cofrestru'r lleoliad ac maent yn cael eu cyflwyno i weithwyr allweddol y plant. Cyn i'r plant ddechrau yn y lleoliad gofal plant, caiff trefniadau eu gwneud i'r rhieni/gofalwyr a'r plant ymweld am gyfnodau byr i ymgyfarwyddo â chynllun y lleoliad ac i ddod i adnabod y staff. Pan fyddant yn dechrau, oherwydd eu bod eisoes yn adnabod y staff, bydd y rhieni/gofalwyr yn gyfforddus ynglŷn â siarad â nhw am unrhyw bryderon a bydd y plant yn fodlon gwahanu oddi wrth eu gofalwr.

**Astudiaeth Achos 2: Annog rhieni i fanteisio ar y rhaglen**

Rhoddodd ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg anogaeth i riant fanteisio ar y ddarpariaeth gofal plant. Aeth yr ymwelydd iechyd a gweithiwr cymorth y teulu gyda'r rhiant a'r plentyn ar yr ymweliad cyntaf â lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg. Yn ystod yr ymweliad, gwnaed trefniadau i'r rhiant a'r plentyn dreulio peth amser yn y lleoliad cyn i'r plentyn ddechrau mewn gwirionedd.

Fodd bynnag, nid ymwelodd y rhiant a'r plentyn â'r lleoliad ar y dyddiadau y cytunwyd arnynt. Hysbysodd arweinydd y lleoliad yr ymwelydd iechyd am absenoldeb y teulu ac yn ei thro, ymwelodd yr ymwelydd iechyd â'r cartref eto. Unwaith eto gwnaed trefniadau i'r rhiant a'r plentyn ymweld â'r lleoliad.

Ar ôl ail ymweliad yr ymwelydd iechyd, ymwelodd y rhiant a'r plentyn â'r lleoliad a chawsant eu cyflwyno i weithiwr allweddol y plentyn. Rhoddodd y gweithiwr allweddol gymorth i'r rhiant lenwi ffurflen gofrestru'r lleoliad a rhoddwyd cyfle i'r rhiant drafod hoffterau, cas bethau a diddordebau'r plentyn yn ogystal ag unrhyw ofynion meddygol a dietegol.

Arhosodd y rhiant gyda'r plentyn drwy gydol yr ymweliad, nes bod y ddau ohonynt yn gyfforddus ynglŷn â bod yn y lleoliad. Yn raddol, treuliodd y rhiant lai a llai o amser yn y lleoliad nes bod y plentyn yn ddigon hyderus i aros ar ei ben ei hun.

Yna roedd pob cysylltiad â'r teulu yn cael ei wneud drwy weithiwr allweddol y plentyn, a roddodd ddiweddariadau rheolaidd i'r rhiant am weithgareddau, cynnydd a datblygiad y plentyn ar ddiwedd pob sesiwn.

**Astudiaeth Achos 3: Plentyn ag anghenion ychwanegol**

Cafodd Tîm Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar alwad ffôn gan ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg a oedd wedi bod i weld teulu newydd a oedd yn rhan o’i llwyth achosion yn ddiweddar lle roedd merch fach o'r enw Megan[18].

Roedd Megan wedi cael diagnosis o gyflwr genetig dirywiol prin iawn. Roedd gan y plentyn anawsterau dysgu sylweddol, ac roedd ganddi draceostomi a thiwb gastrig trwynol. Roedd yr ymwelydd iechyd yn pryderu sut y byddai'n cael mynediad i'w lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg.

Trefnwyd cyfarfod amlasiantaeth gan Arweinydd Tîm Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar a gynhaliwyd y diwrnod canlynol gyda chynrychiolwyr o’r meysydd iechyd ac addysg. Lluniwyd cynllun a oedd yn cynnwys hyfforddi pob aelod o staff i ymdrin ag anghenion iechyd y plentyn. Ysgrifennwyd cynllun asesu risg a gofal iechyd a chytunwyd arno. Cytunwyd ar gyllid i ddarparu cymorth ychwanegol i Megan allu cael mynediad i'r lleoliad gofal plant.

Roedd modd i Megan ddechrau yn y lleoliad yr wythnos ganlynol ac mae wedi gwneud cynnydd yno. Roedd mam Megan yn bryderus iawn ar y dechrau ynghylch lleoliad Megan gan fod pawb wedi dweud wrthi y byddai angen iddi fynd i ysgol arbennig ac roedd y ffaith ei bod wedyn yn symud ymlaen i fynd i feithrinfa leol gyda'i brodyr a chwiorydd wedi gwireddu ei breuddwyd.

Rhoddwyd mam Megan mewn cysylltiad â theulu arall yn yr ardal sydd â merch sy’n dioddef o'r un cyflwr prin.

**Astudiaeth Achos 4: Plentyn ag anghenion ychwanegol**

Cafodd y lleoliad alwad ffôn gan Dechrau’n Deg yn eu hysbysu bod plentyn ar y rhestr aros ag anghenion ychwanegol ac angen cymorth 1:1, a bod arian wedi cael ei drefnu ar ei gyfer. Eglurwyd ei hanghenion a hysbyswyd yr arweinydd am y staff proffesiynol oedd eisoes yn gweithio â’r plentyn.

Dywedodd arweinydd y grŵp chwarae wrth ei rheolwr llinell bod angen aelod ychwanegol o staff gan mai dim ond un aelod o staff oedd ganddyn nhw ar gyfer pob 4 plentyn, felly ni fyddai modd defnyddio un o’r aelodau staff hynny i wneud y gwaith 1:1. Cymerwyd tua 3 mis i recriwtio gweithiwr cymorth 1:1.

Yn ystod y broses hon, trefnodd y lleoliad i’r rhieni ymweld â nhw. Trafodwyd gyda’r rhieni ynghylch anghenion unigol y plentyn, a pharatowyd y gwaith papur angenrheidiol a’i rannu gyda’r rhieni. Cynhaliwyd asesiad risg ac asesiad cychwynnol er mwyn helpu gyda’r trefniadau. Cyfeiriodd y rhieni y lleoliad at wefan er mwyn ymchwilio i gyflwr y plentyn. Dywedwyd wrth y rhieni y byddai rhywun yn cysylltu â nhw cyn gynted ag y byddai gweithiwr cymorth 1:1 ar gael ar gyfer y plentyn. Pan oedd y gweithiwr cymorth yn barod i ddechrau, gwahoddwyd y rheini i’r lleoliad eto i gwrdd â’r gweithiwr cymorth/allweddol. Ychydig wedi hynny, dechreuodd y plentyn ei chyfnod yn y lleoliad a threfnwyd cyfnod ymgynefino gyda’r

[18] Mae'r enwau yn yr astudiaethau achos wedi cael eu newid i ddiogelu hunaniaeth.

rhieni nes bod y plentyn yn hyderus i aros ar ei phen ei hun gyda'r gweithiwr cymorth.

**Astudiaeth Achos 5: Annog presenoldeb rheolaidd**

Yn ystod y cyfarfod cofrestru, mae rhieni'n cael cyfle i siarad â'r staff yn breifat am hoff bethau a chas bethau eu plentyn, ei anghenion meddygol a dietegol ac unrhyw bryderon sydd ganddynt am y pontio neu'r ddarpariaeth yn y lleoliad. Mae rhieni hefyd yn cael pecyn sy'n cynnwys gwybodaeth am y lleoliad. Gwneir trefniadau i'r rhiant a'r plentyn dreulio amser yn y lleoliad cyn i'r plentyn ddechrau. Mae hyn yn eu helpu i ymgyfarwyddo â chynllun y lleoliad, yr amgylchedd dysgu a'r arferion yn ogystal â rhoi cyfle iddynt gwrdd â rhieni a phlant eraill.

Mae gweithwyr allweddol yn cwrdd â'u plant dynodedig ar ddechrau pob sesiwn ac yn treulio rhywfaint o amser gyda nhw bob dydd. Maent hefyd yn adrodd yn ôl i rieni ar ddiwedd pob sesiwn ac yn rhoi gwybod iddynt am weithgareddau, cynnydd a datblygiad eu plant yn ystod y sesiwn. Os bydd y plant yn ofidus pan fyddant yn cyrraedd, yna bydd eu gweithiwr allweddol yn cysylltu â rhieni yn ystod y sesiwn i dawelu eu meddyliau pan fydd eu plant wedi ymgartrefu'n dda.

Mae ymwelwyr iechyd yn ymweld â lleoliadau bob hanner tymor i drafod cynnydd y plant ac i drafod unrhyw faterion sy'n codi. Yn ogystal, caiff rhieni eu gwahodd i fore coffi, a gynhelir bob hanner tymor, lle maent yn cael eu cyflwyno i'r staff Iaith a Chwarae sy'n darparu gweithgarwch ar eu cyfer ac yn siarad am y sesiynau y gallant eu darparu.

Cynhelir "Fforwm Gofal Plant" bob tymor ar gyfer athrawon a staff gofal plant Dechrau'n Deg, i drafod unrhyw bryderon neu faterion megis ffyrdd o wella presenoldeb mewn lleoliadau.

Mae'r strategaeth hon wedi helpu i sicrhau bod plant yn mynychu lleoliadau yn rheolaidd, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu sgiliau lleferydd ac iaith a'u sgiliau personol a chymdeithasol. Mae hefyd wedi helpu plant i ddatblygu hyder ac annibyniaeth ac ymlyniad cadarnhaol i'r staff. Mae'r plant hefyd yn fwy parod i symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu gofal a'u haddysg pan fydd hi'n bryd trosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen.

## 7. Pontio o ofal plant Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen

**Dylai'r lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg gael polisi ar gyfer pontio i'r Cyfnod Sylfaen, gan amlinellu sut y bydd plant a'u rhieni yn cael eu cynorthwyo; sut y bydd staff yn y ddau leoliad yn gweithio gyda'i gilydd a sut y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu er mwyn sicrhau parhad y dysgu a'r gofal.**

Mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdod lleol i ddarparu lle addysg rhan amser o ansawdd da am ddim yn y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair, os bydd y rhiant yn dymuno hynny. Rhan-amser yw isafswm o 10 awr yr wythnos am oddeutu'r un nifer o wythnosau â blwyddyn ysgol. Gall y lle fod mewn ysgol a gynhelir neu mewn lleoliad nas cynhelir[19] (sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol, wedi'i gofrestru gydag AGGCC ac sy'n amodol ar archwiliadau rheolaidd Estyn). Mater i'r awdurdod lleol yw sut y caiff y ddarpariaeth hon ei chynllunio a'i darparu. Dylai ystyried anghenion y plentyn unigol a'i rieni a'r ddarpariaeth sydd ganddo eisoes.

Nid yw'n ofyniad statudol i blentyn ddechrau addysg orfodol tan ei fod yn 5 oed. Dim ond y gofyniad i awdurdodau lleol gynnig a darparu lle addysg gynnar i blant 3 a 4 oed sy'n ddyletswydd statudol, ond gall rhieni ddewis manteisio arno ai peidio. Gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd roi cyngor ar ba leoedd addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnig.

Fel y nodir yn "Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant" (Llywodraeth Cymru, 2012) mae pontio o Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen yn gyfnod pwysig i blant a'u teuluoedd.

Mae'r ffordd y mae lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen a'r gweithwyr proffesiynol allweddol yn y lleoliadau hynny yn gweithio gyda'i gilydd yn allweddol. Awgryma adborth gan swyddogion arweiniol y Cyfnod Sylfaen mewn awdurdodau lleol fod plant yn ymgartrefu'n well mewn lleoliad Cyfnod Sylfaen os caiff cyfnodau pontio eu rheoli'n dda.

Mewn rhai achosion gall un lleoliad gofal plant fwydo nifer o leoliadau Cyfnod Sylfaen gwahanol neu efallai y bydd un lleoliad Cyfnod Sylfaen yn derbyn plant o nifer o leoliadau gofal plant. Er bod hyn yn creu her i staff gofal plant o ran cyd-drafod gyda nifer o leoliadau, dylid gwneud pob ymdrech i ystyried anghenion plant unigol sy'n symud i leoliadau eraill. Byddai hyn yn cynnwys cynorthwyo rhieni i drefnu ymweliadau â'r lleoliad newydd, gan eu helpu i baratoi eu plentyn ar gyfer symud ac i staff rannu gwybodaeth am y plentyn gyda'r lleoliad newydd (gorau oll os gwneir hynny'n bersonol neu dros y ffôn).

Dylid hefyd ymdrechu i gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl am yr amrywiol leoliadau Cyfnod Sylfaen bydd y plant yn trosglwyddo iddynt. Gallai hyn gynnwys lluniau o'r lleoliadau a gwybodaeth ynghylch a yw'n lleoliad a gynhelir neu’n lleoliad nas cynhelir; y staff yn y lleoliad; ystod oedran y plant yn y lleoliad; cymarebau staff;

[19] Mae'r sector nas cynhelir yn cynnwys darpariaeth a reoleiddir, gan gynnwys gwarchod plant, gofal dydd llawn, gofal sesiynol, meithrinfeydd ac ati

ble mae'r toiledau wedi'u lleoli; y math o gyfleoedd dysgu a ddarperir; rhai o'r rheolau yn y lleoliad (e.e. disgwylir i'r plant wisgo esgidiau gwahanol y tu mewn a'r tu allan, disgwylir i'r plant eistedd i lawr i fwyta ac ati).

Dylai'r lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg gael polisi pontio clir, a dylai ystyried y canlynol.

### 7.1 Cynorthwyo plant yn ystod y cyfnod pontio

I lawer o blant, gall gadael y lleoliad gofal plant a dechrau mewn lleoliad Cyfnod Sylfaen newydd fod yn brofiad brawychus a chythryblus. Efallai y bydd plant yn teimlo'n drist ynglŷn â gadael eu lleoliad presennol a gadael eu gweithiwr allweddol a'i ffrindiau os nad ydynt yn trosglwyddo gydag ef. Gall llyfr lloffion ddarparu atgof parhaol o amser y plentyn yn y lleoliad. Gallai hyn gynnwys lluniau o'i ffrindiau, gweithwyr allweddol, a hoff weithgareddau.

Mewn ardaloedd lle mae lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg yn agos at y lleoliad Cyfnod Sylfaen neu ar yr un safle, gellir cefnogi'r broses bontio drwy rannu adnoddau megis rhandiroedd, gerddi neu ysgolion coedwig. Er mwyn helpu plant i ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd, dylent gael y cyfle i ymuno yn yr amser cylch neu weithgareddau addas eraill. Gellir hefyd wahodd yr athro/athrawes Cyfnod Sylfaen i'r lleoliad gofal plant i rannu straeon neu yn ystod amser rhigwm a chân.

Mewn ardaloedd lle nad yw'r lleoliadau ar yr un safle, dylai plant gael y cyfle i ymweld â'r lleoliad Cyfnod Sylfaen neu fynychu sesiynau blasu gyda staff gofal plant (os yn bosibl) a/neu eu rhieni. Mae hyn yn eu helpu i ymgyfarwyddo â'r amgylchedd newydd cyn dechrau ar y Cyfnod Sylfaen. Mewn rhai ardaloedd, bydd plant hefyd yn cael ymweliadau anffurfiol â lleoliadau Cyfnod Sylfaen gyda'u rhieni a gallant hefyd gwrdd â staff pan fyddant yn mynychu digwyddiadau wedi'u cynllunio megis cyngherddau, diwrnodau chwaraeon a digwyddiadau codi arian.

Mae proffiliau unigol (gweler adran 7.6) yn darparu gwybodaeth berthnasol i leoliadau Cyfnod Sylfaen am anghenion a sgiliau plentyn, gan alluogi ysgolion i baratoi ar gyfer camau nesaf y plentyn o ran ei addysg a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion a nodwyd.

### 7.2 Cymorth pontio i blant ag anghenion dysgu ychwanegol

Pan fydd plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn trosglwyddo o Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen (neu'r lleoliad ysgol arbenigol) gall fod angen llawer iawn o waith i sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, a bod y rhieni'n gyfforddus gyda'r trefniadau.

I deuluoedd â phlant ag anghenion ychwanegol, gall newid achosi llawer o straen iddynt a dylai'r broses bontio roi ystyriaeth arbennig i hyn. Gall teuluoedd fod yn poeni am sut y bydd eu plentyn yn ymgartrefu ac a fydd anghenion eu plentyn yn cael eu deall. Efallai y bydd arnynt angen rhagor o ymweliadau a chyfleoedd i ddod i adnabod y staff o gymharu â phlant eraill. Gall fod yn ddefnyddiol rhoi lluniau o'r lleoliad, gan gynnwys lluniau o'r staff, y toiledau a'r brif fynedfa i blant (mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a phlant ar y sbectrwm awtistiaeth).

Gyda chaniatâd y rhieni, dylai staff y lleoliad gofal plant neu staff perthnasol eraill Dechrau'n Deg hysbysu ysgol/lleoliad y Cyfnod Sylfaen am anghenion ychwanegol plant cyn gynted â phosibl er mwyn iddynt allu cynllunio'n effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny. Dylid trosglwyddo unrhyw ddogfennau cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol mewn cyfarfod wyneb-yn-wyneb, sy'n cynnwys rhieni. Gellir ysgrifennu Proffil Un Dudalen neu Gerdyn gwybodaeth fel un ‘Amdanaf Fi’ gyda'r plentyn/rhieni a gweithwyr proffesiynol y gellir ei hanfon i'r lleoliad Cyfnod Sylfaen a fydd yn derbyn y plentyn. Gweler adran 6.7.2 i gael rhagor o wybodaeth. Mae Atodiad C yn rhoi enghraifft o Broffil Un Dudalen a thempledi o gardiau gwybodaeth fel rhai ‘Amdanaf Fi’.

Er mwyn sicrhau cyfnod pontio didrafferth, dylai ymarferwyr sicrhau bod y lleoliad/ysgol sy'n derbyn y plentyn yn ymwybodol o'i gynnydd a'i anghenion datblygiadol yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y strategaethau penodol sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y lleoliad gofal plant a'r cyfarpar a'r gweithgareddau a ddefnyddir. Dylid darparu gwybodaeth i'r lleoliad Cyfnod Sylfaen ymhell ymlaen llaw os bydd angen addasiadau neu gyfarpar arbenigol.

Yn ddelfrydol, dylai cyfarfodydd rheolaidd gael eu cynnal rhwng yr athro/athrawes ymgynghorol, y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig a'r athro/athrawes (neu arweinydd y lleoliad Cyfnod Sylfaen). Yn ddelfrydol, dylid gwahodd gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill sy'n ymwneud â gofal y plentyn i drafod gofynion ac anghenion cymorth y plentyn.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r ffyrdd y mae ardaloedd Dechrau'n Deg yn sicrhau bod anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu diwallu:

- mae cymorth ar gyfer pontio i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei gynllunio drwy Banel Cynhwysiant amlasiantaethol lle mae Seicolegydd Addysg Dechrau'n Deg yn bresennol;
- cyflwynir Ffurflen Cymorth Ychwanegol Dechrau'n Deg, wedi'i llofnodi gan yr ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg, i'r darparwr meithrin gyda chaniatâd y rhieni;
- mae ymwelydd iechyd Anghenion Arbennig yn cysylltu â darparwyr gofal plant a'r tîm canolog cyn i blant ag anghenion cymhleth ddechrau ar eu Cyfnod Sylfaen;
- mae athro/athrawes ymgynghorol Dechrau'n Deg ac arweinydd cylch chwarae Dechrau'n Deg yn cyfarfod â'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig a staff eraill yr ysgol/lleoliad yn rheolaidd.

### 7.3 Proffil y Cyfnod Sylfaen

Dull asesu yw Proffil y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 i 7 oed, sy’n golygu bod gan ysgolion a lleoliadau ddull gweithredu cyson sy’n unioni asesiadau ar ddechrau a diwedd y Cyfnod Sylfaen. Daeth y Proffil yn orfodol ym mis Medi 2015 ac mae’n asesu gallu a datblygiad plant yn y pedwar Maes Dysgu. Sef:

- Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywioldeb diwylliannol
- Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- Datblygiad mathemategol
- Datblygiad corfforol.

Y bwriad yw ehangu Proffil y Cyfnod Sylfaen i'w ddefnyddio o fewn Dechrau'n Deg i bennu man cychwyn plant sy'n pontio i ofal plant Dechrau'n Deg ac asesu cynnydd pan maent yn 3 oed. Bydd asesiad Proffil y Cyfnod Sylfaen pan fydd plant yn 3 oed, ynghyd â'r asesiad cynnydd datblygiadol 27 mis, a lle y bo'n briodol asesiad y Rhestr o Sgiliau Tyfu, yn helpu'r broses o bontio o leoliadau Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen.

Mae angen ehangu Proffil y Cyfnod Sylfaen i sicrhau ei fod yn ateb y diben er mwyn ei ddefnyddio gyda phlant dwy oed wrth iddynt fynd i leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg.

### 7.4 Cymorth i rieni

Mae gweithio gyda rhieni yn agwedd bwysig iawn ar sicrhau pontio didrafferth o ofal plant Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen:

*Rhieni/gofalwyr yw'r oedolion mwyaf cyson ym mywyd plentyn. Gallan nhw hwyluso'r broses bontio i'r plentyn, os byddan nhw'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses wrth i'r plentyn symud o'r cartref drwy leoliadau Cyfnod Sylfaen"* (Llywodraeth Cymru, 2008, tudalen 24).

Bydd rhieni'n gallu hysbysu'r staff am unrhyw bryderon fydd gan eu plant ac unrhyw amgylchiadau teuluol a all effeithio ar bontio'n ddidrafferth, fel symud tŷ, babi newydd neu rieni'n gwahanu. Mae'n bwysig gwrando ar rieni, cydnabod eu pryderon a chynnig sicrwydd ynghylch y broses bontio.

Er mwyn helpu i baratoi eu plentyn dylid rhoi'r canlynol i rieni:

- gwybodaeth am ffurflenni derbyn a'r gofynion, gan gynnwys dyddiadau cyflwyno a chymorth i lenwi ffurflenni derbyniadau (ar bapur neu ar-lein) (Gallai staff gofal plant, gweithwyr cymorth i deuluoedd neu staff perthnasol eraill Dechrau'n Deg ddarparu cymorth i lenwi ffurflenni derbyn);
- cyfle i ofyn cwestiynau drwy gydol y broses bontio;
- gwybodaeth am y broses gynefino a'r holl fanylion ymarferol;
- gwybodaeth am eu rôl yn y broses;
- cyfleoedd i ymweld â'r lleoliad Cyfnod Sylfaen a chwrdd â'r staff;
- gwybodaeth am grwpiau iaith a chwarae a rhif a chwarae neu raglenni rhianta fel Rhaglen Parodrwydd i'r Ysgol y Blynyddoedd Rhyfeddol[20] sy'n digwydd yn yr ardal leol;
- gwybodaeth am sefydliadau neu weithgareddau perthnasol cymorth i deuluoedd yn yr ardal.

[20] Mae rhaglen Parodrwydd i'r Ysgol y Blynyddoedd Rhyfeddol wedi ei chynllunio i hyrwyddo parodrwydd plant i'r ysgol drwy ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol allweddol a datblygu sgiliau iaith a darllen.Mae rhieni'n mynychu pedair sesiwn yn ymchwilio i sut y gallant gefnogi chwarae plant fel gweithgaredd dysgu a ffyrdd effeithiol o gyflwyno plant i lyfrau. Mae rhieni'n dysgu drwy drafodaeth, vignettes, chwarae rôl a gweithgareddau gyda'u plant gartref www.centreforearlyinterventionwales.co.uk

Yn ddelfrydol dylai staff Dechrau'n Deg:

- weithio gyda thimau derbyniadau awdurdodau lleol i sicrhau bod rhieni yn cwblhau gwaith papur yn gywir ac mewn da bryd i ddyrannu lleoedd yn briodol.
- bod yn gyfarwydd â ffurflenni a gofynion derbyn y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys dyddiadau cyflwyno.

Dylai staff roi gwybod i rieni bod addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gael i bob rhiant sy'n dymuno hynny i'w plant.[21]

Yn ogystal, gall Dechrau'n Deg a lleoliadau Cyfnod Sylfaen ystyried trefnu teithiau a gweithgareddau ar y cyd i rieni a phlant fel cyngherddau, diwrnodau chwaraeon a digwyddiadau codi arian.

### 7.5 Rôl yr Athro/Athrawes Ymgynghorol/Cynghorydd y Blynyddoedd Cynnar

Er mwyn hwyluso'r pontio rhwng Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen, disgwylir i ddarpariaeth gofal plant mewn lleoliadau Dechrau'n Deg adlewyrchu athroniaeth ac addysgeg tebyg i'r Cyfnod Sylfaen[22]. Dylai Athrawon Ymgynghorol Dechrau'n Deg gynorthwyo i gynnal y ddarpariaeth o ansawdd uchel sy'n ofynnol ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg a gweithio'n agos â lleoliadau gofal plant i gyflawni hyn.

Mae Athrawon Ymgynghorol Dechrau'n Deg yn gweithio'n agos gyda staff gofal plant a lleoliadau Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau pontio didrafferth. Dylai'r Athro/Athrawes Ymgynghorol weithio'n agos gydag ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen a staff gofal plant Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau bod proffil cynhwysfawr yn cael ei sefydlu ar gyfer yr holl blant Dechrau'n Deg sy'n symud ymlaen i'r Cyfnod Sylfaen. *Gall* Athro/Athrawes Ymgynghorol Dechrau'n Deg gymryd rhan flaenllaw yn y canlynol hefyd:

- hwyluso cyfarfodydd pontio a chyfleoedd rhwydweithio gyda staff Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen;
- trefnu ymweliadau ar gyfer rhieni;
- sicrhau bod pob lleoliad yn cwblhau gwaith papur priodol a bod hyn yn cael ei gyflwyno i'r lleoliad sy'n derbyn y plentyn;
- trafod anghenion plant unigol;
- cyd-drafod â staff arbenigol fel Cynghorwyr Anghenion Addysgol Ychwanegol (AAY), Portage a Seicolegwyr Addysg.
- bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf o ran ymarfer a chanllawiau'r Cyfnod Sylfaen er mwyn cynorthwyo'r broses bontio o ofal plant i'r Cyfnod Sylfaen;

[21] Mae gan Mudiad Meithrin wybodaeth am fanteision addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd i blant. http://www.meithrin.co.uk/barn-rhieni-di-gymraeg/

[22] I gael rhagor o wybodaeth gweler "Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Diwygiwyd 2015)". Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 i 7 oed yng Nghymru. http://gov.wales/topics/educationandskills/foundation-phase/?skip=1&lang=cy

- cadw llygad ar unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â lleoliad Cyfnod Sylfaen a allai effeithio ar y garfan Dechrau'n Deg, er enghraifft, argaeledd lleoedd meithrin mewn lleoliadau/ysgolion Cyfnod Sylfaen;
- cadw cysylltiadau â lleoliadau Cyfnod Sylfaen, er enghraifft drwy wirio a yw plant wedi ymgartrefu'n dda ac a oes angen rhagor o wybodaeth amdanynt.

### 7.6 Proffiliau unigol

Rhaid i wybodaeth a drosglwyddir am blant mewn proffil unigol gael ei hystyried yn ofalus er mwyn darparu gwybodaeth i gefnogi dilyniant. Rhaid i unrhyw wybodaeth a rennir barchu materion yn ymwneud â chyfrinachedd a rhannu data. Dylai hyn gynnwys rhai o'r mathau canlynol o wybodaeth neu bob un ohonynt:

- manylion personol y plentyn (e.e. enw a dyddiad geni);
- manylion cyswllt;
- y lleoliad Dechrau'n Deg a fynychwyd ac enw'r arweinydd;
- gwybodaeth a fyddai'n helpu'r lleoliad sy'n derbyn y plentyn e.e. sut yr ymgartrefodd y plentyn yn y lleoliad Dechrau'n Deg, sut yr oedd yn ymgysylltu a'i bresenoldeb;
- canlyniadau yr asesiadau cynnydd datblygiadol a gynhelir pan fydd y plentyn yn 15 mis ac yn 27 mis oed (a lle y bo'n briodol, ganlyniadau'r Rhestr o Sgiliau Tyfu[23]);
- Canlyniadau asesiad Proffil y Cyfnod Sylfaen;
- enw'r ymwelydd iechyd;
- unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a chymorth;
- gwaith papur anghenion addysgol ychwanegol (er enghraifft, adroddiadau gan staff iechyd, therapydd iaith a lleferydd, pediatregydd);
- manylion am asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn;
- sylwadau byr ar gynnydd y plentyn a'i hoff bethau a'i gas bethau;
- ethnigrwydd;
- iaith y cartref.

Dylai'r proffil unigol gael ei gwblhau gan arweinydd y lleoliad gofal plant, gyda mewnbwn gan y gweithiwr allweddol a chefnogaeth yr Athro/Athrawes Ymgynghorol. Dylai'r proffil unigol:

- gael ei rannu gyda rhieni, gan gynnig y cyfle iddynt ychwanegu gwybodaeth y maent yn teimlo sy'n berthnasol. (Rhaid cael caniatâd rhieni i rannu'r wybodaeth hon. Os nad yw'n bosibl cael caniatâd rhieni, a bod gwybodaeth bwysig y dylid ei throsglwyddo, dylid ymgynghori ag ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg y plentyn);
- cael ei drosglwyddo i'r lleoliad Cyfnod Sylfaen cyn diwedd y tymor gan arweinydd y lleoliad neu'r Athro/Athrawes Ymgynghorol. Yn ddelfrydol, dylai'r pecyn gael ei drosglwyddo mewn cyfarfod wyneb-yn-wyneb, sy'n rhoi cyfle i gael trafodaeth am y plentyn, gan fod hyn yn ffordd effeithiol iawn o rannu gwybodaeth.

[23] Efallai na fydd rhai lleoliadau Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r Rhestr o Sgiliau Tyfu a gall fod angen cyngor arnynt ar sut i ddehongli'r canlyniadau.

### 7.7 Cyfarfodydd pontio

Dylid annog cyfleoedd i gwrdd â chydweithwyr ar draws y sectorau a chynnal deialog â nhw er mwyn dod i adnabod plant a defnyddio gwybodaeth drosglwyddo yn effeithiol. Lle y bo'n briodol, bydd y broses bontio yn cael ei hwyluso gan gyfarfodydd rhwng gweithwyr proffesiynol perthnasol gan gynnwys ymwelwyr iechyd, darparwyr gofal plant, athrawon ymgynghorol ac ymwelwyr iechyd anghenion arbennig. Gall y rhain fod ar ffurf cyfarfodydd anffurfiol; cyfarfodydd ffurfiol neu grwpiau cynllunio amlasiantaeth. Mae hwn yn gyfle i drafod y proffil unigol sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer pob plentyn hefyd.

**Astudiaeth Achos 1: Atgyfeirio plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar a threfniadau pontio wedi'u cynllunio'n dda o'r lleoliad gofal plant i'r Cyfnod Sylfaen**

Dechreuodd y gwaith cynllunio cychwynnol ar gyfer Mohammed[24] mewn cyfarfod 'Tîm o Amgylch y Plentyn' a gynhaliwyd gan yr adran iechyd lle yr argymhellodd y Gweithiwr Pontio y byddai atgyfeirio at grŵp amlasiantaeth Dechrau'n Deg yn briodol o ystyried anghenion cymhleth Mohammed. Roedd Mohammed, a oedd yn ddwy oed ar y pryd, ar fin cael ei fabwysiadu gan deulu yn ardal Caerdydd a dechrau mewn lleoliad Dechrau'n Deg.

Y prif bryderon a nodwyd oedd materion yn ymwneud ag ymlyniad a symudedd gan fod ganddo barlys yr ymennydd. Wrth i'w gyfnod yn y lleoliad ddirwyn i ben dechreuodd y gweithiwr pontio y broses o reoli'r cyfnod pontio o'r lleoliad i'r feithrinfa Cyfnod Sylfaen. Cwblhawyd cyfres o ymweliadau cartref gan y gweithiwr pontio i ddod i adnabod y teulu a Mohammed. Ysgrifennwyd cerdyn gwybodaeth fel rhai 'Amdanaf Fi' gyda'r teulu a'i anfon at y lleoliad cyn i Mohammed ddechrau yno. Rhannodd staff y lleoliad y wybodaeth a oedd ganddynt gyda'r feithrinfa.

Yn dilyn cyngor gan y gweithiwr pontio, trefnwyd sawl ymweliad i staff o'r lleoliad gofal plant fynd i'r feithrinfa gyda Mohammed er mwyn iddo ymgyfarwyddo â'r staff a chynllun y lleoliad. Aeth y gweithiwr Allgymorth Codi a Chario gyda'r Gweithiwr Pontio a Mohammed ar eu hail ymweliad i argymell addasiadau y gall fod eu hangen er mwyn i Mohammed allu symud o amgylch y feithrinfa gan ddefnyddio ei declyn cerdded yn rhwydd. Yna aeth y Gweithiwr Pontio gyda Mohammed i'r lleoliad newydd am ei dair sesiwn gyntaf.

Mae Mohammed wedi parhau i wneud cynnydd a ffynnu yn ei leoliad presennol a'r adborth gan ei rieni oedd bod y broses bontio’n hanfodol i'r dechrau didrafferth hwn iddyn nhw ac i Mohammed.

**Astudiaeth Achos 2: Mynediad graddol i'r Cyfnod Sylfaen**

Ceir system mynediad graddol ar gyfer pob plentyn sy'n trosglwyddo o leoliadau Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r plant yn dechrau drwy fynychu'r lleoliadau Cyfnod Sylfaen am gyfnodau byr o amser, sydd wedyn yn cael eu hymestyn yn raddol nes eu bod yn mynychu am y cyfnod statudol, sef lle Cyfnod Sylfaen rhan-

[24] Mae'r enwau yn yr astudiaethau achos wedi cael eu newid i ddiogelu hunaniaeth.

amser am ddim (lleiafswm o 10 awr yr wythnos). Cytunir ar yr amser y maent yn ei dreulio yn y lleoliadau yn ystod yr ychydig ymweliadau cyntaf yn dilyn trafodaethau rhwng y rhieni, staff Dechrau'n Deg, staff y Cyfnod Sylfaen a gweithiwr allweddol pob plentyn.

Er ei fod yn cymryd peth amser i'r plant gymysgu a chwarae â’r plant hŷn, mae'r adborth gan rieni yn awgrymu eu bod yn fodlon iawn ar y system hon. Roeddent yn dweud bod eu plant yn edrych ymlaen at ddechrau yn y lleoliad Cyfnod Sylfaen gan eu bod eisoes yn adnabod y staff ac yn gyfarwydd â chynllun yr ystafell.

Effaith y strategaeth:

- mae'r lleoliadau Dechrau'n Deg a'r lleoliad Cyfnod Sylfaen yn gweithio'n agos â'i gilydd ac yn rhannu arbenigedd yn ogystal ag offer ac adnoddau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth;
- mae'r strategaeth yn caniatáu ar gyfer pontio di-dor o un math o leoliad i un arall;
- mae'r plant yn fodlon wrth symud i'r Cyfnod Sylfaen ac yn cael ymdeimlad o berthyn yn fuan iawn oherwydd yr ymweliadau blaenorol;
- mae'n caniatáu i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen arsylwi ar y plant yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, sy'n eu helpu i baratoi'n briodol ar eu cyfer pan fyddant yn trosglwyddo;
- mae'n annog lleoliadau ac ysgolion i weithio gyda'i gilydd er lles y plant a'u rhieni/gofalwyr;
- mae'n helpu rhieni/gofalwyr i ddod i adnabod y staff yn y lleoliad Dechrau'n Deg a'r lleoliad Cyfnod Sylfaen yn gynnar iawn ac maent yn cael eu hannog i drafod anghenion eu plant gyda nhw;
- mae rhieni'n fwy hyderus ynglŷn â thrafod eu plant gyda'r ymarferwyr;
- mae'r adborth a gafwyd gan y lleoliad Cyfnod Sylfaen yn gadarnhaol gan fod y staff yn ymwybodol o anghenion y plant cyn iddynt ddechrau ac mae ganddynt fan cychwyn clir ar eu cyfer.

**Astudiaeth Achos 3: Lleoliadau ar yr un safle**

Mae lleoliad Dechrau'n Deg ar yr un safle ag ysgol gynradd leol, ynghyd â'r ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen. Mae gan y lleoliad ei ystafell ei hun ond mae'n rhannu'r fynedfa a thoiled gyda'r dosbarth Cyfnod Sylfaen.

Er mwyn sicrhau pontio didrafferth o un lleoliad i un arall, penderfynodd staff y ddau leoliad gydweithio'n agos i baratoi'r garfan o blant i'w trosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen.

Dechreuodd plant o'r lleoliad Dechrau'n Deg ymuno â'r grŵp hŷn ar gyfer gweithgareddau megis canu, amser stori ac amser cylch a chawsant eu gwahodd i gyngherddau a digwyddiadau eraill.

Roeddent hefyd yn dechrau rhannu amseroedd chwarae er mwyn i'r plant iau ddod yn gyfarwydd â chwarae y tu allan gyda'u cyd-ddisgyblion hŷn. O bryd i'w gilydd, roedd yr arweinwyr hefyd yn cyfnewid grwpiau fel bod y plant iau yn dod i adnabod staff y lleoliad Cyfnod Sylfaen.

Gwahoddwyd rhieni a phlant y lleoliad Dechrau'n Deg hefyd i'r dosbarth Cyfnod Sylfaen i ymgyfarwyddo â'r amgylchedd ac i ofyn cwestiynau ac i siarad am ddatblygiad ac anghenion eu plant.

Wrth ddechrau ar y Cyfnod Sylfaen, roedd y plant newydd yn ymgartrefu'n dda ac roedd y rhan fwyaf yn hapus i gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni o'r diwrnod cyntaf.

## 8. Pontio o ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg i nyrs ysgol

**Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod plant sydd newydd gael eu pen-blwydd yn bedair oed yn aml yn parhau i fod yn 'gyfrifoldeb' yr ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg nes iddynt gael eu trosglwyddo i ofal y nyrs ysgol pan fyddant yn bump oed (neu'n aml pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol yn y mis Medi). Er ei bod yn dderbyniol gwneud hynny, nid yw'n un o ofynion y rhaglen ac ni ddylai unrhyw blentyn pedair neu bump oed sy'n cael ei gadw gael ei ystyried gan yr awdurdod lleol wrth asesu llwyth achosion ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg.**

Mae'r berthynas agos rhwng ymwelwyr iechyd a'r nyrs ysgol o ran darparu cymorth i deuluoedd yn cael ei chydnabod yn y 'Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru' (Llywodraeth Cymru, 2009). Bydd nyrsys ysgol yn 'parhau i weithio'n agos gydag ymwelwyr iechyd gan ddarparu gwasanaeth parhaus i blant a phobl ifanc o'u geni hyd nes eu bod yn oedolion.' Mae'n ofynnol iddynt weithio mewn partneriaeth gydag ymwelydd iechyd, 'galluogi plant i drosglwyddo i leoliadau ysgol gan nodi'r teuluoedd hynny y gall fod ganddynt anghenion ychwanegol yn y broses hon a gweithio gyda hwy, o fewn ymateb amlddisgyblaethol pan fo'n briodol.'

Mae gwahanol drefniadau lleol ('protocolau trosglwyddo gofal') ar waith ynghylch trosglwyddo gwybodaeth am iechyd oddi wrth ymwelwyr iechyd i'r nyrs ysgol. Yn gyffredinol mae cyfrifoldeb, ac fel y bo'n briodol/angenrheidiol, cofnod iechyd y plentyn yn trosglwyddo o ymwelwyr iechyd i'r nyrs ysgol ym mis Medi pan fydd y plentyn yn dechrau addysg lawn amser neu pan fydd yn cyrraedd 5 oed.

Mae gwahaniaeth mewn amseru rhwng elfen ymwelwyr iechyd y rhaglen Dechrau'n Deg a gwasanaethau ymwelwyr iechyd generig. Cydnabyddir bod trosglwyddo plant i'r tîm ymwelwyr iechyd generig, ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bedair oed (pan fydd gweithgaredd Dechrau'n Deg yn dod i ben), yna i'r nyrs ysgol ychydig fisoedd yn ddiweddarach, yn llafurus, yn cyfaddawdu parhad ac nid yw er budd gorau'r plentyn na'r teulu.

Yn gyffredinol, mae'r ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg wedi cwblhau llawer o'i swyddogaethau craidd; megis gwiriadau datblygiadol allweddol, asesiadau a chymorth ataliol cynnar erbyn i'r plentyn gael ei ben-blwydd yn bedair oed. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd plant sydd newydd gael eu pen-blwydd yn bedair oed yn parhau i fod yn 'gyfrifoldeb' yr ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg nes iddynt gael eu trosglwyddo i ofal y nyrs ysgol pan fyddant yn bump oed (neu'n aml pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol yn y mis Medi). Nid yw'r plant yn cael eu cyfrif o fewn y llwythi

achosion at ddibenion monitro ac yn gyffredinol ni fydd angen mewnbwn sylweddol gan yr ymwelydd iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod plant 4-5 oed sydd wedi cael cymorth gan y rhaglen Dechrau'n Deg o'r blaen yn cael eu cadw gan ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg ar eu baich achosion, yn hytrach na chael eu trosglwyddo i wasanaethau ymwelwyr iechyd generig. Er ei bod yn dderbyniol gwneud hynny, nid yw'n un o ofynion y rhaglen ac ni ddylai unrhyw blant pedair neu bump oed sy'n cael eu cadw gael eu hystyried gan yr awdurdod lleol wrth asesu llwyth achosion ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg.

Bydd unrhyw blentyn a'i deulu yr ystyrir bod ganddynt 'anghenion sylweddol'; neu lle ceir anghenion iechyd ychwanegol neu bryderon diogelu lle mae angen gofal iechyd dwys gan ymwelwyr iechyd, ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bedair oed yn parhau i gael cymorth gan yr ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg. Gyda phlant lle mae pryderon am ddiogelu, bydd y cyfathrebu'n parhau rhwng asiantaethau a bydd y cysylltiadau rhwng gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r teulu yn cael eu cynnal.

**Trosglwyddo cofnodion**

Dylai ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg asesu pa blant o fewn eu llwyth achosion y mae angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt pan gaiff cyfrifoldeb, ac os yw'n briodol/angenrheidiol, gofnodion iechyd y plentyn eu trosglwyddo (e.e. pan fo materion diogelu neu blant sydd ag anghenion iechyd cymhleth neu ychwanegol). Mae trefniadau amrywiol ar waith mewn gwahanol feysydd ar gyfer trosglwyddo cofnodion iechyd y plant hyn. Yn unol â pholisïau’r Bwrdd Iechyd Lleol, dylai'r ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg sicrhau bod nyrs yr ysgol ac asiantaethau perthnasol/gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn ymwybodol o unrhyw blant sy'n agored i niwed pan fydd eu cofnodion iechyd yn cael eu hanfon ymlaen.

**Rhaglen Plentyn Iach Cymru (PIC)**

Un o argymhellion allweddol y Weledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (Llywodraeth Cymru, 2013c) oedd datblygu dull safonedig yn seiliedig ar dystiolaeth o hybu iechyd plant a chynnal gwiriadau datblygiadol ar draws Cymru. Bydd y rhaglen PIC yn adlewyrchu dull systematig, Cymru gyfan yn seiliedig ar dystiolaeth o arolygu a sgrinio iechyd plant a fydd yn anelu at wella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldebau ledled Cymru. Mae'r rhaglen bellach yn cael ei rhoi ar waith i ddarparu gwasanaeth craidd cyffredinol i hybu iechyd a lles ar gyfer pob plentyn ym mhob ardal Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys sgrinio, imiwneiddio, adolygiadau iechyd a datblygiad wedi'u hategu gan gyngor ynghylch iechyd, diogelu, lles a rhianta.

Elfen allweddol o'r Rhaglen PIC fydd egluro a safoni rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd ar gyfnodau pontio, yn enwedig rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol (Meddygon Teulu, Bydwragedd, Ymwelwyr Iechyd a Nyrsys Ysgol) a Gwasanaethau Dechrau'n Deg. Bydd systemau gwybodaeth, gan gynnwys y cofnod iechyd plant electronig sy'n cael ei ddatblygu drwy'r system CYPRIS, a'r Llyfr Coch sydd ar waith ledled Cymru, yn cefnogi anghenion

gwybodaeth y plentyn a'r teulu, y Rhaglen a Dechrau'n Deg, yn ogystal â galluogi data i gael eu rhannu rhwng gweithwyr proffesiynol a asiantaethau.

## 9. Pontio o Dechrau'n Deg a chyfeirio pobl at gymorth arall

**Dylai ymarferwyr Dechrau'n Deg gydweithio a chyfathrebu â'i gilydd a chydag asiantaethau allanol i ddarparu gwasanaeth cyfannol a di-dor i ddiwallu anghenion teuluoedd a sicrhau dilyniant i gymorth parhaus, pan ddaw cymhwystra ben.**

Disgrifiodd rhieni a gyfwelwyd fel rhan o'r Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2013a) brofiadau gwahanol o gael eu cyfeirio at asiantaethau allanol. Mewn rhai achosion, roedd cyfleoedd cyfeirio wedi cael eu colli a oedd yn golygu nad oedd rhieni wedi manteisio ar nifer o wasanaethau.

Canfu’r gwerthusiad (Llywodraeth Cymru, 2013a; 2013b) hefyd fod ymgysylltu effeithiol â gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi arwain at asesu anghenion teuluoedd yn well ac yn gyflymach, nodi problemau'n gynnar ac atgyfeirio mwy effeithiol at gymorth arall fel gwasanaethau iechyd arbenigol, tai, cymorth gyda budd-daliadau, cyflogaeth a chymorth hyfforddiant.

Gall y cyfeirio hwn ddigwydd tra bydd teuluoedd yn rhan o'r gwasanaeth Dechrau'n Deg ac hefyd fel dilyniant pan fydd cymhwystra yn dod i ben. Pan fydd cymhwystra ar gyfer Dechrau'n Deg yn dod i ben dylai teuluoedd gael eu cyfeirio at gymorth parhaus, dysgu, gwirfoddoli neu gyfleoedd cyflogaeth neu wasanaethau a gweithgareddau eraill yn yr ardal. Dylai Dechrau'n Deg gysylltu â Teuluoedd yn Gyntaf, y Rhaglen Cefnogi Pobl, y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a gwasanaethau cymorth eraill i deuluoedd a ddarperir gan yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol a chan y Trydydd Sector ar lefel leol, i gynorthwyo teuluoedd i gael mynediad i wasanaethau a darparu ymateb mwy integredig i ddiwallu eu hanghenion.

Dylai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd gael darlun cyfoes o wasanaethau yn eu hardal leol a ddylai fod yn fan cyswllt cyntaf ar gyfer gwybodaeth am wasanaethau i deuluoedd. Dylai staff perthnasol gael eu hysbysu o'r gwasanaethau sydd ar gael wrth gyfeirio teuluoedd, gan gynnwys gwybodaeth am sut y maent yn gweithredu, yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig a llwybrau a meini prawf ar gyfer atgyfeirio. Gall fod yn ddefnyddiol rhoi dalen neu ddwy o wybodaeth i'r staff am brosiectau a gwasanaethau perthnasol.

Dylid sicrhau caniatâd y teulu cyn atgyfeirio. Dylid esbonio’r rhesymau dros yr atgyfeirio a'r broses atgyfeirio a dylid cael caniatâd y teulu. Gyda rhai prosiectau a gwasanaethau gall fod yn bosibl i deuluoedd hunangyfeirio.

Gellir gwella trefniadau pontio cyson rhwng Dechrau'n Deg a gwasanaethau eraill drwy:

- fod yn ymwybodol o'r cysylltiadau allweddol mewn asiantaethau perthnasol;
- datblygu cysylltiadau partneriaeth effeithiol gydag asiantaethau perthnasol ac o fewn y gymuned;

- bod yn wybodus ac yn hyddysg am rolau a swyddogaethau gweithwyr proffesiynol eraill;
- cael ffurflenni atgyfeirio safonol y bydd gweithwyr proffesiynol yn eu llenwi gyda'r teulu wrth atgyfeirio at wasanaeth arall;
- sicrhau llwybrau cyfeirio clir;
- cynnal cyfarfodydd pontio a chyfarfodydd amlasiantaeth eraill a setiau dysgu rhwng gweithwyr proffesiynol perthnasol;
- cydleoli gwasanaethau a staff;
- darparu hyfforddiant ar draws rhaglenni gwahanol a rhaglenni cynefino i'r staff;
- rhannu cyfleusterau, adnoddau a phersonél ar draws ardal yr awdurdod lleol;
- cyd-ddarpariaeth (er enghraifft staff Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn cyd-hwyluso rhaglenni rhianta);
- systemau gwybodaeth a chadw cofnodion a phrotocolau rhannu gwybodaeth cyffredin.

### 9.1 Diogelu

Dylid dilyn Canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant bob amser a dylai holl ymarferwyr Dechrau'n Deg allu adnabod materion diogelu a gwybod pryd i'w hatgyfeirio ac at bwy. Mae Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 yn amlinellu sut y dylai pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i hybu lles plant a'u hamddiffyn rhag niwed. Caiff gwybodaeth ei chynnwys hefyd yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a ddylai hefyd fod yn bwynt cyfeirio pwysig.

### 9.2 Rhaglenni allweddol eraill Llywodraeth Cymru

#### Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyngor a gwybodaeth am wasanaethau lleol i deuluoedd a gofalwyr. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i'w cael ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Maent yn cynnig help a chymorth am ddim i unrhyw un sy'n magu plant. Gallant roi rhieni mewn cysylltiad ag arbenigwyr a fydd yn rhoi cyngor cyfeillgar ar ystod o bynciau a materion, megis gofal plant, gofal iechyd, cyngor ar hyfforddiant, gwasanaethau hamdden ac ati.

http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/familyinformationservices/?skip=1&lang=cy

#### Teuluoedd yn Gyntaf

Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n pwysleisio atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella'r ffordd y caiff y gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu darparu i deuluoedd eu cynllunio a'u gwella. Yn benodol, mae'n anelu at wella profiadau teuluoedd drwy gynnig cymorth sy'n diwallu anghenion teuluoedd cyfan, yn hytrach nag unigolion o fewn teuluoedd, a thrwy ddarparu dull o gydgysylltu'r cymorth a gaiff teuluoedd gan wahanol asiantaethau.

***Atgyfeirio:*** Gall teuluoedd gael eu hatgyfeirio neu eu cyfeirio at un o'r prosiectau neu'r gwasanaethau a ariennir drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (fel y bo'n briodol). Gall hefyd fod yn briodol atgyfeirio teuluoedd a chanddynt anghenion mwy cymhleth i'r Tîm o Amgylch y Teulu sy'n goruchwylio ac yn cydgysylltu'r ymyriadau a gaiff teuluoedd.

http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/families-first/?skip=1&lang=cy

**Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd**

Mae gwaith y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael ei ddisgrifio'n fanwl ym Mesur i Deuluoedd (Cymru) 2010 a rheoliadau cysylltiedig. Mae'r Gwasanaethau Integredig wedi bod ar gael ledled Cymru ers 2014.

Gall awdurdod lleol atgyfeirio teulu at dîm integredig cymorth i deuluoedd lle mae camddefnyddio sylweddau yn brif bryder. Gallai plant mewn teuluoedd sy'n profi anawsterau o'r fath fod mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal neu gael eu henwau wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Gall teuluoedd lle mae camddefnyddio sylweddau wedi arwain at eu hatgyfeirio at y tîm integredig cymorth i deuluoedd hefyd fod â ffactorau eraill sy'n destun pryder, fel cam-drin yn y cartref neu faterion iechyd meddwl. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd timau integredig cymorth i deuluoedd yn mynd i'r afael â'r materion eraill hyn hefyd. Mae'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i wneud newidiadau cadarnhaol, er mwyn lleihau unrhyw bryderon a galluogi plant i aros yn ddiogel yn eu cartrefi.

Mae Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn darparu cymorth wedi'i dargedu ac yn helpu i gysylltu gwasanaethau plant ac oedolion, gan ganolbwyntio ar y teulu fel uned.

***Atgyfeirio:*** Dim ond drwy wasanaeth plant yr awdurdod lleol yn dilyn asesiad o dan y Fframwaith Asesu y gall teuluoedd gael eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

http://wales.gov.uk/topics/health/socialcare/working/ifst/?lang=cy

**Y Rhaglen Cefnogi Pobl**

Lansiwyd y Rhaglen Cefnogi Pobl ar draws y DU yn 2003 ac mae'n helpu pobl sy'n agored i niwed i sicrhau a chadw eu hannibyniaeth drwy aros yn eu cartrefi eu hunain a thrwy ddarparu ystod o wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

Mae'r rhaglen yn cynorthwyo mwy na 70,000 o bobl bob blwyddyn i fyw mor annibynnol ag y gallant. Ei nod yw atal problemau drwy ddarparu cymorth mor gynnar â phosibl. Mae'n cynorthwyo teuluoedd sy'n ffoi rhag trais domestig, teuluoedd, pobl hŷn, pobl mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n goresgyn cyfnod o ddigartrefedd yn ogystal â phobl ag anghenion iechyd meddwl, anghenion camddefnyddio sylweddau neu anableddau dysgu.

***Atgyfeirio:*** Gall teuluoedd hunan-gyfeirio os ydynt yn gwybod am y rhaglen a'r prosiectau amrywiol a ariennir drwyddi. Ceir tîm Cefnogi Pobl yn ardal pob awdurdod lleol.

http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/?lang=cy

### 9.3 Ffynonellau eraill o gyngor a gwybodaeth

Cyngor a gwybodaeth am gyflogaeth, tai, dyledion, budd-daliadau a materion cyfreithiol ac ariannol eraill

Mae **Gyrfa Cymru** yn darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd annibynnol a diduedd am yrfaoedd i bobl ifanc ac oedolion: wyneb yn wyneb; dros y ffôn; ac ar lein
Ffôn: 0800 028 4844
http://www.careerswales.com/en/contact-us/contact-us/ (Saesneg)
http://www.careerswales.com/cy/cysylltu-a-ni/cysylltu-a-ni/ (Cymraeg)

**Canolfan Byd Gwaith** am wybodaeth ynglŷn â dod o hyd i swydd neu wneud cais am fudd-daliadau. Mae'r wefan yn cynnwys cyfrifiannell budd-daliadau. Rhif ffôn: 0345 606 0234, Ffôn testun: 0345 605 5255, Gwasanaeth Cymraeg: 0845 8734 900 (9am i 5pm ddydd Llun i ddydd Gwener).
https://www.gov.uk/contact-jobcentre-plus

Mae **Canolfannau Cyngor ar Bopeth** yn cynnig cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol am ddim o dros 3,500 o leoliadau. Gellir rhoi cyngor wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn. Gall y rhan fwyaf o ganolfannau drefnu ymweliadau cartref ac mae rhai hefyd yn darparu cyngor dros yr e-bost. Mae nifer gynyddol yn treialu defnyddio negeseuon testun, sgwrsio ar-lein a gwe-gamerâu.

http://www.adviceguide.org.uk/wales/about_this_site/get_advice.htm

Mae **Money made clear Wales** yn darparu gwybodaeth am y cyngor a'r arweiniad sydd ar gael i bobl sy'n byw yng Nghymru, yn ogystal â gwybodaeth am fudd-daliadau, benthyciadau, credyd fforddiadwy a chynilion.

https://egluroarian.cymru/

Mae **Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru** (A ariennir gan y Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol) yn gweithredu llinell gymorth 24 awr ar: 0300 123 3311 neu e-bostiwch E-bost: imlu@cardiff.gov.uk

Mae'r **Gwasanaeth Cynghori Ariannol** yn helpu pobl i reoli eu harian drwy wasanaeth cynghori diduedd am ddim. Mae'n wasanaeth annibynnol, a sefydlwyd gan lywodraeth y DU. Mae'r wefan yn rhoi cyngor ar ddyledion a benthyca, budd-daliadau, cyllidebu a rheoli arian ac ati. Ceir hefyd ganllawiau am ddim wedi'u hargraffu sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor clir a diduedd, y gellir eu lawrlwytho.

https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/static/about-us (Saesneg)
https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy/corporate/amdanom-ni (Cymraeg)

Mae **Undebau Credyd Cymru** yn darparu gwybodaeth am undebau credyd, gan gynnwys lle maent ar gael. Ffoniwch y llinell wybodaeth ar 0845 872 3467 i ddod o hyd i'ch undeb credyd lleol neu ewch i'r wefan:
http://creditunionsofwales.co.uk/en/find-my-credit-union.html (English)
http://creditunionsofwales.co.uk/cy/fy-undeb-credyd.html (Cymraeg)

Mae **Shelter Cymru** yn darparu cyngor a gwybodaeth ar ystod o faterion yn ymwneud â thai, digartrefedd, troi allan a dyled. Mae eu gweithwyr achos cyfraith tai yn cynnal cymorthfeydd ar hyd a lled Cymru. https://sheltercymru.org.uk/cy/

Llinell gymorth: 0845 075 5005

Cyngor ar Gyffuriau ac Alcohol

Mae **DAN 24/7** (gwefan annibynnol ddwyieithog a ariennir gan Lywodraeth Cymru) yn darparu gwybodaeth gyfrinachol, cywir a chyfoes am y gwahanol fathau o gyffuriau a ffynonellau cymorth a chefnogaeth. Mae ganddo hefyd nifer o daflenni a fydd yn cael eu hanfon allan, yn rhad ac am ddim, i unrhyw un sy'n byw yng Nghymru. Mae'r Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol am ddim ar agor 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ac mae'n cael ei rhedeg gan weithredwyr sydd wedi'u hyfforddi'n llawn. Rhadffon: 0808 808 2234 neu anfonwch neges destun at DAN i: 81066
http://dan247.org.uk/ (Saesneg)
http://dan247.org.uk/Default_Wales.asp (Cymraeg)

Mae **Adfam** yn darparu cymorth a chyngor i deuluoedd yr effeithir arnynt gan gyffuriau ac alcohol
http://www.adfam.org.uk/families

Cyngor a Gwybodaeth am Ies emosiynol

**Llinell Gymorth C.A.L.L.** 0800 132 737 (gwasanaeth 24 awr) - Llinell Wrando a Chymorth Cymunedol - Llinell Gymorth Iechyd Meddwl i Gymru (neu tecstiwch 'help' i 81066)

**Y Samariaid** ar 08457 90 90 90 (gwasanaeth 24 awr), E-bost jo@samaritans.org
http://www.samaritans.org/

Cyngor ar Berthnasoedd

Mae **One Plus One - Couple Connections** yn wefan lle y gall rhieni gael gwybodaeth am sut i reoli eu perthynas yn effeithiol. Mae'r wefan wedi'i chynllunio i helpu cyplau i oresgyn y newidiadau yn eu perthynas gyda'i gilydd drwy ddefnyddio offer hunan-asesiad offer, blogiau a fforymau.
http://thecoupleconnection.net/

Mae **The Listening Room** yn wasanaeth sgwrsio byw sydd hefyd yn cael ei ddarparu gan One Plus One, sy'n cynnig cymorth un-i-un i unrhyw un sydd angen siarad am bryderon a allai fod ganddynt am eu perthynas. Mae gan y gwasanaeth dîm o 'gynorthwywyr' sy'n gwnselwyr hyfforddedig wrth law i wrando a gweithredu fel

seinfwrdd a helpu pobl i ddod o hyd i atebion i'w problemau perthynas eu hunain. Nid yw'n wasanaeth cwnsela nac yn wasanaeth cyfryngu.
http://thecoupleconnection.net/pages/thelisteningroom-whatisthis

Tudalennau gwe yw **Splitting Up? Put Kids First** a ddarperir gan One Plus One sydd â'r nod o helpu rhieni i wneud trefniadau ar gyfer eu plant mor gynnar ag y bo modd os byddant yn gwahanu.
www.splittingup-putkidsfirst.org.uk

Mae **Relate** hefyd yn cynnig cyngor, gwasanaeth cwnsela ar berthnasoedd, therapi rhyw, gweithdai, cyfryngu, ymgynghoriadau a chymorth wyneb-yn-wyneb dros y ffôn a thrwy ei wefan. https://www.relate.org.uk/

Cam-drin yn y Cartref

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu **Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan** sy'n darparu gwasanaeth 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r llinell gymorth yn rhoi cyngor a chymorth i ddioddefwyr a gweithwyr proffesiynol ar bob maes o gamdriniaeth. Gellir cysylltu â'r llinell gymorth ar 0808 80 10 800 neu
http://livefearfree.gov.wales/?skip=1&lang=cy

Hefyd, ceir ffynonellau o gymorth allanol y gellir cael mynediad iddynt ar gyfer y rhai sy'n cam-drin yn y cartref. Gellir cysylltu â **Respect**, y gwasanaeth cymorth ar gyfer rhai sy'n cam-drin yn y cartref, ar 0808 8024040 neu ar http://respect.uk.net/

Mae **Cymorth i Fenywod** yn elusen genedlaethol trais yn y cartref. Manylion cyswllt: Ffôn: 08082000 247 neu Ffôn: 0117 944 44 11 (ymholiadau cyffredinol yn unig) E-bost: helpline@womensaid.org.uk, https://www.womensaid.org.uk/about-us/contact/

http://www.womensaid.org.uk/landing_page.asp?section=000100010018&sectionTitle=Contact+Us

Mae **BAWSO** yn darparu llety a chymorth diogel i fenywod a phlant Duon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn y cartref neu sy'n cael eu cam-drin yn y cartref. Manylion cyswllt: Ffôn: 029 20644 633; Llinell gymorth 24 awr: 08007318147; Ebost: Info@bawso.org.uk; http://www.bawso.org.uk/contact-us/

Cyngor i deuluoedd carcharorion

**Children of Prisoners – maintaining family ties**
Mae'r canllaw hwn, a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth, yn darparu gwybodaeth am adnoddau ac ymchwil i unrhyw un sy'n gweithio yn anuniongyrchol neu'n uniongyrchol gyda theuluoedd sydd â rhiant yn y carchar.
http://www.scie.org.uk/publications/guides/guide22/

Cyfeiriadur chwiliadwy o wybodaeth yw **Information Hub on Offenders' families with children for Professionals (i-HOP)**, sy'n cael ei redeg gan Barnardos mewn partneriaeth â POPS (Grŵp Cymorth Partneriaid Carcharorion a Theuluoedd). Mae'n darparu gwybodaeth am adnoddau, ymchwil, polisïau, manylion gwasanaeth cymorth, enghreifftiau o ymarfer a rhaglenni hyfforddi i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd troseddwyr, gan gynnwys staff rheng flaen, rheolwyr strategol a chomisiynwyr.
http://www.i-hop.org.uk/

**What shall I tell the children?**
Mae'r llyfryn hwn, a gynhyrchwyd gan Ymddiriedolaeth Plant a Theuluoedd Ormiston, yn rhoi cyngor ar sut i roi gwybod i blant pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar.
http://www.prisonersabroad.org.uk/uploads/documents/children/What-shall-I-tell-the-children-re-branded.pdf

**Llinell Gymorth Grŵp Cymorth Partneriaid Carcharorion a Theuluoedd (POPS):**
Llinell Gymorth i Deuluoedd Troseddwyr: 0808 808 2003 (Llinell ar agor: yn ystod yr wythnos 9am - 8pm a phenwythnosau 10am - 3pm)
http://www.partnersofprisoners.co.uk/

Mae **Gwefan y Gwasanaeth Carchardai** yn cynnwys gwybodaeth am gadw mewn cysylltiad â rhywun yn y carchar; ymweld â rhywun yn y carchar a chael cymorth gyda chostau teithio i'r carchar.
https://www.gov.uk/staying-in-touch-with-someone-in-prison/visiting-someone-in-prison

Mae **Action for Prisoners' Families** yn cyhoeddi amrywiaeth o lyfrau, llyfrynnau a DVDs sy'n cwmpasu materion allweddol a wynebir gan deuluoedd carcharorion. Mae adnoddau ar gael ar gyfer teuluoedd eu hunain ac ar gyfer ymarferwyr.

http://www.familylives.org.uk/about/our-services/action-for-prisoners-and-offenders-families/

Mae **Prisoners Advice and Care Trust (PACT)** yn darparu gwybodaeth a chyngor i deuluoedd yr effeithir arnynt gan y carchar, gan gynnwys gwybodaeth am ymweld â theulu yn y carchar, gofal carennydd, ymchwil a chysylltiadau â sefydliadau ac adnoddau.
http://www.prisonadvice.org.uk/

**Astudiaeth Achos: Helpu teuluoedd ag anghenion sylweddol iawn drwy atgyfeiriadau**[25]

Mae Vanessa[26] yn rhiant unigol a chanddi bump o blant, gan gynnwys gefeilliaid dyflwydd oed. Gadawodd ei phartner pan oedd hi'n feichiog gan ei fod yn ei cham-drin yn y cartref. Mae gan Vanessa spina bifida felly mae hi'n aml mewn llawer o boen, mae ganddi broblemau symudedd ac erbyn hyn mae ganddi syst ar ei hasgwrn cefn o ganlyniad i'w beichiogrwydd diwethaf ac mae hi'n aros am lawdriniaeth.

Mae Vanessa wedi cael llawer iawn o gymorth gan wasanaethau Dechrau'n Deg, gan gynnwys ymweliadau cyson gan yr ymwelydd iechyd, sesiynau Iaith a Chwarae a sesiynau Tylino Babanod yn y cartref. Mae hyn wedi bod o gymorth mawr iddi, ond mae anghenion Vanessa mor sylweddol nes bod angen nifer o atgyfeiriadau at wasanaethau eraill arni, ac mae pob un ohonynt wedi gwella ansawdd bywyd y teulu yn sylweddol.

Yr atgyfeiriad cyntaf a gafodd Vanessa oedd cwrs Cymorth i Fenywod sy'n addysgu menywod am drais a'i wahanol ffurfiau ac a roddodd wasanaeth cwnsela i'r plant hŷn a oedd wedi gweld y trais. Cafodd hefyd ei hatgyfeirio at gwrs rhianta arbennig wyth wythnos o hyd ar ymddygiad plant yn eu harddegau, a gynhaliwyd gan Gweithredu dros Blant. Dechreuodd ei mab 12 oed ddefnyddio trais tuag ati ac roedd hi'n ofni bod hynny'n deillio o gael ei fagu yn yr un amgylchedd â'i chyn bartner a gofynnodd i'r ymwelydd iechyd am gyngor. Cafodd ei hatgyfeirio'n gyflym ac ymunodd â'r cwrs o fewn wythnos i drafod y mater â'i hymwelydd iechyd.

Mae Dechrau'n Deg wedi helpu i ddiwallu anghenion tai Vanessa hefyd. Roedd ei thŷ cyngor blaenorol i fyny rhiw serth ac roedd yn anodd cerdded ato gyda chadair wthio o ystyried ei phroblemau symudedd. Gwnaeth gais i symud ond fe'i rhoddwyd ar waelod y rhestr aros am dai cyngor. Roedd ei hymwelydd iechyd wedi'i synnu wrth hyn ac ysgrifennodd at y cyngor yn esbonio cymaint yr oedd y rhiw yn effeithio ar ei hiechyd. O ganlyniad cafodd Vanessa ei symud i frig y rhestr a symudodd yn fuan wedyn.

Fel mam sengl yn byw ar fudd-daliadau, roedd Vanessa yn pryderu'n fawr sut roedd yn mynd i allu prynu popeth yr oedd ei angen arni ar gyfer yr efeilliaid a gwaethygodd hyn yn sgil y ffaith iddi golli'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn. Yn dilyn hynny rhoddodd ymwelydd iechyd Vanessa wybodaeth iddi am gronfa elusennol a drefnodd i'r ymwelydd iechyd a Chymorth i Fenywod brynu cadeiriau uchel a chot teithio ar ei chyfer.

Yn ogystal â'r uchod, mae Dechrau'n Deg wedi helpu Vanessa i gynllunio ar gyfer ei dyfodol. Aeth ei hymwelydd iechyd â hi i goleg i gofrestru ar gyfer cwrs cyfrifiadurol ac mae wedi ei rhoi mewn cysylltiad â'r Ganolfan Waith oherwydd ei bod yn awyddus i gael swydd. Ar ôl i Vanessa gael yr efeilliaid gafodd ei hatgyfeirio i'r elusen Home Start er mwyn iddi gael rhywfaint o gwmni i helpu gyda'i hiselder a thasgau o amgylch y cartref. Roedd ei gweithiwr Home Start wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, gan ei helpu i sicrhau tro ar fyd a dod i delerau â'i pherthynas gyda'i

[25] Dyfynnwyd yn 'Flying start qualitative research with high need families' Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 64/2013

[26] Mae'r enwau yn yr astudiaethau achos wedi cael eu newid i ddiogelu hunaniaeth.

chyn-bartner. Pan gafodd ei hatgyfeirio gyntaf nid oedd ganddi 'ddim rheswm i fyw' ond mae bellach yn aros i ymuno â chynllun hyfforddi i fod yn weithiwr Home Start ei hun fel y gall helpu menywod eraill sydd wedi dioddef trais yn y cartref. Cyn gynted ag y soniodd yr ymwelydd iechyd am hynny cysylltodd rywun o Home Start â hi ar unwaith.

**Llyfryddiaeth**


Bailey, D. (2003) “Multicultural resources: On reflection", Nursery World, Mawrth 2003

Barrett, H. (2003) "Parenting Programmes for Families at risk" Llundain: Sefydliad Cenedlaethol Teuluoedd a Magu Plant

Brown, E., Khan, L. a Pasronage M. (2012) "A chance to change: Delivering effective parenting programmes to transform lives” Y Ganolfan Iechyd Meddwl

Bwrdeistref Barnet Llundain, "First Steps: Early Years transition toolkit” https://www.barnet.gov.uk/dam/jcr:ca0754c6-9927-47b1-8154-2c51ab638554/first-steps-booklet---early-years-transition-from-home-toolkit.pdf

Cyngor Kirklees (2013) “Kirklees guidance for transitions in the Early Years” http://www.fixby.org/kgfl/primary/fixbypri/web/early-years-transition-guidance-booklet-2013.pdf

Cyngor Sir Caerlŷr, ‘Mind the gap’ – cyfres o lyfrynnau gyda syniadau a chanllawiau i ddarparwyr gofal plant er mwyn helpu plant drwy gyfnodau pontio. http://www.leics.gov.uk/index/education/childcare/early_years_service/mind_the_gap.htm

Cyngor Sir Essex (2012) “ I know I matter to you”, Cyngor Sir Essex http://dnn.essex.gov.uk/Portals/49/Documents/EYFS/_I_Know_I_Matter_to_You_02%20updated.pdf

Cyngor Sir Norfolk, Pontio yn y Blynyddoedd Cynnar https://www.norfolk.gov.uk/children-and-families/childcare-and-early-learning/childcare-advice-and-guidance/early-years-transitions

Cyngor Sir Suffolk (2011) “Guidance for promoting equalities in early years and child care” http://www.suffolklearning.co.uk/suffolklearning_images/users/early_years_team_cyp//eycguidanceforpromotingequality.pdf

Davis, H. a Meltzer, L (2007) "Working with parents in partnership", Yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Iechyd, Llywodraeth y DU

Dechrau'n Deg Caerdydd (2012) "Children with Additional Needs within Childcare Settings: Referral Pathway and Intervention Process”, Llawlyfr ac Adnoddau

Drake, J. (2006) ‘Transition between settings’, Nursery World, 18 Hydref 2006

Dunlop, A. a Fabian, H. (2007) “Informing Transitions In The Early Years”, Gwasg Prifysgol Rhydychen

Fabian, H. a Dunlop, A. (2002) “Transitions in the Early Years: Debating Continuity and Progression for Young Children in Early Education”, Routledge Falmer

Fabian, H. a Dunlop, A. (2007) “Outcomes of good practice in transition processes for children entering primary school”, Sefydliad Bernard van Leer

Firth. J. Couch, J. a Everiss, L. (2009) “An exploration of the practices and systems that foster a sense of well-being and belonging for young children and their families as they transition from home to a ‘formal’ home-based care and education”, Canolfan Ymchwil Arloesol, Adroddiad Ymchwil ar gyfer Gweinyddiaeth Addysg Seland Newydd

Llywodraeth Cymru (2004) "Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru", ISBN 0 7504 2757 4
http://gov.wales/splash?orig=/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/special-educational-needs-code-of-practice-for-wales/

Llywodraeth Cymru (2008) "Addysgeg Dysgu ac Addysgu", ISBN: 9780750445498

Llywodraeth Cymru (2009) 'Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru', ISBN 978 0 7504 5444 5

Llywodraeth Cymru (2012a) "Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant" Llywodraeth Cymru, ISBN Digidol 978 0 7504 9634 6

Llywodraeth Cymru (2012b) "Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir", Mawrth 2012, ISBN 978 0 7504 7154 1

Llywodraeth Cymru (2013a) 'Flying start qualitative research with high need families' Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 64/2013
http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/forthcoming/national-evaluation-flying-start-qualitative-research-high-need-families/?lang=cy

Llywodraeth Cymru (2013b) "National evaluation of Flying Start: Area case study synthesis report”, Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ISBN 978-1-4734-0629-2
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy

Llywodraeth Cymru (2013c) "Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru"
http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/healthvisiting/?lang=cy

Llywodraeth Cymru (2013d) "Review of Parenting support for Flying Start", Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru: 31/2013
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy

Menter a Busnes (2012) “Cynnwys plant ag anghenion ychwanegol yn y blynyddoedd cynnar”, Prosiect ymchwil wedi'i gomisiynu gan Mudiad Meithrin a'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru

Moran, P., Ghate, D. a van der Merwe, A. (2004) “What works in Parenting Support? A Review of the International Evidence,” Canolfan Ymchwil Polisi HMSO ISBN 1 84478 308 1
Norfolk County Council, Early Years Transitions
https://www.norfolk.gov.uk/children-and-families/childcare-and-early-learning/childcare-advice-and-guidance/early-years-transitions

O’Connor, A. (2006) ‘All about ……… transitions” Nursery World, 1 Mehefin 2006

Ofsted (2014) “A smooth transition: The Village Nursery”, Ofsted, Ebrill 2014

Sefydliad Bernard van Leer (2004) “Young children's participation: Rhetoric or growing reality?”, Early Childhood Matters, Tachwedd, 2004, ISSN: 1387-9553

Vogler, P., Crivello, G. a Woodhead, M. (2008) “Early childhood transitions research: A review of concepts, theory, and practice”, Sefydliad Bernard van Leer

## Atodiad A: Rhestr o'r Termau a ddefnyddir

Mae theori **ymlyniad** yn cynnig bod ansawdd y gofal a ddarperir i'r plentyn, (e.e. sensitifrwydd ac ymatebolrwydd) yn arwain at ymlyniad 'diogel' (optimaidd) neu 'anniogel' (heb fod yn optimaidd). Caiff diogelwch y cwlwm hwn, (diogelwch ymlyniad) ei bennu gan allu'r rhiant neu'r prif ofalwr i ymateb yn sensitif ac yn briodol i alwadau eu plentyn am sylw.

Mae a wnelo **amrywiaeth**[27] â chydnabod a gwerthfawrogi gwahaniaeth. Mae gwahaniaeth yn cynnwys oed, rhyw, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb, a chrefydd. Mae hefyd yn cynnwys teuluoedd â ffurfiau a strwythurau gwahanol.

Diffinnir **cam-drin yn y cartref** fel cam-drin:

- corfforol;
- rhywiol;
- seicolegol;
- emosiynol; ac
- ariannol.

Mae camdriniaeth yn y cartref yn golygu cam-drin lle mae'r dioddefwr yn "gysylltiedig", neu wedi bod yn gysylltiedig, â'r camdriniwr. Mae'r term yn un eang ac yn cynnwys nifer o berthnasoedd gan gynnwys priodas, partneriaethau sifil, cyd-fyw, perthynas deuluol, pobl sydd wedi dyweddïo, partneriaid agos neu rieni.

Cyfeiria **ymyrraeth gynnar** at: ddarpariaeth ataliol gyffredinol (megis gofal iechyd cyffredinol ac addysg gynnar) i deuluoedd sydd â phlant yng nghyfnodau cynnar bywyd; darpariaeth wedi'i thargedu yn gynnar a chyn gynted ag y bo modd pan fydd plentyn neu berson ifanc a/neu eu teulu yn dechrau cael anawsterau neu'n dechrau ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi problemau; a rhaglenni neu fentrau, sy'n cael eu darparu i blant/pobl ifanc, teuluoedd neu grwpiau penodol neu gymunedau sydd â nodweddion y mae tystiolaeth yn awgrymu sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o gael canlyniadau gwael.

Mae **cymorth i deuluoedd** yn derm cyffredinol a ddefnyddir yn llac i gyfeirio at ystod eang o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y teulu ar draws y sector plant a theuluoedd. Ceir amrywiaeth eang o wasanaethau a elwir yn "cymorth i deuluoedd" a all amrywio o gymorth rhianta, cyngor ar fudd-daliadau, cwnsela ar berthnasoedd, gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ac ymyriadau mwy therapiwtig.

**Cynhwysiant** yw'r broses o nodi a chwalu'r rhwystrau i gyfranogi a dysgu.

**Esgeulustod**[28] yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o amharu ar les y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person neu, yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn).

[27] Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gweithio gyda Rhieni http://www.parentinguk.org/your-work/what-is-work-with-parents/national-occupational-standards-for-work-with-parents/

[28] Fel y diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Rhianta** yw gweithgaredd a wneir gan y rhai sy'n magu plant gan gynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiedig, llys-rieni a neiniau a theidiau.

**Cymorth Rhianta** yw gwasanaethau a chymorth sy'n anelu at: wella sgiliau magu plant; gwella'r berthynas rhwng rhieni a phlant; gwella dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad rhieni a chynyddu hyder rheini er mwyn hyrwyddo lles cymdeithasol, corfforol ac emosiynol plant.

**Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion**
Mae'r term 'ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion' fel arfer yn cyfeirio at y ffordd y mae'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau neu gymorth yn allweddol i ddatblygu a chynllunio'r gwasanaethau hynny ac yn rhan o'r broses. Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ymchwilio i'r hyn sy'n bwysig i unigolyn ac wedyn mae'n gweithredu arno i ddatblygu camau gweithredu clir y cytunwyd arnynt sydd wedi cael eu trafod gan y person dan sylw, rhieni neu ofalwyr, os yw'n briodol, a'r amrywiol weithwyr proffesiynol a fydd yn darparu'r gwasanaethau

Mae **dull yn seiliedig ar gryfder**[29] yn digwydd pan fydd gweithwyr allweddol yn rhoi pwyslais cadarnhaol ar wytnwch, ffactorau a chryfderau amddiffynnol. Effaith hyn yw: cyfathrebu ymdeimlad o obaith; sefydlu disgwyliadau ar gyfer llwyddiant o fewn galluoedd unigolyn; hyrwyddo grymuso ac annibyniaeth a rhoi trefniadau gwella ar waith.

**Cyfnodau pontio** yw digwyddiadau allweddol neu brosesau newid yn ystod cwrs bywyd. Mae'n broses o newid sy'n digwydd, er enghraifft, pan fydd plant (a'u teuluoedd) yn symud o un lleoliad i un arall (e.e. o'u cartref i ofal plant Dechrau'n Deg) neu'n symud o fod dan ofal un gweithiwr iechyd proffesiynol i ofal un arall (e.e. o ymwelydd iechyd i nyrs ysgol). Mae'n cwmpasu'r cyfnod o amser y mae'n ei gymryd i blant i gyflawni newid o'r fath (e.e. o ymweliadau cyn-mynediad ac ymgyfarwyddo pan fydd y plentyn wedi dod yn aelod llawn o'r lleoliad newydd).

Cyfeiria **Teuluoedd sy'n agored i niwed**[30] at deuluoedd sy'n agored i ddatblygu anawsterau rhianta neu rai sydd mewn perygl o fethu ag amddiffyn a gofalu'n ddigonol am eu plant. Gall teuluoedd fod mewn mwy o berygl oherwydd amgylchiadau anffafriol megis tlodi, diweithdra, profedigaeth, camddefnyddio alcohol neu sylweddau, materion iechyd meddyliol neu gorfforol; cam-drin domestig neu o ganlyniad i ddiffyg rhwydwaith cymorth. Mae hefyd yn cyfeirio at deuluoedd y mae eu statws neu eu sefyllfa leiafrifol yn eu gwneud yn agored i wahaniaethu neu gael eu hynysu (er enghraifft teuluoedd o leiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid neu deuluoedd sy'n ceisio lloches, teuluoedd un rhiant neu rieni ifanc).

**Lles**[31] yw cyflwr corfforol, cymdeithasol a meddyliol cadarnhaol; nid dim ond absenoldeb poen, anghysur ac analluogrwydd. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i anghenion sylfaenol gael eu bodloni, bod gan unigolion ymdeimlad o bwrpas, eu bod

---

[29] Cyngor Datblygu Gweithlu'r Plant (2011) "Providing intense support for families with multiple and complex needs - Full learner resource" Cyngor Datblygu Gweithlu'r Plant

[30] Addaswyd o: Barrett, H. (2003) "Parenting Programmes for Families at risk" Llundain: Sefydliad Cenedlaethol Teuluoedd a Magu Plant

[31] Sefydliad Iechyd y Byd; dyfynnwyd yn Llywodraeth Cymru (2012) Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Strategaeth ar gyfer Iechyd a Lles Meddwl yng Nghymru WG14793, Digidol ISBN 978 0 7504 7440 5

yn teimlo y gallant gyflawni nodau personol pwysig a chymryd rhan mewn cymdeithas. Caiff ei wella gan amodau sy'n cynnwys perthnasoedd personol cefnogol, cymunedau cryf a chynhwysol, iechyd da, diogelwch ariannol a phersonol, cyflogaeth fuddiol ac amgylchedd iach a deniadol.

**Atodiad B: Enghraifft o Fap o lwybrau dilyniant o ran y ddarpariaeth a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau***

| Approximate age of child | Universal Flying Start programme | Delivered by | Additional Targeted Support |
|---|---|---|---|
| Antenatal | | | |
| 12-16 weeks | Generic midwife notification to Flying Start Health Visitor | Generic midwife | |
| | Antenatal roadshow / group | Health Outreach Team | |
| | Healthy Start Scheme | Health Outreach Team | |
| | Healthy Pregnancy | Health Outreach Team | |
| | Maternity Grant | Health Outreach Team | |
| 24 weeks | Solihull antenatal programme – delivered universally | Family Support Worker & Health Visitor | |
| | | Family Support Worker | Targeted Family Links Antenatal Parenting programme – 10 weeks |
| | Antenatal visit | Health Visitor | |
| | | Health Visitor and Family Support Worker | Flying Start outreach / intensive support programme |
| Birth to 9 months | Birth visit and baby safety pack | Health Visitor | |
| | Family Assessment Tool | Health Visitor | |
| | | Health Visitor / Health Outreach Team | Brazelton / NBOS |
| | Breastfeeding support and peer support groups | Health Visitor / Health Outreach Team | Home visiting support for complex concerns re breastfeeding |
| | Baby massage programme | Health Nursery Nurses | |
| | Paediatric First Aid for parents | Health Outreach Team | |
| | Weaning Party | Health Visitor / Health Outreach Team | |
| | Home safety assessment and toddler safety pack | Health Visitor / Health Outreach Team | |
| | Baby Yoga | Health Outreach Team | |
| | Immunisations | Health Visitor / Band 5 Nurse | |
| | Family Foods | Health Outreach Team | |
| | Incredible Years Baby Programme | Flying Start Family Support Workers /Health team in Baby Club | |
| 9 months to 21 months | Schedule of Growing Skills assessment | Health Visitor | |
| | Bookstart Bag | Health Visitor | |
| | Get Cooking Group | Health Outreach Team | |
| | HENRY Programme | Health Outreach Team | |
| | e-learning nutrition course | Health Outreach Team | |
| | Top Tots programme | Health Outreach Team | |
| | 18mth Welcomm S&L screening tool | Nursery nurses / SLT | |
| | PAFT referrals | Family Support Worker | PAFT programme in the home for additional focus on speech and language if red |
| | Pop in and play termly programme | Creative Play / Home Start | |
| | Language and play programme | Language and Play Team | |
| | | Health Outreach Team | Chatterbox group for ambers and reds |
| | Family Lives modules on specific parenting topics | Flying Start Family Support Workers, Right from the Start, Action for Children | Family links Parent Nurturing Programme |
| | SLT | Flying Start SLT | Hannan SLT programme |
| | | Flying Start Family Support Workers, Right from the Start, Action for Children | Incredible Years Toddler programme |
| 21-23 months | Schedule of Growing Skills Assessment | Health Visitor | |
| 2 years | Flying Start Childcare | Flying Start Childcare settings and Cylchoedd Meithrin | |
| | | Super Shellby | Super Shellby support in childcare |
| | | Flying Start SLT | Targeted language plans in setting |
| | Parent Forum | Caerphilly Parent Network | |
| | | | |
| 3 years | Training Courses | Ystrad Mynach college, Community Education, etc | |
| | Schedule of Growing Skills assessment (exit from childcare) | Health Visitor and Childcare Team together | |
| | Early Years Education | Maintained and non-maintained providers | |
| | Family Live Modules | Flying Start Family Support Workers, Right from the Start, Action for Children | |
| 4 years | Community Partnership groups | Community First | |
| | PTA groups | Local Primary Schools | |
| | Transition to School Nurse | Health Visitor and School Nurse | |

Individual Support in the home following family assessment – Family Support Worker (CCBC, Right from the Start, Action for Children)

Time limited 10 week intensive intervention following assessment of need

Speech and Language Therapist – additional support for children with identified communication delays

Education Psychologist support for children with emerging additional needs especially regarding transitions

Flying Start outreach for intensive work preventatively with at risk teenagers and teenage pregnancies and access to full Flying Start programme

Multi professional meetings with the family to identify needs and action plan services and provision to address those needs

Links to wider partnership projects through Families First or other funding streams depending on needs of family

*Darparwyd gan Dechrau'n Deg Caerffili

## Fy enw i yw ac rwy'n mlwydd oed

**Fy Nheulu**

**Beth sy'n bwysig i mi?**

**Pethau sy'n peri gofid i mi**

**Rwy'n dysgu sut i...**

# Cerdyn Amdanaf Fi



## Pethau gwych amdanaf FI

**Y ffordd orau o'm helpu yw...**

**Atodiad C1**

**Crëwyd gan Dîm Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar,
Gwasanaethau Addysg Caerdydd**

# Fy enw i yw Sam ac rwy'n 3 oed



**Beth sy'n bwysig i mi?**

- Fy mrawd Jim yw fy ffrind gorau
- Mam, Dad a Nain a Taid
- Rwyf wrth fy modd yn chwarae y tu allan a gwneud llawer o weithgareddau corfforol
- Rwyf wrth fy modd gyda llyfrau a phosau a chwarae gyda fy ngheir a thryciau Sam Tân ac rwy'n hoff iawn o drenau.
- Rwy'n hoffi bwyd yn fawr iawn!
- Rwy'n hoffi chwarae gyda'r tywod a'r dŵr
- Rwy'n hoffi Mickey Mouse, Peppa Pinc a Tomos y Tanc.

**Fy Nheulu**

Rwy'n byw gyda Mam a Dad a fy mrawd mawr Jim. Mae gennym 5 cath a'u henwau yw Charlie, Ginger, Bella, Abby a Mark.

**Rwy'n dysgu sut i...**

- Chwarae gemau syml
- Arafu, cymryd fy amser a sylwi ar bobl eraill a allai fod yn y ffordd.
- Rhannu pethau
- Bod yn ddewr pan fydd fy Mam yn gadael y feithrinfa
- Adnabod fy lliwiau

**LLUN Y PLENTYN**

**Pethau sy'n peri gofid i mi**

- Cael fy ngwahanu oddi wrth fy Mam.
- Ddim yn gallu cael yr hyn rwyf ei eisiau!
- Efallai y byddaf yn ofidus os bydda i'n meddwl nad wyf yn mynd adref a bydd angen sicrwydd arna i y bydd Mam yn fy nghasglu.
- Rwy'n sensitif i hwyliau pobl eraill ac efallai y bydda i'n ofidus os bydd eraill yn ofidus.



# Cerdyn Amdanaf Fi Sam

## Pethau Gwych Amdanaf FI!

- Mae gen i ddychymyg gwych
- Rwy'n gariadus ac yn serchog iawn
- Rwyf bob amser yn gwneud fy ngorau

**Y ffordd orau o'm helpu yw...**

- Rwy'n gwisgo sblintiau ar fy nhraed a'm fferau. Mae'r rhain yn bwysig iawn i'm helpu i gerdded
- Atgoffwch fi os yw lefel y llawr ar fin newid.
- Efallai na fyddaf yn sylwi ar wrthrychau yn y ffordd ar y llawr, felly ceisiwch gadw'r llwybrau cerdded glir.
- Rwy'n fwy sigledig ar fy nhraed os bydda i wedi blino neu ar fin bod yn sâl. Byddaf hefyd yn glafoerio mwy os bydda i ar fin bod yn sâl.
- Bydd angen ichi fy atgoffa y gallai plant eraill fod eisiau chwarae gyda'r un pethau â fi.
- Gallaf boeni am yr hyn sy'n digwydd nesaf, felly bydd angen ichi dawelu fy meddwl a'm hatgoffa y bydd Mam yn dod i'm casglu ar ddiwedd y sesiwn.
- Rwy'n hoffi trefn y gallaf ei gweld er mwyn fy helpu i wybod beth yw'r cynlluniau ar gyfer y diwrnod.
- Os bydd gweithgarwch corfforol newydd bydd angen imi gael fy nhywys drwyddynt dan oruchwyliaeth am yr ychydig droeon cyntaf yna byddaf yn iawn i wneud pethau ar fy mhen fy hun.
- Dylech fy ngwylio pan fydda i y tu allan oherwydd weithiau os bydda i'n canolbwyntio ar ddringo nid wyf yn sylwi ar beryglon eraill fel bylchau yn y ffrâm a gallaf gwympo.
- Gallaf gynhyrfu ac rwy'n ei chael hi'n anodd ymdawelu. Mae'n haws os byddwch yn fy nhawelu gyntaf cyn ceisio Tynnu fy sylw.

**Atotiad C1**

**Atodiad C2: 'Popeth Amdanaf I' – (o Flaenau Gwent)**

# Popeth Amdanaf I

Dyma fi…

Gludiwch ffotograff yma

Fy enw yw……………………………. Rwy'n hoffi cael fy ngalw yn ………..……

Dyddiad Geni……………………  Rhyw……………………….……………....

Iaith fy nghartref yw………………………………………………………..…

Rwy'n mynd i ………………………………………...........……………………..
*(enw'r gosodiad)*

Yr arweinydd yw…………………………...….Rhif Ffôn ………………...………...

Rwy'n mynd i symud i…………………………………………………………...
*(enw'r gosodiad nesaf)*

**Dechrau'n Deg** Ie/ Na *(Cylchwch)*

**Mynychiad**

**Meddygol/Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**Cefndir Teuluol a Lles**

**1. Perthynas**

**2. Cyfathrebu**

**3. Gwahanu**

**4. Hyfforddiant Toiled**

**5. Datblygiad Corfforol**

**6. Pethau rwy'n eu gwneud yn dda…**

|  |
|---|
|  |

**7. Pethau rwyf angen help gyda hwy…**

|  |
|---|
|  |

**8. Rwy'n mwynhau…**

|  |
|---|
|  |

Rwy’n rhoi caniatâd i’r wybodaeth yn y ddogfen hon gael ei rhannu gydag asiantaethau perthnasol a lleoliad newydd fy mhlentyn.

Llofnod *(rhiant/gofalydd)*........................................................... Dyddiad……….

Llofnod *(Gweithiwr Allweddol)*……………………………………… Dyddiad……….

Llofnod *(Arweinydd*……………………………………………… Dyddiad……….

**Atodiad C2: ‘Rhai Pethau Amdanaf Fi’ - – (o Ddinbych)**

# RHAI PETHAU AMDANAF FI

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Enw:

Dyddiad Geni :

Pobl bwysig yn fy mywyd:

Anifeiliaid anwes:

Hoff lefydd:

Teganau rydw i’n hoffi:

Hoff bwyd:

Cylch:

Iaith y cartref:

Enw’r ysgol:

LLUN

| Rydw I: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rydw i’n hyderus ac yn gallu ymwahanu â’m gofalwr | | Rydw i’n gallu eistedd yn ystod amser cylch am gyfnod byr.<br>Rydw i’n gallu eistedd yn ystod amser cylch | | Rydw i’n gallu dweud wrthoch chi sut ydw i’n teimlo neu beth sydd ei angen arnaf trwy:<br>• Gweithredoedd<br>• Geiriau | |
| Rydw i’n gallu canolbwyntio ar weithgaredd o’m dewis<br>• Gydag oedolyn<br>• Ar fy mhen fy hun | | Rydw i’n gallu chwarae’n ar fy mhen fy hun<br>Rydw i’n gallu chwarae ochr yn ochr â ffrindiau<br>Rydw i’n gallu chwarae â ffrindiau | | Rydw i’n deall cyfarwyddia-dau syml<br>Rydw i fel arfer yn ymateb i gyfarwyddiadau oedolion | |
| Rydw i’n gallu canolbwyntio ar dasg wedi ei dewis gan oedolyn | | Rydw i’n gallu ymuno â gweithgareddau grwp | | Rydw i’n gallu ymdopi â newid mewn arferion bob dydd. | |
| Rydw i’n gallu cymryd fy nhro<br>Rydw i’n gallu rhannu | | | | Rydw i’n gallu dilyn arfernion y lleoliad. | |

| Angheninon Iechyd | |
|---|---|
| Clyw | |
| Golwg | |
| Arall | |

| Defynddio’r Toiled | |
|---|---|
| Mewn clwt | |
| Yn gweithio tuag at defynddior toiled | |

| Gweithwyr Proffesiynol (Dyddiad) | | | |
|---|---|---|---|
| Enw | Rhif cyswllt | Swydd | Adroddiadau |
| | | | |
| | | | |

## Yn fy sefydliad rydw i weithiau yn:

Pryderus
Siaradus
Tawel
Hyderus
Cyffrous
Swil
Hapus
Cymdeithasol
Bywiog
Cyfeillgar
Swnllyd
Pengaled
Anniddig
Mynd i'm cragen

Strategaethau sy'n gweithio i mi (cwblhewch os yn berthnasol)...

| Ffyrdd gall oedolion fy helpu i. | | |
|---|---|---|
| OS YDW I'N GWNEUD HYN | GALL OLYGU | RHAID I CHI |
| | | |

## Barn rhieni/gwarchodwyr;

Wediw cwbwlhau gan: ______________ Dyddiad: ________

**Atodiad Ch: Enghraifft o Ganllawiau Pontio a ddarparwyd gan Dechrau'n Deg Caerdydd**

| | Hanfodol | ✓ | Dymunol | ✓ |
|---|---|---|---|---|
| Wrth ddechrau mewn lleoliadau Dechrau'n Deg | Yr ymwelydd iechyd i gofrestru'r plentyn i ofal plant yn ystod ymweliad cartref, pan fo'r plentyn yn 16 mis oed. Enwau'n cael eu hanfon i'r Tîm Gofal Plant<br><br>Ceir trafodaeth â'r ymwelydd iechyd i roi'r cefndir o ran y plant a fydd yn dechrau. Sicrhau bod canlyniadau SoGS yn cael eu derbyn gan yr ymwelydd iechyd (dim ond os yw datblygiad plentyn un yn is na'r radd ddisgwyliedig)<br><br>Rheolwr / Arweinydd i drefnu 'Diwrnod Agored' yn y lleoliad. Gweithiwr allweddol i helpu i gwblhau ffurflenni derbyn gyda'r rhiant/gofalwr<br><br>Ymweliad  nesaf – Rhiant/gofalwr i gwrdd â'r gweithiwr allweddol a llenwi'r gwaith papur ychwanegol. Mae'r llawlyfr a gyflwynir i rieni yn atgoffa rhieni i gofrestru eu plentyn gyda'r ysgol fwydo<br><br>Sicrhau bod Polisi Pontio mewn lle sy'n dilyn athroniaeth Dechrau'n Deg | | Rhannu ffotograffau o weithiwr allweddol â'r teulu<br><br>Gwnewch lawlyfr yn cynnwys manylion yr holl ymarferwyr sy'n gweithio yn y lleoliad a'i gynnig i rieni<br><br>Rhieni i ddod â lluniau o'r cartref/teulu i mewn wrth ddechrau<br><br>Rheolwr/Arweinydd i anfon gwahoddiad personol, wedi'i gyfeirio at bob plentyn, i fynychu sesiwn 'Aros a Chwarae' gyda'r gofalwr/rhiant | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Os bydd nifer fawr o ddechreuwyr newydd ceisiwch eu derbyn fesul cam. Ceisiwch sicrhau bod pob plentyn newydd yn dechrau o fewn dwy/tair wythnos. | | | |
| | Hanfodol | | Dymunol | |
| Wrth ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen | Dogfen bontio i gael ei chwblhau gan y gweithiwr allweddol<br><br>Arweinydd i oruchwylio'r dogfennau pontio terfynol a gweithio gyda'r gweithiwr allweddol i sicrhau gwybodaeth o ansawdd<br><br>Dogfen bontio wedi'i rhannu gyda rhieni a'i llofnodi ganddynt<br><br>Arweinydd i drefnu cyfarfod gydag Athro'r Cyfnod Sylfaen i drafod plant unigol a chyflwyno dogfennau pontio<br><br>Arweinydd i sicrhau bod dogfennau pontio wedi'u llofnodi a bod copi o'r dderbynneb wedi'i roi i'r Tîm Ymgynghorol Dechrau'n Deg | | Gwahodd athro'r feithrinfa i'r lleoliad i gwrdd â'r plant sy'n trosglwyddo<br><br>Plant i ymwled â'r ysgol fwydo gyda'r gweithiwr allweddol e.e. diwrnod digwyddiad<br><br>Gwisg ysgol arfaethedig yn yr ardal chwarae rôl<br><br>Lluniau o adeiladau ysgol a staff i'w rhannu gyda'r plant<br><br>Sesiynau hyfforddi y blynyddoedd cynnar ar y cyd sy'n cynnwys y Grŵp Chwarae a Meithrinfa'r Ysgol<br><br>Datblygu ymweliadau arfer da rhwng y ddau leoliad (e.e. amser stori, gwasanaethau, ffeiriau)<br><br>Awgrym i leoliadau bwydo Dechrau'n Deg gael adran 'cylchlythyr' ar wefan yr ysgol | |

**Atodiad D: Enghraifft o 'Ganllawiau Presenoldeb', a ddarperwyd gan Dechrau'n Deg Abertawe**

# Dechrau'n Deg Abertawe
## Canllawiau Presenoldeb

I'w hadolygu 1/3/2015
Fersiwn a gytunwyd ar 4/3/2014 gan y Grŵp Rheoli Gweithredol
Cadarnhawyd ar 4/3/2014 gan y Grŵp Rheoli Gweithredol
Ysgrifennwyd gan Dîm Rheoli Dechrau'n Deg

**Fersiwn Diwygio 26/1/2015**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dechrau'n Deg
Flying Start

# Canllawiau Presenoldeb Dechrau'n Deg

## Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu cynhyrchu er mwyn cefnogi arfer da yn y rhaglen Dechrau'n Deg yn Abertawe mewn perthynas â phresenoldeb. Mae gofal plant Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant ifanc wrth eu paratoi ar gyfer yr ysgol ac yn y tymor hwy.

Caiff y canllawiau canlynol eu dilyn gan yr holl leoliadau gofal plant ac nid yw'n disodli'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Maent, fodd bynnag, yn helpu i reoli risg yn ddiogel.

## Cefndir

Mae gan blant sy'n byw mewn ardaloedd dynodedig hawl i fynychu gofal plant am 2½ awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos.

Yn ystod yr ymweliad cartref, bydd rhieni'n cwblhau'r cytundeb presenoldeb (gweler y **Cytundeb Presenoldeb**, t8). Bydd copi o'r cytundeb hwn yn cael ei roi i'r rhiant a bydd copi yn cael ei gadw yn Ffeil Cofnod y Plentyn. Mae rhieni yn cael eu hysbysu am y disgwyliad y dylent roi gwybod i aelod o staff yn y lleoliad gofal plant cyn gynted â phosibl os na fydd eu plentyn yn mynychu gofal plant y diwrnod hwnnw (gweler diagram llif y **Canllawiau Presenoldeb**, t3).

*Yn aml, mae angen bod yn hyblyg o ran nifer y sesiynau y mae plant yn eu mynychu er mwyn darparu ar gyfer anghenion rhieni. Er enghraifft, os yw rhiant yn penderfynu dod â'r plentyn i dri sesiwn yn unig, dylid caniatáu hynny. Fodd bynnag, dylai darparwyr annog rhieni i fanteisio ar yr holl ofal plant mae ganddynt hawl i'w gael lle bo modd (Canllawiau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru - Atodiad 2 2013).* Rhoddir gwybod i rieni bod ganddynt hawl i gynyddu nifer y sesiynau ar unrhyw adeg.

Mae pob plentyn yn cael y dewis i fynychu darpariaeth Gymraeg neu Saesneg.

## Diben y Canllawiau

Yn Dechrau'n Deg rydym yn credu bod presenoldeb da yn hanfodol i alluogi plant i ymgartrefu ac elwa ar y cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt. Ar oedran ifanc, mae parhad a chysondeb yn elfennau pwysig sy'n cyfrannu at les a datblygiad plentyn. Hefyd rydym yn credu y gall presenoldeb rheolaidd yn Dechrau'n Deg osod cynsail ar gyfer ysgol statudol.

## Canlyniadau

Mae Llywodraeth Cymru pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb da yn Dechrau'n Deg. Yn Abertawe, rydym yn anelu at bresenoldeb o 80% ym mhob lleoliad.

## Pwy sy'n Gyfrifol?

Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o staff Dechrau'n Deg i annog presenoldeb da ac i gynorthwyo teuluoedd.

*Dylai staff fod yn rhagweithiol wrth gysylltu â theuluoedd â phlant sy'n gymwys i gael gofal plant Dechrau'n Deg, er mwyn sicrhau cefnogaeth rhieni a phresenoldeb plant yn y lleoliadau. Efallai bydd angen dycnwch a dyfeisgarwch i ymgysylltu â rhai o'r rhieni, yn arbennig o'r grwpiau 'anodd eu cyrraedd', fel bod eu plant yn cael eu dyraniad* gofal plant *llawn (Canllawiau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru - Atodiad 2 2013).*

Bydd y Rheolwr Gofal Plant yn casglu ac yn monitro gwybodaeth am bresenoldeb pob plentyn bob tymor yn unol â chanllawiau diogelu. Caiff copi o'r wybodaeth hon ei hanfon at Swyddog Data a Gwybodaeth Dechrau'n Deg
sydd wedyn yn ei hanfon i Lywodraeth Cymru bob tymor.

Yn y dyfodol agos, byddwn yn gweithredu system gwybodaeth reoli ysgolion (SIMS) ym mhob lleoliad er mwyn sicrhau bod y systemau ar gyfer cofnodi a monitro presenoldeb yn fwyfwy cadarn.

# Canllawiau Presenoldeb Gofal Plant Dechrau'n Deg

Os bydd plentyn yn absennol heb eglurhad - cysylltwch dros y ffôn

Dim ateb - Gadael neges a'i hategu gyda neges destun lle mae cyfleusterau ar gael

Dim ateb erbyn diwedd y sesiwn

Cofnod fel absenoldeb "Heb awdurdod"

Olrhain a chofnodi ar Daflenni Parhad yn ffeil y plentyn. Cyfeirio at yr adran **Rheoli Absenoldeb** (t4 - 6)

Gweithiwr Gofal Plant enwebedig yn cysylltu â'r rhiant/gofalwr

Os bydd plentyn yn absennol gydag eglurhad

Cofnodi esboniad ar "Daflenni Parhad" yn Ffeil Cofnod y Plentyn

Rhestr o resymau dilys a ddefnyddir i gofnodi absenoldeb (gweler **Codau Cofrestr,** t9)

# <u>Rheoli Absenoldeb 1</u>

Os na lwyddir i gysylltu â'r teulu ar ôl 2 ddiwrnod yn olynol, trafod gydag Ymwelydd Iechyd. Enwebu Gweithiwr Gofal Plant i barhau i geisio cysylltu â'r teulu chofnodi hynny ar y "Taflenni Parhad".

Os na lwyddir i gysylltu â'r teulu ar ôl 5 diwrnod gwaith, y Gweithiwr Gofal Plant i roi cerdyn galw drwy'r drws (gweler **Cerdyn Galw**, t10). Trafod gyda'r Ymwelydd Iechyd. Enwebu Gweithiwr Gofal Plant i barhau i geisio cysylltu â'r teulu a chofnodi hynny ar y "Taflenni Parhad".

Os llwyddir i gysylltu â'r teulu, parhau i fonitro a chofnodi gwybodaeth ar "Daflenni Parhad" yn Ffeil Cofnod y plentyn.

Os na lwyddir i gysylltu â'r teulu ar ôl 5 diwrnod arall, anfon llythyr cychwynnol (gweler **Llythyr 1**, t11). Trafod gyda'r Ymwelydd Iechyd. Enwebu Gweithiwr Gofal Plant i barhau i geisio cysylltu â'r teulu a chofnodi hynny ar y "Taflenni Parhad".

Os llwyddir i gysylltu â'r teulu, cyfathrebu'n gyson â'r Ymwelwydd Iechyd fel gweithiwr allweddol. Monitro presenoldeb yn fanwl a chofnodi gwybodaeth ar "Daflenni Parhad" yn Ffeil Cofnod y Plentyn.

Os nad oes cyswllt ar ôl 5 diwrnod arall, anfon llythyr cyfle olaf (gweler **Llythyr 2**, t12). Trafod gyda'r Ymwelydd Iechyd. Enwebu Gweithiwr Gofal Plant i barhau i geisio cysylltu â'r teulu a chofnodi hynny ar y "Taflenni Parhad".

Ymwelydd Iechyd i geisio cysylltu â'r teulu a'r meddyg teulu a rhoi gwybod i'r Rheolwr Gofal Plant am y canlyniad

Colli lle

Trafod gyda'r Ymwelydd Iechyd. Codi hyn mewn cyfarfod holi ac ateb misol. Rheolwr Gofal Plant i dynnu sylw at hyn ar y ffurflen fisol i Swyddog Data a Gwybodaeth Dechrau'n Deg.

# Rheoli Absenoldeb 2
# Ar gyfer Plant â Phryderon Diogelu*

## * Ymwelydd Iechyd wedi nodi fel "Achos Pryder"

Os na lwyddir i gysylltu â'r teulu ar ôl 2 ddiwrnod yn olynol, trafod gydag Ymwelydd Iechyd a fydd yn ceisio cysylltu â'r teulu. Enwebu Gweithiwr Gofal Plant i barhau i geisio cysylltu â'r teulu chofnodi hynny ar y "Taflenni Parhad".

Os nad lwyddir i gysylltu ar ôl 5 diwrnod gwaith, rhoi cerdyn galw drwy'r drws (gweler **Cerdyn Galw**, t10). Trafod unrhyw risgiau posibl gyda'r Ymwelydd Iechyd cyn ymweld â chartref plentyn. Bydd yr Ymwelydd Iechyd yn dilyn canllawiau BIPABM ar absenoldeb ac yn hysbysu'r Rheolwr Gweithiwr Gofal o'r canlyniad.

Os llwyddir i gysylltu â'r teulu, cyfathrebu'n gyson â'r Ymwelydd Iechyd fel gweithiwr allweddol. Monitro presenoldeb yn fanwl a chofnodi gwybodaeth ar "Daflenni Parhad" yn Ffeil Cofnod y Plentyn.

Os na all gysylltu â'r teulu, yr Ymwelydd Iechyd i drafod gyda'r Nyrs Glingiol Arbenigol Diogelu Plant. Trafodaeth lawn rhwng yr Ymwelydd Iechyd a'r Rheolwr Gofal Plant ac ystyried atgyfeirio ar y cyd i Wasanaethau Plant.

Codi hyn mewn cyfarfod holi ac ateb misol.

# Rheoli Absenoldeb 3
# Ar gyfer Plant â Phryderon Diogelu*

## * Wedi'u nodi fel Plentyn mewn Angen neu ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

Os na lwyddir i gysylltu â'r teulu ar ôl 2 ddiwrnod yn olynol, trafod gyda'r Ymwelydd Iechyd a fydd yn ceisio cysylltu â'r teulu. Enwebu Gweithiwr Gofal Plant i barhau i geisio sefydlu cyswllt a chofnodi ar y "Taflenni Parhad".

Dim cyswllt:

Rhoi gwybod i'r Gweithiwr Cymdeithasol penodedig. Trafod gyda'r Ymwelydd Iechyd. Enwebu Gweithiwr Gofal Plant i barhau i geisio cysylltu â'r teulu a chofnodi hynny ar y "Taflenni Parhad".

Bydd Ymwelydd Iechyd yn trafod gyda Nyrs Glinigol Arbenigol Diogelu Plant ac yn dilyn Canllawiau Diogelu Plant BIPABM. Hysbysu'r Rheolwr Gofal Plant am y canlyniad.

Os gwneir cysylltiad, cyfathrebu â'r Gweithiwr Cymdeithasol a'r Ymwelydd Iechyd fel gweithiwr allweddol. Monitro presenoldeb yn fanwl a chofnodi gwybodaeth ar "Daflenni Parhad" yn Ffeil Cofnod y Plentyn.

**Absenoldeb Parhaus**

Bydd angen i'r Rheolwr Gofal Plant, Ymwelwyr Iechyd a Hwylusydd Teulu edrych ar y data presenoldeb yn fisol yn ystod cyfarfodydd a gynlluniwyd.
Yn ystod y cyfarfodydd hyn, bydd angen trafod y materion canlynol;
a) Ffigurau presenoldeb
b) Mynychwyr newydd posibl
c) Y rhai sy'n gadael y lleoliad Dechrau'n Deg cyn eu hawl 42 wythnos. Yn yr achosion hyn, dylid darganfod i ble mae'r plentyn yn symud, trafod cynllun ymadael ac ystyried pontio i ardal newydd. Bydd angen i Reolwyr Gofal Plant fewnbynnu manylion y plentyn ar y ffurflenni tymhorol a anfonir at Swyddog Data a Gwybodaeth Dechrau'n Deg. Bydd hyn yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd Holi ac Ateb tymhorol.
O fis Ebrill caiff System Gwybodaeth Reoli Ysgolion (SIMS) ei rhoi ar waith. Bydd disgwyl i reolwyr gofal plant nodi patrymau presenoldeb drwy SIMs.

## Absenoldeb Parhaus

Caiff absenoldeb parhaus ei ddiffinio fel unrhyw blentyn y mae ei bresenoldeb yn is nag 80%.
Os bydd patrwm yn dod i'r amlwg, siaradwch â'r rhiant a'r Ymwelydd Iechyd.

Os bydd presenoldeb yn gyson is nag 80% (Ar ôl 2 fis) *
**neu**
Os oes patrymau aladroddus o absenoldeb

Trafodwch opsiynau posibl ar gyfer trefniadau eraill, ee. Llai o sesiynau, cyfnewid sesiynau bore/prynhawn. Cyfathrebu'n gyson â’r Ymwelydd Iechyd fel gweithiwr allweddol.

*Yn ôl disgresiwn y Rheolwr Gofal Plant. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n wythnosol, fodd bynnag, bydd angen i Reolwyr Gofal Plant ddefnyddio eu disgresiwn mewn perthynas â'i amlder.

## Cytundeb Presenoldeb

Darperir gofal plant Dechrau'n Deg er budd eich plentyn. Gyda hyn mewn cof, bydd y darparwr gofal plant yn monitro presenoldeb a bydd angen i deuluoedd roi gwybod i'r lleoliad gofal plant cyn gynted ag y bo modd os na fydd eu plentyn yn mynychu oherwydd salwch, gwyliau, ac ati.

**Eich cyfrifoldeb chi fel rhiant/gofalwr yw cysylltu â'r lleoliad Dechrau'n Deg erbyn diwedd y sesiwn i roi gwybod pam mae eich plentyn wedi bod yn absennol.**

Rwy'n ymwybodol bod gan fy mhlentyn hawl i bum sesiwn 2.5 awr o ddarpariaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg.

Ar hyn o bryd hoffwn i'm plentyn fynychu _____________ sesiwn yr wythnos.

Y sesiynau y bydd fy mhlentyn yn eu mynychu yw:

| | Am | Pm |
|---|---|---|
| Dydd Llun | | |
| Dydd Mawrth | | |
| Dydd Mercher | | |
| Dydd Iau | | |
| Dydd Gwener | | |

Os na fyddwch yn manteisio ar yr hawl lawn, gellir cynyddu'r sesiynau i'r hawl 5 diwrnod llawn ar ôl trafodaeth gyda'r rheolwr gofal plant neu berson allweddol y plentyn.

Rwyf wedi darllen a deall yr uchod ac wedi cael copi o'r cytundeb presenoldeb.

DYDDIAD:___________________

LLOFNOD (RHIANT/GOFALWR ______________________________

**Cerdyn Galw**

Fe wnaethom alw alw heddiw, ond nid oeddech gartref. Rydym yn gweld eisiau (enw'r plentyn) yn (enw'r lleoliad) a gofynnwn ichi ein ffonio cyn gynted â phosibl ar (rhif ffôn y lleoliad)

Llawer o ddiolch,
(Enw'r rheolwr)

Logo'r lleoliad

Dechrau'n Deg
Flying Start

## Llythyr 1

Cyfeiriad y Lleoliad
Dyddiad

Annwyl (enw'r rhiant/gofalwr),

Rydym yn pryderu nad ydym wedi clywed gennych. Rydym wedi ceisio cysylltu â chi dros y ffôn a gadael cerdyn galw ond nid ydym wedi clywed gennych ynglŷn â phresenoldeb (enw'r plentyn).

Os ydych yn cael unrhyw anawsterau o ran dod i'r sesiwn neu os oes unrhyw faterion yr hoffech eu trafod, cysylltwch â ni ar (rhif ffôn y lleoliad). Os na fyddwn yn clywed gennych o fewn 5 diwrnod gwaith, efallai y byddwn yn ystyried tynnu lle eich plentyn yn ôl.

Llawer o ddiolch,

(Enw'r rheolwr)

**Llythyr 2**

Cyfeiriad y Lleoliad
Dyddiad

Annwyl (enw'r rhiant/gofalwr),

Rydym wedi ceisio cysylltu â chi droeon. Rydym yn pryderu nad ydym wedi clywed gennych. Mae eich plentyn wedi colli (nifer) sesiwn. Fel y nodwyd yn y Cytundeb Presenoldeb, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i ni am absenoldeb eich plentyn erbyn diwedd y sesiwn.

Mae Dechrau'n Deg yma er budd eich plentyn. Rydym wedi trafod (enw'r plentyn) gydag asiantaethau eraill nad ydynt wedi nodi rheswm dros iddo/iddi beidio â mynychu'r sesiwn Dechrau'n Deg, felly, os na fyddwn yn clywed gennych o fewn 5 diwrnod gwaith, byddwn yn tynnu lle eich plentyn yn ôl.

Llawer o ddiolch,
(Enw'r rheolwr)

## Atodiad Dd – Gweithredu canllawiau pontio Dechrau'n Deg: Enghreifftiau o bontio'n effeithiol a phrotocolau rhannu gwybodaeth rhwng Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen

### Dechrau'n Deg Blaenau Gwent

Pa brotocolau sydd yn eu lle i rannu gwybodaeth rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen a pha effaith maent wedi'i chael?

Cynhaliwyd gweithdai a chyfarfodydd ymgynghori i drafod arferion pontio yn yr awdurdod. Ymysg y rheini a oedd yn bresennol, roedd: staff meithrin, rheolwyr gofal plant, Athro/Athrawes Ymgynghorol Dechrau'n Deg, Cydlynydd Gofal Plant Dechrau'n Deg, Swyddog Sicrhau Ansawdd Blaenau Gwent a Seicolegydd Addysg y Blynyddoedd Cynnar.

Cytunwyd i ddogfennau pontio Dechrau'n Deg gael eu trosglwyddo o leoliadau Dechrau'n Deg i feithrinfeydd ac i rieni eu llofnodi. Caiff Cynlluniau Chwarae Unigol (lle y bo'n berthnasol) hefyd eu trosglwyddo i feithrinfeydd. Dim ond ar ôl cael caniatâd llafar/cymeradwyaeth y rhiant y caiff unrhyw adroddiadau cyfrinachol gan asiantaethau allanol ee therapydd lleferydd ac iaith/seicolegydd addysg eu trosglwyddo i'r feithrinfa. .

Datblygwyd dogfennau pontio Dechrau'n Deg gan weithgor a oedd yn cynnwys athrawon ymgynghorol Dechrau'n Deg, athrawon meithrin, staff gofal plant cyn-ysgol a Dechrau'n Deg, staff ymgynghorol a swyddogion datblygu. Cawsant y cyfle i sicrhau bod yr wybodaeth a gasglwyd gan leoliadau Dechrau'n Deg, ac yna a drosglwyddwyd i ysgolion, yn ddefnyddiol ac yn briodol. Roedd hyn yn sicrhau bod yr wybodaeth bontio yn berthnasol ac nad yw'n ormodol.

Cynhelir cyfarfodydd clwstwr pontio rhwng staff gofal plant a meithrin Dechrau'n Deg pan gyflwynir gwybodaeth lafar yn ogystal â'r dogfennau pontio ysgrifenedig. Cânt eu cynnal ar rota dreigl gan leoliadau gofal plant a meithrinfeydd Dechrau'n Deg. Mae'r cyfarfodydd clwstwr pontio yn galluogi i arfer da a syniadau gael eu rhannu; yn caniatáu i athrawon gyfarfod â staff o'r holl leoliadau gofal plant yn eu clwstwr; ac yn caniatáu amser penodol i rannu gwybodaeth heb i blant fod yn bresennol. Mae'r cyfarfodydd wedi meithrin perthynas weithio gadarnhaol.

Ym mhle y mae'r protocolau'n gweithio'n dda ac ai'r wybodaeth a ddarperir gan leoliadau Dechrau'n Deg yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar ysgolion?

Mae dogfennau pontio Dechrau'n Deg ar gael yn electronig a chaiff samplau eu gwirio gan Athro/Athrawes Ymgynghorol Dechrau'n Deg cyn cael eu trosglwyddo o ofal plant Dechrau'n Deg i feithrinfeydd. Mae'r dogfennau'n edrych ac yn darllen yn fwy proffesiynol, ac maent wedi ennyn ymateb ffafriol iawn gan athrawon meithrin. O ganlyniad, mae rhai athrawon meithrin wedi gofyn i gysylltiadau agosach gael eu datblygu â'r lleoliadau Dechrau'n Deg drwy ofyn am gael ymweld â'r lleoliadau hyn a hefyd gwahodd y staff gofal plant i ymweld â'r plant yn y feithrinfa i olrhain eu cynnydd. Mae llawer o staff a oedd yn gyndyn i gynnal cyfarfodydd clwstwr pontio bellach yn awyddus i groesawu a rhannu eu syniadau.

Mae staff meithrin wedi bod yn fodlon rhannu manylion cyswllt personol ee cyfeiriad e-bost a rhifau symudol er mwyn iddynt gael nodiadau atgoffa, dyddiadau a lleoliadau yn uniongyrchol yn hytrach na drwy gyswllt yr ysgol lle gall negeseuon gael eu colli.

Bu'r adborth gan bawb yn gadarnhaol iawn gyda meithrinfeydd/ysgolion a lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg yn cynnig cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol.

Yn eich profiad chi, sut gellir goresgyn rhwystrau i rannu gwybodaeth?

Rydym wedi gweld bod gweithio gyda chlystyrau o ysgolion yn annog yr ysgolion gyda'i gilydd i gymryd mwy o ran yn hyn.

Pan nad yw ysgol yn ymgysylltu llawer, bydd lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg yn ffonio'r ysgolion i siarad â'r athrawon, yn cyflwyno'r dogfennau pontio gorffenedig ac yn gofyn, yn aml yn llwyddiannus, i gael ymweld â'r ysgol.

**Dechrau'n Deg Sir Ddinbych**

Pa brotocolau sydd yn eu lle i rannu gwybodaeth rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen a pha effaith maent wedi'i chael?

Mae dwy fenter wedi'u sefydlu i helpu a chefnogi'r cyfnod pontio rhwng Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen:

i) Panel Cyn-ysgol Sir Ddinbych – mae'r Panel yn bwynt cyfeirio canolog i leoliadau gofal plant (Addysg Gynnar neu Dechrau'n Deg) sydd â phryderon ynghylch plant sy'n mynychu eu lleoliad. Mae'r panel yn cynnwys Seicolegydd Addysg y Blynyddoedd Cynnar, yr athro/athrawes ADY, Athro/Athrawes Ymgynghorol Dechrau'n Deg a'r Athro/Athrawes Addysg Gynnar.
ii) Y system "ffeilio" Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau canolog – mae hyn yn caniatáu i staff awdurdodau lleol gael mynediad at wybodaeth / gwasanaethau y mae plentyn yn eu cael.

Mae hefyd llyfryn Arsylwi y Blynyddoedd Cynnar ar gael, sef *"Learning to play, playing to learn – Skills in the Foundation Phase Areas of Learning observation recording system*". Mae hyn yn cynnwys gweithdrefn asesu unigol sy'n dechrau yn y lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg ac yn parhau â'r plentyn i'r ddarpariaeth a ariennir ar gyfer plant 3 oed ac yna i'r dosbarth meithrin.

Caiff y weithdrefn asesu ei ehangu ymhellach gan ddull ychwanegol o rannu gwybodaeth drwy'r ddogfen *'At a Glance – in a Nutshell Pen Portrait'*. Cafodd hyn ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â rhieni, ysgolion a rhanddeiliaid i ddarparu disgrifiad cryno o'r plentyn wrth iddo adael y lleoliad cyn-ysgol a phontio i'r ysgol. Caiff ei ddefnyddio i helpu i'r plentyn ymgartrefu yn yr ysgol, a'i gefnogi.

Ym mhle y mae'r protocolau'n gweithio'n dda ac ai'r wybodaeth a ddarperir gan leoliadau Dechrau'n Deg yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar ysgolion?

Mae'r Panel Cyn-ysgol yn profi ffordd effeithiol iawn o nodi a chynllunio ymyriadau ac olrhain plant o Dechrau'n Deg i'r ysgol. Mae hyn wedi arwain at fwy o gydweithio rhwng adrannau a rhwng asiantaethau.

Mae'r ddogfen *'In a Nutshell'* yn rhoi cydbwysedd ar wybodaeth – cafodd ei ddatblygu mewn ymgynghoriad ag athrawon ac mae'n darparu'r wybodaeth y gwnaethant holi amdani.

<u>Yn eich profiad chi, sut gellir goresgyn rhwystrau i rannu gwybodaeth?</u>

Mae Tîm Addysg Dechrau'n Deg a Thîm y Cyfnod Sylfaen wedi adolygu darpariaeth i oresgyn materion. Mae materion o'r fath yn cynnwys gormod o wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i athrawon mewn ysgolion. Mae'r ddogfen *'In a Nutshell'*, dan arweiniad Athro/Athrawes Ymgynghorol ADY y Blynyddoedd Cynnar, wedi mynd i'r afael â hyn.

Yn ogystal â hyn, mae rhieni bellach yn rhoi caniatâd i rannu gwybodaeth drwy lenwi holiaduron ar ddiwedd gofal plant Dechrau'n Deg. Mae'r cytundeb hwn sydd wedi'i lofnodi yn caniatáu i staff Dechrau'n Deg rannu gwybodaeth ag ysgolion a darpariaethau a ariennir ar gyfer plant 3 oed. Mae therapyddion lleferydd ac iaith hefyd yn cael caniatâd rhieni i rannu gwybodaeth.

**Dechrau'n Deg Merthyr Tudful**

<u>Pa brotocolau sydd yn eu lle i rannu gwybodaeth rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen a pha effaith maent wedi'i chael?</u>

Mae tîm y Blynyddoedd Cynnar ym Merthyr Tudful wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Addysg i wella'r broses o bontio i ysgolion. Mae hyn wedi cynnwys:

- uno systemau data rhwng Dechrau'n Deg ac Addysg;
- ymgorffori'r Cyfnod Sylfaen i leoliadau'r Blynyddoedd Cynnar;
- rhannu dogfennaeth bontio;
- datblygu proses gymedroli ar draws sectorau rhwng ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar.

Wrth gofrestru am ofal plant, mae pob rhiant yn llofnodi ffurflen gofrestru yn cadarnhau ei fod yn cytuno i'r lleoliad cyn-ysgol gynnal asesiadau Proffil y Cyfnod Sylfaen a sgrinio WellComm. Yn ogystal â hyn, maent wedi cadarnhau y gall yr wybodaeth hon gael ei rhannu ag ysgolion.

Mae dogfen bontio yn ei lle i gefnogi plant wrth bontio o leoliadau i ysgolion.

<u>Ym mhle y mae'r protocolau'n gweithio'n dda ac ai'r wybodaeth a ddarperir gan leoliadau Dechrau'n Deg yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar ysgolion?</u>

Datblygwyd y ddogfen bontio gydag amrywiaeth o bartneriaid o ysgolion, y gwasanaeth cynghori ac ymarferwyr lleoliadau. Mae'n darparu tystiolaeth ynghylch datblygiad plant, yn seiliedig ar feini prawf Proffil y Cyfnod Sylfaen Llywodraeth

Cymru. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'r plentyn yn mwynhau a lle mae angen cymorth arno i wella. Mae disgwyl i unrhyw ddogfennau o'r tu allan i gyfranogiad asiantaethau, Cynlluniau Chwarae Unigol ac asesiadau WellComm i gyd gael eu cynnwys yn y ddogfen.

Yn eich profiad chi, sut gellir goresgyn rhwystrau i rannu gwybodaeth?

Gellir goresgyn rhwystrau drwy:

- Ymgymryd â phroses safoni a chymedroli i sicrhau bod lleoliadau cyn-ysgol ac ysgolion o'r un farn er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb barn.
- Cynnal cyfarfodydd pontio pan fo'r ysgol sy'n cael y dogfennau yn trefnu sesiwn i rannu gwybodaeth neu pan fydd ymweliad yn cael ei drefnu â'r lleoliad sy'n bwydo.

**Dechrau'n Deg Sir Fynwy**

Pa brotocolau sydd yn eu lle i rannu gwybodaeth rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen a pha effaith maent wedi'i chael?

Cynhelir cyfarfodydd pontio bob tymor â'r lleoliadau Cyfnod Sylfaen sy'n cynnwys Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg, Arweinwyr Cylchoedd Chwarae, Athrawon Dechrau'n Deg, Cydlynydd Pontio Dechrau'n Deg, arweinydd lleoliad neu Athro/Athrawes y Cyfnod Sylfaen a Chydlynydd ADY yn ôl yr angen. Trafodir pob plentyn ac mae'r staff gofal plant yn trafod y ddogfen bontio ac yn ei throsglwyddo.

Bydd Cydlynydd Pontio Dechrau'n Deg yn trafod â'r lleoliadau Cyfnod Sylfaen cyn pontio i gael dyddiadau ymsefydlu ac ymweliadau'r plant â'r lleoliad. Mae staff gofal plant yn atgoffa teuluoedd i fynychu cyfarfodydd ac ymweliadau, a phan roddir y cyfle i blant ymweld â'r lleoliad Cyfnod Sylfaen, mae staff gofal plant yn anelu at fod yn bresennol gyda'r rhieni a phlant lle y bo'n bosibl. Pan fo lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen wedi'u lleoli ar yr un safle, bydd staff gofal plant Dechrau'n Deg yn ymweld â'r lleoliad newydd gyda'r plant bob wythnos am ddim llai na 3 – 4 wythnos cyn pontio.

Caiff staff y lleoliad Cyfnod Sylfaen eu gwahodd i ymweld â'r plant yn y lleoliad gofal plant a chynhelir cyfarfod pontio wedi hynny.

Yn dilyn y cyfnod pontio, mae Cydlynydd Pontio Dechrau'n Deg yn cadw cysylltiad â'r lleoliadau Cyfnod Sylfaen drwy wirio sut y mae plant Dechrau'n Deg wedi ymgartrefu ac a oes angen unrhyw wybodaeth neu gefnogaeth bellach.

I deuluoedd plant ag anghenion ychwanegol, cynhelir ymweliadau ychwanegol â lleoliadau i ddatblygu perthynas â staff a phlant y lleoliad newydd. Yn aml yn ystod yr ymweliadau hyn, mae gweithiwr allweddol y plentyn yn bresennol gyda'r teuluoedd. Rhoddir gwybod i leoliadau Cyfnod Sylfaen, gyda chaniatâd rhieni, am anghenion ychwanegol plant mor gynnar â phosibl er mwyn iddynt allu cynllunio'n effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny. Trefnir cyfarfod amlasiantaeth, sy'n cynnwys rhieni a chaiff dogfennau eu trosglwyddo mor gynnar â phosibl. Caiff Swyddog Anghenion

Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol sy'n rhan o ofal y plentyn hefyd eu gwahodd.

Os yw teuluoedd yn cael gwasanaethau Portage, bydd yr ymgynghorydd Portage yn parhau i drafod a gweithio gyda staff y Cyfnod Sylfaen yn ystod y flwyddyn meithrin.

Ym mhle y mae'r protocolau'n gweithio'n dda ac ai'r wybodaeth a ddarperir gan leoliadau Dechrau'n Deg yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar ysgolion?

Mae'n gweithio'n dda i bob un o'n lleoliadau gyda chefnogaeth Cydlynydd Pontio Dechrau'n Deg sy'n trefnu cyfarfodydd, yn cefnogi lleoliadau i lunio a rhannu dogfennau perthnasol ac yn cysylltu ag ysgolion ar ôl y cyfnod pontio a thrwy gydol y flwyddyn feithrin. I deuluoedd sy'n cael gwasanaethau Portage Dechrau'n Deg, bydd y gefnogaeth hon yn parhau drwy'r flwyddyn feithrin a bydd yr ymgynghorydd Portage yn trafod â staff y Cyfnod Sylfaen yn wythnosol.

Yn eich profiad chi, sut gellir goresgyn rhwystrau i rannu gwybodaeth?

Mae rhieni'n llofnodi dogfen Bontio Dechrau'n Deg i roi caniatâd i wybodaeth gael ei rhannu. Yn ogystal â hyn, mae staff lleoliad y Cyfnod Sylfaen yn llofnodi ffurflen gofnodi pontio i gydnabod eu bod i gyd wedi cael yr holl ddogfennau a'r wybodaeth bontio.

Os na ellir cynnal cyfarfod pontio, bydd Cydlynydd Pontio Dechrau'n Deg yn trefnu â'r lleoliad Cyfnod Sylfaen i ddarparu dogfennau pontio a'u trafod yn y lleoliad.

**Dechrau'n Deg Sir Benfro**

Pa brotocolau sydd yn eu lle i rannu gwybodaeth rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen a pha effaith maent wedi'i chael?

Mae pontio'n cynnwys defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio yn ein hysgolion. Mae hyn yn caniatáu pontio di-dor gyda data gwerth chweil ar gyfer Dechrau'n Deg ac ysgolion. Mae Proffil y Cyfnod Sylfaen wedi'i groesawu gan ysgolion ac mae hyn wedi gwella'r broses bontio.

Caiff gwybodaeth ei throsglwyddo mewn cyfarfod trosglwyddo rhwng Athro/Athrawes Ymgynghorol Dechrau'n Deg a'r athro Meithrin sy'n cynnwys trafodaethau am y plentyn. Bydd yr athro/athrawes ddosbarth hefyd wedi ymweld â'r lleoliad Dechrau'n Deg yn rheolaidd yn ystod blwyddyn y plentyn a byddai wedi datblygu gwybodaeth gadarn am ddatblygiad y plentyn. Bydd y plentyn hefyd yn ymweld â'r dosbarth y bydd yn mynd iddo.

Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cyfarfodydd rheolaidd am eu datblygiad yn ystod blwyddyn Dechrau'n Deg. Caiff y cyfarfodydd eu cydlynu a'u cadeirio gan athro/athrawes Ymgynghorol Dechrau'n Deg a bydd gweithwyr proffesiynol eraill yn bresennol gan gynnwys Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg, y Cydlynydd AAA a'r athro/athrawes ddosbarth.

Caiff gwybodaeth ei rhannu â phanel sy'n cael ei gadeirio gan yr athro/athrawes Anghenion Ychwanegol Cyn-ysgol. Yna, bydd penderfyniad ynghylch y lleoliad priodol i'r plentyn yn cael ei wneud. Wedyn, cynhelir cyfarfod pontio manwl a bydd athro/athrawes Ymgynghorol Dechrau'n Deg yn bresennol, ynghyd â'r athro/athrawes Ymgynghorol briodol a fydd yn cefnogi'r plentyn pan fydd y cyfnod pontio wedi dod i ben. Bydd plant ag anghenion ychwanegol a fydd yn dal i fod angen cymorth 1:1 ar ddiwedd Dechrau'n Deg yn cael 3 wythnos o gymorth pontio gan eu gweithiwr cymorth 1:1.

<u>Ym mhle y mae'r protocolau'n gweithio'n dda ac ai'r wybodaeth a ddarperir gan leoliadau Dechrau'n Deg yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar ysgolion?</u>

Mae pontio'n gweithio'n dda pan fo lleoliadau Dechrau'n Deg ar safle'r ysgol a bod cysylltiad da eisoes ar waith rhwng staff a phlant. Mae hefyd yn gweithio'n dda pan fo'r gweithwyr proffesiynol sydd eisoes yn gweithio gyda'r plentyn yn cyfarfod wyneb yn wyneb yn ystod y cam pontio nesaf i drafod y plentyn.

<u>Yn eich profiad chi, sut gellir goresgyn rhwystrau i rannu gwybodaeth?</u>

Gall cyfarfodydd pontio a datblygu perthynas dda ag Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg helpu. Mae'n bwysig bod rhieni wedi llofnodi'r ffurflenni cyn i unrhyw wybodaeth gael ei throsglwyddo i ysgol.

**Dechrau'n Deg Rhondda Cynon Taf**

<u>Pa brotocolau sydd yn eu lle i rannu gwybodaeth rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen a pha effaith maent wedi'i chael?</u>

Bydd athrawon meithrin (neu gynorthwywyr cymorth dysgu/nyrsys meithrin) yn ymweld â'r lleoliad i oruchwylio'r plant neu i gynnal gweithgareddau penodol megis amser stori. Yn yr un modd, bydd ysgolion yn gwahodd staff lleoliadau i ddiwrnodau pontio neu ddigwyddiadau megis diwrnodau chwaraeon a chyngherddau ysgol.

Mae pob yn o'n lleoliadau Dechrau'n Deg a'n Darparwyr Addysg Cofrestredig yn llenwi dogfen bontio ('Ar Fy Ffordd') a chaiff ei rhoi i ysgolion ar ddiwedd y tymor cyn iddynt ddechrau yno. Mae hyn yn cael ei gysoni â Phroffil y Cyfnod Sylfaen.

Cynhelir cyfarfodydd Tîm y Blynyddoedd Cynnar o Amgylch y Plentyn (EYTAC) hefyd ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Os oes gan blant anghenion meddygol difrifol neu gymhleth, yna dylid trefnu cyfarfod EYTAC ar gyfer dechrau'r hanner tymor cyn i'r plentyn ddechrau yn y feithrinfa. Caiff pob oedolyn arwyddocaol sy'n gweithio gyda'r plentyn ei wahodd a gall y rhain gynnwys rhieni neu warcheidwaid, yr ysgolion sy'n derbyn y plentyn, cynrychiolwyr lleoliad Dechrau'n Deg, Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg a chynrychiolwyr o dîm craidd Dechrau'n Deg. Mae'r ddogfen bontio '*Ar Fy Ffordd*' yn cael ei rhannu yn ystod cyfarfodydd Dechrau'n Deg ac EYTAC.

Pan fo cynllun gweithredu ar gyfer cyfarfod EYTAC yn cael ei lunio, bydd pob rhanddeiliad perthnasol / oedolyn arwyddocaol yn cael o leiaf un cam gweithredu. Er enghraifft, bydd gofyn i ysgol sicrhau bod cardiau 'nawr a phryd hynny' ar gael i'r

plentyn yn ogystal â phecyn gwybodaeth sy'n cynnwys ffotograffau o'r ystafell ddosbarth a'r athrawon. Yna, caiff y camau gweithredu eu hadolygu yng nghyfarfod dilynol EYTAC i fonitro cynnydd tuag at nodau'r plentyn.

Gwahoddir athrawon meithrin i ymweld â'r safle cyn i'r plant ddechrau yn yr ysgol a bydd eu sylwadau o'r plentyn yn y lleoliad yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol bellach.

Ym mhle y mae'r protocolau'n gweithio'n dda ac ai'r wybodaeth a ddarperir gan leoliadau Dechrau'n Deg yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar ysgolion?

Mae adborth ynghylch cyfarfodydd EYTAC wedi bod yn gadarnhaol. Mae ysgolion lle cynhaliwyd cyfarfodydd EYTAC bellach yn gofyn iddynt gael eu cynnal yn amlach gan eu bod yn gwerthfawrogi deilliant y cyfarfod. Mae'r ymrwymiad i'r cynllun gweithredu ar ddiwedd y cyfarfod yn rhoi sylfaen/carreg filltir ar gyfer cynnwys y cyfarfod dilynol ac yn ein galluogi i fesur y cynnydd y mae'r plentyn wedi'i wneud.

Y gobaith yw y bydd y ddogfen bontio '*Ar Fy Ffordd*' yn cynorthwyo ysgolion i wybod pa blant sydd fwyaf tebygol o fod ag anghenion dysgu ychwanegol ac o bosibl sydd angen mwy o gymorth. Bydd hefyd yn dangos i ysgolion bod y lleoliad Dechrau'n Deg wedi dilyn ymateb graddedig tuag at asesu a diwallu anghenion y plentyn.

O ran y cyfarfodydd EYTAC, rhoddir y cyfle i ysgolion gasglu'r holl wybodaeth y maent yn teimlo sydd ei hangen i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi'r plentyn yn llawn.

Yn eich profiad chi, sut gellir goresgyn rhwystrau i rannu gwybodaeth?

Yn y gorffennol, rydym wedi gweithio gyda'r strategaeth Gwella Ysgolion i wella cyfathrebu. Rydym hefyd wedi cynnal cyfarfodydd o'r Rhwydwaith bob tymor gyda chlystyrau fesul cwm lle gwahoddwyd gweithwyr proffesiynol y lleoliadau, yr ysgolion ac eraill i fod yn bresennol.

Mae cynnal cyfarfodydd EYTAC a rhoi platfform i'r holl randdeiliaid drafod anghenion y plentyn a rhannu gwybodaeth â'i gilydd wedi cynorthwyo i oresgyn rhwystrau cyfathrebu penodol.

Rydym hefyd wedi sicrhau'r hyn y byddai ysgolion yn dymuno ei weld yn y ddogfen bontio '*Ar Fy Ffordd*'. Nodwyd y byddai cael pwynt cyswllt ar gyfer holl gyswllt asiantaeth o fudd i'r ysgolion a'r lleoliadau yn ogystal â chynnwys gwybodaeth fanylach am elfennau megis yr hyn y mae'r plentyn yn ei hoffi neu nad yw'n hoffi, a'r hyn a allai ysgogi straen.

**Dechrau'n Deg Abertawe**

Pa brotocolau sydd yn eu lle i rannu gwybodaeth rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen a pha effaith maent wedi'i chael?

Mae bron pob un o leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg wedi'u lleoli mewn ysgolion sy'n gwneud y broses yn llawer mwy effeithiol. Mae perthynas weithio agos wedi datblygu rhwng staff Dechrau'n Deg a staff y Cyfnod Sylfaen drwy ymweliadau rheolaidd, cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol, diwrnodau agored, gweithgareddau ar y

cyd (ee cyngherddau, gwibdeithiau, diwrnodau chwaraeon), grwpiau rhianta a hyfforddiant ar y cyd i staff.

Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae plant sy'n derbyn gofal plant Dechrau'n Deg yn pontio i'r ysgol sydd wedi'i lleoli ar yr un safle lle maent yn ymweld o leiaf bedair gwaith â'r dosbarth meithrin cyn dechrau yno. Yn ogystal â hyn, mae Gweithiwr Allweddol Dechrau'n Deg yn cyfarfod ag aelod o staff o'r dosbarth meithrin ac yn trafod y dogfennau pontio sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd am Broffil y Cyfnod Sylfaen; sgôr WellComm y plentyn; ac os yn berthnasol, targedau Cynllun Chwarae Unigol a'r Therapydd Lleferydd ac Iaith. Os oes gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol, gall y Seicolegydd Addysg hefyd fod yn bresennol mewn cyfarfod â'r Cydlynydd AAA a staff enwebedig eraill.

Mewn achosion pan fo plant yn pontio i ysgolion nad ydynt ar yr un safle, caiff yr wybodaeth ei throsglwyddo i aelod enwebedig o staff mewn cyfarfod a drefnir ymlaen llaw, lle bo hynny'n bosibl. Fel arall, caiff hyn ei wneud drwy gynnal sgwrs ffôn a chaiff yr wybodaeth ei rhoi i'r Feithrinfa cyn i'r plentyn ddechrau yno.

Mae Athrawon Cyswllt Dechrau'n Deg yn gweithio'n agos gydag Arweinydd y Cyfnod Sylfaen, yn dadansoddi data, darparu hyfforddiant ar y cyd, rhannu arferion da a chynnal Diwrnod Pontio blynyddol i staff Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal â hyn, caiff gwybodaeth am blant ei throsglwyddo o Dechrau'n Deg i ysgolion drwy SIMS, ac felly mae modd olrhain mewn modd symlach a mwy effeithiol.

Mae gofal plant Dechrau'n Deg yn trafod â'r Cyfnod Sylfaen i sicrhau bod gofal Dechrau'n Deg ar gyfer y plentyn, lle bo hynny'n bosibl, yn dechrau 42 o wythnosau cyn y dyddiad cychwyn ysgol tybiedig, gan felly sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

<u>Ym mhle y mae'r protocolau'n gweithio'n dda ac ai'r wybodaeth a ddarperir gan leoliadau Dechrau'n Deg yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar ysgolion?</u>

Mae pontio'n gweithio'n dda ym mhob un o'n lleoliadau. Fodd bynnag, mae un lleoliad (San Helen) wedi'i nodi fel enghraifft o arfer da yn dilyn Arolygiad Estyn a wnaeth gydnabod hyn fel un o gryfderau'r ysgol a Dechrau'n Deg.

Mae rhai o leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg yn bwydo i nifer o feithrinfeydd ysgol. Er nad yw'r trefniadau pontio mor effeithiol ag y byddent pe byddai modd i'r plant fynd i ysgol ar yr un safle, mae protocolau ar waith i rannu'r dogfennau pontio. Yn yr achosion hyn, caiff yr wybodaeth ei throsglwyddo i aelod enwebedig o staff mewn cyfarfod a drefnir ymlaen llaw. Fel arall, caiff hyn ei wneud drwy gynnal sgwrs ffôn a chaiff yr wybodaeth ei rhoi i'r feithrinfa cyn i'r plentyn ddechrau yno. Yn ogystal â hyn, bydd Gweithiwr Allweddol Dechrau'n Deg mewn rhai achosion yn trefnu i gyfarfod â'r plentyn gyda'r rhiant/rhieni ym meithrinfa'r ysgol ar gyfer eu cyfarfod cyntaf.

Mae gan blant sy'n derbyn gofal Dechrau'n Deg mwy o gyfleoedd i ymweld â'r feithrinfa, ac mae perthynas sefydledig rhwng staff amlasiantaeth yn golygu bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn fwy effeithiol. Mae teuluoedd eisoes wedi datblygu

perthynas â'r lleoliad Dechrau'n Deg, gan felly ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn ymgysylltu â'r ysgol o ganlyniad i hyn.

Gwnaeth Athrawon Cyswllt Dechrau'n Deg adolygu'r wybodaeth a rannwyd rhwng Dechrau'n Deg a'r Meithrinfeydd yn dilyn pryderon ynghylch perthnasedd a defnyddioldeb y ffordd flaenorol o olrhain datblygiad.

Mae gweithredu Proffil y Cyfnod Sylfaen mewn Meithrinfeydd ac o fewn Dechrau'n Deg Abertawe wedi arwain at un offeryn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y ddau gyfnod, gan felly greu mwy o gysondeb a pharhad.

Yn gyffredinol, mae ysgolion yn dweud bod gwybodaeth sy'n cael ei rhannu yn y cyfarfodydd pontio yn ddefnyddiol dros ben at ddibenion cynllunio, asesu ac olrhain.

Yn eich profiad chi, sut gellir goresgyn rhwystrau i rannu gwybodaeth?

Pan fo trefniadau derbyn ysgol yn newid, oherwydd bod amgylchiadau wedi newid (ee arian, lefelau staffio, dosbarthiadau llawn), gall y broses o bontio gael ei llesteirio ar adegau. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n hanfodol bod y newidiadau'n cael eu cynllunio ymlaen llaw ac y caiff gwybodaeth ei rhannu rhwng yr ysgol a Dechrau'n Deg lle bo hynny'n bosibl.

Mae trefniadau pontio yn fwy effeithiol pan fo plant yn mynd i feithrinfeydd sydd ar yr un safle â'r ysgol. Fodd bynnag, mae Rheolwyr a Gweithwyr Allweddol Gofal Plant Dechrau'n Deg yn datblygu perthynas agos â staff o nifer o feithrinfeydd nad ydynt ar yr un safle er mwyn rhannu dogfennau pontio.

**Dechrau'n Deg Bro Morgannwg**

Pa brotocolau sydd yn eu lle i rannu gwybodaeth rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen a pha effaith maent wedi'i chael?

Mae Gweithiwr Allweddol Dechrau'n Deg yn paratoi pecyn pontio yn y lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg.

Mae'r pecyn yn cynnwys y ddogfen bontio *'Amdanaf Fi'* ynghyd ag asesiadau datblygiad y plentyn, canlyniadau sgrinio WellComm a gwybodaeth am Broffil y Cyfnod Sylfaen. Mae Athrawon Ymgynghorol Dechrau'n Deg yn ymweld â phob ysgol ddalgylch ac yn datblygu cysylltiadau da ag athrawon meithrin / y cyfnod sylfaen gan felly fynd i'r afael â materion sy'n codi, y cynnydd sy'n cael ei wneud a'r gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd ac ati.

Mae Dechrau'n Deg yn hwyluso cyfarfod tymhorol sy'n dod ag arweinwyr lleoliadau ac athrawon meithrin/arweinwyr y Cyfnod Sylfaen ynghyd. Un deilliant o'r cyfarfodydd hyn yw ein bod wedi nodi'r angen i gynnal cyfarfodydd cymedroli ar ôl hanner tymor o hawliad plentyn wrth gyflwyno Proffil y Cyfnod Sylfaen o fewn lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg. Mae hyn yn sicrhau bod y lefelau asesu y cytunwyd arnynt ar waith yn y lleoliadau a'r ysgolion meithrin yn y dalgylch.

Yn aml, caiff y trefniadau pontio eu trafod yng nghyfarfodydd tymhorol y lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg, a chânt eu hwyluso gan Ymgynghorydd Dechrau'n Deg. Yn bresennol yn y cyfarfodydd mae arweinwyr y lleoliadau, athrawon meithrin o ysgolion lleol y dalgylch, hwylusydd rhwydwaith gwarchodwyr plant a rheolwyr perthnasol Dechrau'n Deg (Arweinydd y prosiect a'r Blynyddoedd Cynnar). Caiff bylchau a syniadau, ynghyd ag arfer da, ymchwil newydd ac ati, eu rhannu.

Nifer fach o blant Dechrau'n Deg sy'n mynychu rhai meithrinfeydd felly bydd yr Athro/Athrawes Ymgynghorol (a elwir hefyd yn Ymgynghorydd y Blynyddoedd Cynnar) a/neu staff gofal plant yn ymweld â'r ysgol ac yn mynd â'r dogfennau perthnasol gyda nhw. Mae eu cyflwyno drwy law yn fwy effeithiol nag anfon yr wybodaeth drwy'r post.

Ceir hefyd gysylltiad uniongyrchol â meithrinfeydd – e-byst uniongyrchol i sicrhau, er enghraifft, bod gwahoddiadau i gyfarfodydd / digwyddiadau pontio yn eu cyrraedd. Mae Ymgynghorydd y Blynyddoedd Cynnar yn cynnal ymweliadau dilynol â'r ysgolion yn y dalgylch erbyn hanner tymor i drafod unrhyw bryderon a allai fod wedi codi a chynnig cyswllt/atgoffa ysgolion y gallant gyfeirio at wasanaethau cymorth eraill Dechrau'n Deg. Gall y rhain gynnwys Ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer sgiliau LlIC neu gymorth gydag arferion, rhianta ac ati.

Mae gan Dechrau'n Deg leoliadau (dau yn fewnol, un wedi'i gomisiynu) o fewn tair o'r chwe ysgol ddalgylch. Mae hyn wedi gwella cysylltiad/cyfathrebu.

Pan fo plant yn symud ymlaen i ysgolion sydd y tu allan i'r ardal, bydd Ymgynghorydd Dechrau'n Deg yn sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnig a bod y dogfennau/gwybodaeth berthnasol yn cael eu rhannu'n briodol.

<u>Ym mhle y mae'r protocolau'n gweithio'n dda ac ai'r wybodaeth a ddarperir gan leoliadau Dechrau'n Deg yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar ysgolion?</u>

Mae gennym ysgol Dechrau'n Deg 'rithwir' wrth i bob plentyn Dechrau'n Deg gael ei baru i'w system Cyfeirio Disgyblion Unigryw a chaiff pecynnau data eu llunio bob blwyddyn ac felly mae'n bosibl cymharu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen â data cyfoedion yn yr ardal Dechrau'n Deg, yr awdurdod lleol yn ehangach a Chymru gyfan.

Er bod yno gafeatau (er enghraifft, cohort Dechrau'n Deg gweddol fach ac elfen dros dro o fewn y boblogaeth Dechrau'n Deg), mae yn darparu data sydd 'ddigon da' i gael eu hystyried. Bydd y pecynnau data hyn yn cael eu rhannu â'r 6 ysgol sydd â'r nifer mwyaf o blant Dechrau'n Deg o fewn poblogaeth yr ysgolion er gwybodaeth ac i annog trafodaeth ar gydweithio agosach i wella'r deilliannau.

Pan ymgynghorwyd ag ysgolion, roeddent yn fodlon â lefel yr wybodaeth a gafwyd gan Dechrau'n Deg. Roeddent o'r farn bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio'n rhagweithiol i sicrhau bod yr holl blant yn cael eu lleoli yn briodol i'w hanghenion a'u profiadau blaenorol. Yn gyffredinol, dywedwyd nad oedd angen unrhyw wybodaeth bellach.

Datblygwyd 'Gweithdrefn Pontio Gofal Plant' gan ein Hymgynghorydd y Blynyddoedd Cynnar sy'n cynnwys data WellComm a Phroffil y Cyfnod Sylfaen. Ar ôl ei gwblhau, aeth Ymgynghorydd y Blynyddoedd Cynnar ati i ymgynghori ag ysgolion i weld a oedd yn diwallu eu hanghenion.

Yn eich profiad chi, sut gellir goresgyn rhwystrau i rannu gwybodaeth?

Mae mwy o gyfathrebu, cymorth penodol a chyflwyno Athro/Athrawes Ymgynghorol gyda ffocws ar blant 3-4 oed wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae'r pum ysgol ddalgylch Dechrau'n Deg bellach yn defnyddio Pecyn Cymorth Lleferydd ac Iaith WellComm i sgrinio a darparu ymyraethau i blant Meithrin 1. Mae hyn yn sicrhau bod yno gontinwwm o ddefnydd o leoliadau Dechrau'n Deg i ysgolion ac y bydd data ar gael o gynnydd plant o ddwy oed i bedair oed.

Mae'r ysgolion dalgylch yn gwbl ymwybodol o wasanaethau Dechrau'n Deg sy'n cefnogi teuluoedd â phlant 3-4 oed, a sut i gael mynediad atynt. Mae cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu i sicrhau bod lleoliadau ac ysgolion yn datblygu amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi'r broses bontio i blant, parhau i drafod a datblygu ffyrdd o gynnal gweithgareddau ar y cyd i blant yn y ddau le.

**Dechrau'n Deg Wrecsam**

Pa brotocolau sydd yn eu lle i rannu gwybodaeth rhwng lleoliadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen a pha effaith maent wedi'i chael?

Mae goruchwylwyr Dechrau'n Deg yn cyfarfod â goruchwylwyr Addysg Gynnar neu athrawon meithrin i drafod gwybodaeth berthnasol sy'n berthnasol i'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys dewisiadau chwarae'r plentyn; ffrindiau penodol; anghenion meddygol; strategaethau a ddefnyddir i gefnogi llesiant emosiynol y plentyn ac adnabod angen anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gynnar. Pan fo'n briodol, caiff gwybodaeth gyfrinachol ei rhannu â'r person cyfrifol.

Caiff gwaith papur pontio Dechrau'n Deg a chynlluniau chwarae ADY eu rhoi i oruchwyliwr neu athro/athrawes feithrin y lleoliad nesaf, a'u trafod. Cynhelir ymweliadau pontio drwy'r flwyddyn (bydd plant Dechrau'n Deg yn ymweld â'u lleoliad newydd a bydd staff y cylch chwarae newydd neu'r athro/athrawes feithrin newydd hefyd yn ymweld â'r plant yn eu lleoliad Dechrau'n Deg presennol) a gellir rhannu gwybodaeth yn anffurfiol.

Ym mhle y mae'r protocolau'n gweithio'n dda ac ai'r wybodaeth a ddarperir gan leoliadau Dechrau'n Deg yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar ysgolion?

Mae'r protocolau pontio yn gweithio'n dda pan fo pawb yn cydweithio a phan fo perthynas weithio gref rhwng Gofal Plant Dechrau'n Deg a lleoliadau Addysg Gynnar neu ysgolion.

Mae pob lleoliad yn cwblhau dogfennau pontio unigol sy'n dangos y cynnydd y mae plentyn wedi'i wneud. Mae'r tîm Cynghorol Gofal Plant wedi mireinio'r ddogfen i sicrhau bod modd ei llenwi'n rhwydd ac yn amserol. Mae'r trafod rhwng ymarferwyr

yn fuddiol i gefnogi'r gwaith papur. Mae'r ymarferwyr a'r Athrawon Ymgynghorol yn gweld hyn o help mawr i sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu.

Mae'r protocolau hyn fwyaf effeithiol pan fo'r ddarpariaeth gofal plant ar yr un safle a'r ddarpariaeth Addysg Gynnar a/neu'r ddarpariaeth feithrin a lle bo un strwythur rheoli sydd ar waith.

Yn eich profiad chi, sut gellir goresgyn rhwystrau i rannu gwybodaeth?

Gellir goresgyn rhwystrau drwy:

- Fewnbwn/ymweliadau rheolaidd â grwpiau Addysg Gynnar gan Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg.
- 'Y diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth yn y gymuned addysg ehangach ynghylch Dechrau'n Deg' – byddai modd mynd i'r afael â hyn drwy gynrychioli Dechrau'n Deg mewn cyfarfodydd Penaethiaid. Yn ogystal â hyn, y gwasanaeth ymgynghori gofal plant i hyrwyddo gofal plant drwy gynnal sesiwn wybodaeth flynyddol i gynulleidfa darged o gynrychiolaeth ysgol.
- 'Logisteg gweithredu protocol a gweithdrefnau pontio ee amser, rhyddhau staff' – byddai modd datrys hyn drwy gynlluniau strategol i gydnabod y pwysigrwydd o gynnwys Dechrau'n Deg o fewn polisïau a phrotocolau pontio Sirol ac Ysgolion.
  Hefyd, mae angen cydweithrediad ac ymrwymiad pawb dan sylw wrth lunio polisi pontio – ni ddylai un lleoliad ysgwyddo'r baich o lunio'r polisi. Yn yr un modd, gellir anfon llythyr at yr holl ysgolion yn gofyn i wasanaeth Dechrau'n Deg gael ei gynnwys yn eu polisi pontio (os yw'n ofynnol).
- Mae cydleoli Timau Gofal Plant Ymgynghorol Dechrau'n Deg, y Timau Ymgynghorol Addysg Gynnar a'r timau Cymorth Ysgol y Cyfnod Sylfaen mewn un lleoliad yn hyrwyddo perthynas weithio gadarnhaol, cyfathrebu da a gweithio mewn ffordd gydlynol.
- Mae Athrawon Ymgynghorol Uwch Dechrau'n Deg yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor i drafod materion cyffredin ee pontio, hyfforddiant a chyflenwi gwasanaeth.
- ''Os oes gan blentyn anghenion meddygol, anghenion ychwanegol penodol neu unrhyw angen arall' – Gallai Athrawon Ymgynghorol Dechrau'n Deg/Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg drafod a threfnu cyfarfod rhwng pawb sy'n berthnasol. Hefyd, gall athro/athrawes feithrin neu oruchwyliwr gysylltu â goruchwyliwr Dechrau'n Deg os oes pryderon yn codi neu bod angen rhagor o wybodaeth.
- 'Mae newidiadau staff ysgolion a lleoliadau addysg gynnar yn effeithio ar berthnasoedd gweithio sefydledig' – gall Athro/Athrawes Ymgynghorol Dechrau'n Deg drafod ag Ysgolion a lleoliadau Addysg Gynnar i greu cysylltiadau a pherthnasoedd cadarnhaol.